

LLESIANT CYMDEITHASOL

Cynnwys

LLESIANT CYMDEITHASOL	1
1 Cyflwyniad i'r bennod	4
2 Trosedd a diogelwch cymunedol	5
2.1 Cyflwyniad i drosedd a diogelwch cymunedol	5
2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Maes Diogelwch Cymunedol	5
2.3 Troseddau a Gofnodir gan yr Heddlu	6
2.3.1 Troseddu cyffredinol	7
2.3.2 Difrod troseddol a thanau bwriadol	8
2.3.3 Ymddygiad gwrthgymdeithasol	8
2.3.4 Troseddau casineb	9
2.3.5 Troseddu gan bobl ifanc	10
2.3.6 Achosion o bryder yn ymwneud â phlant	13
2.3.7 Ecsbloetio plant yn droseddol	13
2.3.8 Ecsbloetio plant yn rhywiol	14
2.3.9 Troseddau a alluogir gan dechnoleg seiber	15
2.3.10 Cynllun Heddlu a Throsedd Gwent 2021-2025	16
2.4 Dulliau o wella diogelwch cymunedol a lleihau trosedd	18
2.5 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)	19
2.6 Digwyddiadau yn ymwneud â'r Gwasanaeth Tân ac Achub	23
2.7 Tueddiadau a heriau'r dyfodol	30
2.8 Casgliad	34
3 Addysg	36
3.1 Cyflwyniad i addysg	36
3.2 Cyflawniad addysgol	37
3.2.1 Blynyddoedd cynnar	37
3.2.2 Ysgolion cynradd	38
3.2.3 Ysgolion uwchradd	41
3.2.4 Cyflawniad grwpiau agored i niwed	43
3.3 Deilliannau addysg plant a phobl ifanc	45
3.4 Addysg ar gyfer llesiant	50
3.5 Pandemig Covid-19	51
3.6 Tueddiadau a heriau'r dyfodol	54

3.7	Casgliad	54
4	Iechyd	55
4.1	Cyflwyniad i iechyd	55
4.2	Anghydraddoldebau iechyd – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	55
4.3	Disgwyliad oes.....	57
4.4	Cofrestriadau canser	59
4.5	Marwolaethau oherwydd canser	60
4.6	Marwolaethau oherwydd clefyd cardiofasgwlar.....	61
4.7	Marwolaethau oherwydd Covid-19	62
4.8	Oedi wrth drosglwyddo gofal	63
4.9	Iechyd a datblygiad babanod a phlant	64
4.9.1	Pwysau geni isel mewn genedigaethau sengl byw	64
4.9.2	Beichiogi yn yr arddegau	65
4.9.3	Bwydo ar y fron	66
4.9.4	Plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd cerrig milltir datblygiadol neu'n rhagori arnynt	67
4.9.5	Pwysau iach a gordewdra	68
4.9.6	Imiwneiddio.....	68
4.9.7	Iechyd y geg	70
4.9.8	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	72
4.10	Ffyrdd o fyw iach	75
4.10.1	Gweithgaredd corfforol.....	75
4.10.2	Deiet iach	77
4.10.3	Alcohol	78
4.10.4	Ysmygu.....	80
4.10.5	Unigolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew	83
4.10.6	Diabetes	84
4.11	Iechyd a lles emosiynol	85
4.11.1	Iechyd meddwl	85
4.11.2	Unigrwydd	88
4.11.3	Hunanladdiad a hunan-niwedio.....	90
4.12	Tueddiadau a heriau'r dyfodol	91
4.13	Casgliad	96
5	Tai	97
5.1	Cyflwyniad i dai	97
5.2	Amddifadedd tai	97
5.3	Aelwydydd	99

5.4	Daliadaeth tai	99
5.5	Fforddiadwyedd	101
5.6	Tlodi tanwydd	102
5.7	Digartrefedd	103
5.8	Tueddiadau a heriau'r dyfodol	106
6	Trafnidiaeth.....	108
6.1	Cyflwyniad i dtrafnidiaeth	108
6.2	Seilwaith trafndiaeth	108
6.2.1	Seilwaith trafndiaeth rhanbarthol	109
6.2.2	Trafnidiaeth gyhoeddus	110
6.2.3	Trafnidiaeth breifat	112
6.2.4	Teithio llesol	113
6.3	Lle mae pobl yn teithio	114
6.3.1	Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau	114
6.3.2	Cymudo	115
6.3.3	Hygyrchedd a thrafnidiaeth	116
6.4	Tueddiadau a heriau'r dyfodol	117
7	Yr hyn mae ein preswylwyr wedi ei ddweud wrthym	119
	Cyfeiriadau	122

1 Cyflwyniad i'r bennod

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar lesiant cymdeithasol yng Ngwent. Mae'n edrych ar iechyd pobl, y tai a'r cymunedau lle maent yn byw a pha mor ddiogel a chydlynus ydynt. Mae'n dweud wrthym am drafnidiaeth a sut mae pobl yn teithio o amgylch Gwent a thu hwnt. Mae'n ystyried canlyniadau addysg hefyd, a sut gallant effeithio ar lesiant tymor hir.

Mae'n tynnu sylw at yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau mewn perthynas ag iechyd, tai ac addysg a'r ffaith bod y rhain yn aml yn rhyng-gysylltiedig; bod ansawdd tai yn gallu effeithio ar iechyd ac y gall iechyd gwael effeithio ar berfformiad addysg a gallu pobl i ddod o hyd i swydd neu gadw swydd.

Rydym yn gwybod hefyd fod mynediad at drafnidiaeth a'r gost sy'n gysylltiedig yn broblem i rai pobl ac y gall dull pobl o deithio gael effaith ar iechyd – yn uniongyrchol drwy gynnwys cyfleoedd i gerdded neu feicio, neu'n anuniongyrchol oherwydd y llygredd aer a achosir gan draffig. Gall pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo effeithio ar ba mor gyfforddus ydynt i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu fynd am dro.

Mae'r angen i blant a phobl ifanc gael y dechrau gorau mewn bywyd yn amlwg ac rydym yn gwybod fod modd atal llawer o'r anghydraddoldebau ac amgylchiadau byw gwael sy'n wynebu ein cymunedau neu fod modd lleihau eu heffeithiau. Rydym yn gwybod hefyd fod y bobl sy'n wynebu'r anfantais fwyaf yn ein cymunedau yn fwy tebygol o brofi rhai o effeithiau negyddol hinsawdd sy'n newid – er y bydd gaeafau mwynach yn helpu i leihau tlodi tanwydd, rydym yn gwybod fod effeithlonrwydd thermol llawer o'n stoc tai yn wael ac mae'n fwy anodd ac yn llawer mwy costus eu gwresogi tai o'r fath mewn tywydd oer neu eu hoeri mewn tywydd poeth. Yn ôl asesiad risg hinsawdd y DU, disgwylir y bydd oerfel yn parhau i achosi nifer sylweddol o farwolaethau¹.

2 Trosedd a diogelwch cymunedol

2.1 Cyflwyniad i drosedd a diogelwch cymunedol

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i ni am drosedd, diogelwch cymunedol, diogelwch tân a chydlyniant ein cymunedau yng Ngwent.

Rydym eisiau i bobl yng Ngwent fyw mewn cymunedau cynhwysol lle maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu cymryd rhan a dylanwadu ar y pethau sy'n effeithio arnynt. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden fod yn ffordd wych o ddod i adnabod pobl. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella'r ardal leol, fel rheoli ardal werdd gymunedol, casglu sbwriel, trefnu digwyddiadau lleol neu gymryd rhan ynddynt, helpu i ddod â phobl a chymunedau ynghyd hefyd. Gall prosiectau ynni cymunedol gynnig incwm defnyddiol y gellir ei fuddsoddi yn yr ardaloedd lle mae pobl yn byw, gan eu gwneud yn lleoedd mwy effeithlon a brafach, yn ogystal â chynhyrchu mwy o egni glân. Yn ystod pandemig Covid-19 mae ein cymunedau wedi dod ynghyd i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed mewn ffyrdd arloesol a dyfeisgar.

Bydd lleihau effaith trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar fusnesau lleol yn helpu'r economi i ffynnu a bydd pobl yn teimlo'n well am yr ardal lle maent yn byw. Bydd mynd i'r afael â throseddau fel tipio anghyfreithlon yn gwneud ein mannau gwyrdd yn fwy diogel fel y gall pobl eu defnyddio a'u mwynhau. Bydd gwella diogelwch ffyrdd yn cefnogi busnesau sy'n dibynnu ar y seilwaith lleol i symud deunyddiau crai, nwyddau a dosbarthu gwasanaethau yn ogystal â lleihau'r baich ar ein gwasanaethau brys. Bydd llwybrau teithio llesol diogel, yn enwedig rhai y gellir eu defnyddio i deithio i'r gwaith, yn lleihau costau teithio ac yn galluogi mwy o bobl i fwynhau'r buddion iechyd a ddaw yn sgil llesiant.

Mae diogelwch cymunedol, trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnom a'n cymunedau, ac mae'n fater pwysig i bob un ohonom. Nid mater o ddatrys troseddau yn unig yw hyn, ond yn hytrach ystyried beth gellir ei wneud i atal y gweithgareddau hyn yn y lle cyntaf. Mae gwasanaethau cyhoeddus ar draws Gwent eisoes yn gweithio gyda'i gilydd drwy ganolfannau cymunedol a phartneriaethau lleol i gefnogi dioddefwyr a'r bobl hynny y mae trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt, ac er mwyn deall yr achosion sylfaenol a dod o hyd i atebion i'r materion hyn.

Mae rhagor o fanylion am y materion hyn ar lefel ddaearyddol is yn yr Asesiadau Llesiant Lleol sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon, os yw'r data'n bodoli ar y lefel honno.


2.2 Maes Diogelwch Cymunedol, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae maes Diogelwch Cymunedol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei lunio o ddangosyddion sy'n cynnwys difrod troseddol, trosedd treisgar, ymddygiad gwrthgymdeithasol, bwrgeriaeth, dwyn a digwyddiadau yn ymwneud â thanau.

Mae Ffigur S1 yn dangos mai Stow Hill 3, Stow Hill 1 a Philgwenlli 4, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHlau) yng Nghasnewydd yw'r AGEHlau sydd yn yr 2^{il}, 4^{ydd} a'r 9^{fed} safle yn y drefn honno (o blith 1909 ar draws Cymru) o ran y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes Diogelwch Cymunedol yn gyffredinol, gyda lefelau uchel cyfatebol o amddifadedd mewn perthynas â difrod troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a dwyn.

Ar y cyfan, mae 73 o'r 191 AGEHlau mwyaf difreintiedig (y 10% uchaf) yng Nghymru i'w cael yng Ngwent, ac mae hyn yn cyfateb i 38.2% o bob AGEHI yn y categori mwyaf difreintiedig hwn. O blith y rhain, mae gan Blaenau Gwent 13 AGEHI (17.8% o'r cyfanswm), mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili 16 (21.9%), mae gan Sir Fynwy 1 (1.4%), mae gan Gasnewydd 34 (46.6%) ac mae gan Dorfaen 9 (12.3%). Mae hyn yn dangos mai yng Nghasnewydd mae bron i hanner yr AGEHlau mwyaf difreintiedig yng Ngwent yn y maes Diogelwch Cymunedol.

Ffigur S1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Gwent yng nghategori'r 10% mwyaf difreintiedig ar draws Cymru o ran Diogelwch Cymunedol



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru


2.3 Troseddau a gofnodir gan yr Heddlu

Mae Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel yn rhoi ciplun o faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch pobl sy'n byw yng Ngwent. Ei nod yw cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ar gyfer Gwent ac yn lleol, ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd â'r asesiadau strategol yn ymwneud â dileu camddefnyddio sylweddau a lleihau aildroseddu, i roi gwybod i ni am drosedd yng Ngwent.

Gall amddifadedd ac anghydraddoldebau rhwng ardaloedd gwahanol a phreswylwyr Gwent gynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dioddef trosedd neu'n troseddu. Mewn sawl achos, gellir olrhain ymddygiad troseddol yn ôl at broblemau cymdeithasol a theuluol fel camddefnyddio alcohol a chyffuriau neu drais domestig. Yng Ngwent, mae rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn agos yn ddaearyddol i'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, ac ymhob cymuned bydd lefelau gwahanol o amddifadedd ymhlith unigolion ac aelwydydd. Gall hyn helpu i esbonio'r lefelau anghymesur ac amrywiol o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gwirioneddol a chanfyddedig yn y rhanbarth.

2.3.1 Troseddu cyffredinol

Ffigur S2: Troseddu cyffredinol am bob 1,000 o'r boblogaeth yng Ngwent 2016-17 i 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau troseddu cyffredinol – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gwelwyd cynnydd cyffredinol yn lefelau troseddu Gwent am bob 1,000 o'r boblogaeth (ac ym mhob un o'r awdurdodau lleol) rhwng 2016-17 a 2018-19, cyn sefydlogi a hyd yn oed gostwng mewn rhai awdurdodau lleol yn 2019-20. Yn ardal pob awdurdod lleol ac yng Ngwent yn gyffredinol gwelwyd gostyngiad eithaf sylweddol yn y gyfradd am bob 1,000 o'r boblogaeth yn 2020-21, ond mae'n debygol mai'r gwahanol gyfyngiadau a'r cyfnodau clo a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19 sydd i gyfrif am hyn (neu'n rhannol o leiaf). Yn gyffredinol, roedd y lefelau troseddu cyffredinol am bob 1,000 o'r boblogaeth ar eu hisaf yn Sir Fynwy yn ystod y cyfnod amser dan sylw, ac roeddynt ar eu uchaf yng Nghasnewydd.

Mae'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil pandemig Covid-19 wedi chwarae rhan enfawr i leihau troseddu (mewn rhai categorïau troseddu uchel fel dwyn o siopau mae'r gostyngiad hwn yn parhau – mae'n debyg bod hyn oherwydd gwaith mudiadau i gadw pobl ddigartref o'r strydoedd er mwyn rhoi mwy o gyfle iddynt hawlio budd-daliadau, gan leihau'r angen i ddwyn o siopau i gael arian). Er mwyn helpu i leihau trosedd mae Heddlu Gwent wedi cyflwyno 'Dangos y Drws i Drosedd' a 'Chanolfannau datrys problemau' fel strategaethau cyffredinol i leihau troseddu. At hyn, mae menter gan y Swyddfa Gartref i dagio troseddwyd mewn achosion o fwrghleriaeth wedi cael effaith amlwg ar y tueddiadau hyn.

Ynghyd â'u partneriaid, mae Heddlu Gwent yn cymryd rhan mewn cynllun Rheoli Integredig Troseddwyd (IOM). Mae hwn yn ddull troswaol i reoli grwpiau blaenoriaeth o droseddwyd risg uchel, sy'n sicrhau bod yr holl droseddwyd sy'n gadael y carchar yn derbyn cymorth cydlynol i'w hatal rhag aildroseddu. Mae'r dull yn cydnabod y gall ad-droseddwyd gael problemau lluosog sy'n cyfrannu at eu troseddu, ac na all un asiantaeth fynd i'r afael â'r rhain. Mae Heddlu Gwent yn parhau i gydweithio gyda'r awdurdodau lleol, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, darparwyr iechyd ac IOM Cymru.

Gellir rhoi Gorchymynion Atal Troseddau Difrifol i unigolion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau difrifol, gan arwain at osod cyfyngiadau arnynt, ac mae hyn yn golygu bod modd monitro eu gweithgaredd i atal aildroseddu. Gall y llysoedd osod y cyfyngiadau hyn ar droseddwyd difrifol i gyfyngu ar eu gallu i gynllunio, ariannu a chyflawni troseddau difrifol yn y dyfodol, ac mae torri'r gorchymyn yn drosedd. Gall yr amodau a roddir ar yr unigolyn gynnwys gosod cyfyngiadau ar bwy maent yn ymwneud â nhw; cyfyngiadau teithio; neu roi rhwymedigaeth arnynt i roi manylion am eu materion ariannol i'r heddlu.

Mae gan IOM Cymru gysylltiadau cryf â sefydliadau yn yr ardal, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n rheoli achosion sy'n rhan o'r cynllun IOM mewn cysylltiad yn ddyddiol, ac mae'r bartneriaeth hon yn derbyn cefnogaeth bellach gan roi cyfle i Heddlu Gwent, y Gwasanaeth Prawf Genedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru weithio o'r un canolfannau mewn gwahanol leoliadau ar draws y rhanbarth.


Mae sesiynau briffio dyddiol yn helpu i sicrhau ymateb cyflym ac ystyrlon mewn partneriaeth i flaenoriaethau lleol, ac mae'r rhain, ynghyd â chyfarfodydd amlasiantaeth bob pythefnos, yn rhoi cyfle i bartneriaid ehangach gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â dewis a rheoli'r rhai ar y cynllun. Ymhlith y partneriaid lleol eraill a all gymryd rhan mae'r awdurdodau lleol, ieuchyd, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gwent, y Gwasanaethau Troseddwy'r Ifanc, y gwasanaeth carchardai a Chymorth i Fenywod Casnewydd.

2.3.2 Difrod troseddol a thanau bwriadol

Mae Ffigur S3 yn dangos mai'r duedd gyffredinol yn achos difrod troseddol a thanau bwriadol oedd cynnydd bach yn y mathau hyn o droseddau am bob 1,000 o'r boblogaeth rhwng 2016-17 a 2018-19, gyda'r gyfradd yn gostwng i lefelau 2016-17 neu'n is erbyn 2020-21. Casnewydd oedd â'r gyfradd uchaf ar gyfer y math hwn o drosedd am bob 1,000 o'r boblogaeth yn 2016-17, 2017-18 a 2019-20, gyda'r un gyfradd ym Mlaenau Gwent a Chasnewydd yn 2018-19 a chyfradd uwch yn 2020-21. Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf ar gyfer y cyfnod amser, ac roedd yn sylweddol is na'r ardaloedd eraill.

Ar y cyfan, roedd difrod troseddol a thanau bwriadol wedi cynyddu rhwng 2016 a 2019 cyn gostwng ers dechrau pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020. Er y byddai'r pandemig wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn, mae Heddlu Gwent yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel yr awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r Gwasanaeth Tân hefyd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn sy'n destun pryder.

Ffigur S3: Difrod Troseddol a Thanau Bwriadol am bob 1,000 o'r boblogaeth yng Ngwent 2016-17 – 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau Difrod Troseddol a Thanau Bwriadol – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol


2.3.3 Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae ffigyrau ymddygiad gwrthgymdeithasol nad yw'n gysylltiedig â Covid-19 yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol personol, amgylcheddol a niwsans, ond nid yw'n cynnwys troseddau sy'n gysylltiedig â Covid-19, gan y byddai'r rhain wedi digwydd yn 2020-21 yn unig. Fel mae Ffigur S4 yn ei ddangos, roedd gostyngiad sylweddol yng nghyfradd y math hwn o droseddau ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent rhwng 2016-17 a 2018-19, cyn sefydlogi ac aros ar lefel debyg yn 2019-20 a 2020-21. Roedd y gyfradd uchaf o

ymddygiad gwrthgymdeithasol nad oedd yn gysylltiedig â Covid-19 ar gyfer y cyfnod amser hwn yng Nghasnewydd, gyda Blaenau Gwent yn yr ail safle. Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf ar draws y cyfnod amser hwn.

Mae llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwent ers 2016 oherwydd gwaith y Canolfannau Diogelwch Cymunedol a chanolfannau datrys problemau, sy'n gweithio'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ynghyd â chynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid ar draws Gwent i drafod meysydd sy'n destun pryder a rhannu syniadau ynglŷn â sut i roi sylw i'r materion hyn.

Ffigur S4: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol nad yw'n gysylltiedig â Covid-19 am bob 1,000 o'r boblogaeth yng Ngwent 2016-2017 – 2020-21




Ffynonellau: Ffigyrau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol nad yw'n gysylltiedig â Covid-19 – Asesiad Strategaeth Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.3.4 Troseddau casineb

Diffinnir Trosedd Gasineb fel 'Unrhyw drosedd sydd yn ôl y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil canfyddedig unigolyn; crefydd neu grefydd ganfyddedig; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol ganfyddedig; anabled neu anabled ganfyddedig ac unrhyw drosedd a ysgogir gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn unigolyn trawsrywiol neu a ganfyddir ei fod yn drawsrywiol².

Ffigur S5: Troseddau Casineb am bob 1,000 o'r boblogaeth yn awdurdodau lleol Gwent 2016-17 i 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol nad yw'n gysylltiedig â Covid-19 – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol


Mae Ffigur S5 yn dangos bod nifer y troseddau casineb am bob 1,000 o'r boblogaeth wedi aros ar lefel 2017-18 yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Ngwent dros y cyfnod amser, yn dilyn cynnydd ers lefel 2016-17. Casnewydd oedd â'r gyfradd uchaf o droseddau casineb am bob 1,000 o'r boblogaeth, gan gyrraedd ei lefel uchaf yn 2018-19, ac mae'n bosibl bod hyn oherwydd bod Casnewydd yn ardal â mwy o amrywiaeth ethnig. Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf o'r math hwn o drosedd ar draws y cyfnod amser, er bod cynnydd bychan yn y gyfradd rhwng 2017-18 a 2019-20. Dylid nodi bod cyfradd y troseddau hyn am bob 1,000 o'r boblogaeth yn fach iawn ym mhob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol ar draws y cyfnod amser.

Mae'n bosibl bod lefelau amddifadedd uwch, y gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, adsefydlu ffoaduriaid a'r agosrwydd at brif lwybrau trafnidiaeth (sy'n galluogi pobl â diwylliannau a gwerthoedd gwahanol i ymweld â Chasnewydd) yn ffactorau eraill sy'n cyfrif am y cyfraddau uwch o droseddau casineb yn yr ardal hon. Ffactor arall yn y cynnydd cyffredinol mewn troseddau casineb ers 2016 yw'r ffaith bod Heddlu Gwent wedi bod yn ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, er mwyn rhoi'r hyder iddynt roi gwybod am droseddau o'r math hwn.

2.3.5 Troseddu gan bobl ifanc

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn trin plant a phobl ifanc yn wahanol i oedolion. Oedran cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr yw 10 oed. Mae hyn yn golygu na all plant o dan 10 gael eu harestio na'u cyhuddo o drosedd, fodd bynnag, mae cosbau eraill ar gael i blant o dan 10 sy'n torri'r gyfraith. Gall plant rhwng 10 ac 17 oed gael eu harestio a'u dwyn gerbron llys os byddant yn troseddu.

Ffigur S6: Troseddu gan bobl ifanc yng Ngwent am bob 1,000 o'r boblogaeth (10-17 oed) 2016-17 – 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau Troseddu gan Bobl Ifanc – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn y Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Ffigur S6 yn dangos cyfradd y troseddau am bob 1,000 o'r boblogaeth (10-17 oed) a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed ar draws Gwent rhwng 2016-17 a 2020-21. Y duedd gyffredinol yw bod cyfraddau troseddau o'r math hwn wedi cynyddu hyd at 2019-20 cyn gostwng yn sylweddol yn 2020-21. Roedd yr un duedd yn amlwg ym mhob un o ardaloedd awdurdodau lleol Gwent dros y cyfnod amser. Blaenau Gwent oedd â'r cyfraddau uchaf yn 2017-18, 2019-20 a 2020-21. Roedd cyfradd Sir Fynwy yn sylweddol is na holl ardaloedd awdurdodau lleol eraill Gwent yn ystod y cyfnod amser hwn.

Roedd troseddu gan bobl ifanc ar gynnydd rhwng 2016 a 2019 ac mae wedi bod yn gostwng ers dechrau pandemig Covid-19 ar ddechrau 2020. Y ffaith bod pobl ifanc wedi aros i mewn yn ystod y cyfnodau clo a chau siopau a busnesau sydd i gyfrif am hyn yn ôl pob tebyg, ond mae Heddlu Gwent yn gweithio gyda phartneriaid i roi sylw i feysydd sy'n destun pryder ac yn trefnu digwyddiadau i geisio atal troseddu gan bobl ifanc ar adegau penodol o'r flwyddyn e.e. teithiau i Thorpe Park ar noson Calan Gaeaf a noson Tân Gwylt, clybiau ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod gwyliau'r haf, ac ati.

Dyfodol Cadarnhaol

Mae prosiect Dyfodol Cadarnhaol, a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent a Chwaraeon Cymru (o dan arweiniad Tîm Datblygu Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol Cyngor Dinas Casnewydd) yn cynnig cyfleoedd newydd a hwyliog i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon sy'n eu helpu i ddatblygu sgiliau bywyd a gwireddu eu potensial. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc 10-19 oed yng Nghasnewydd sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol, o beidio ag ennill cymwysterau ac mewn rhai achosion o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Trwy gynnig cyfleoedd chwaraeon o ansawdd, mae'r rhaglen yn cynnig dewis cadarnhaol yn lle ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan greu cymunedau mwy diogel a chynhwysol o ganlyniad. Mae'r rhaglen bellach wedi cael ei hehangu ar draws Gwent i Gaerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy.

Fearless

Gwefan yw Fearless lle gall pobl ifanc ddod o hyd i wybodaeth a chynghor anfeirniadol am drosedd a throseddoldeb. Yr hyn sy'n gwneud y wefan yn wahanol yw ei bod yn lle diogel i roi gwybodaeth am drosedd – yn gwbl ddiennw. Mae 8 Gweithiwr Allgymorth Fearless yn cynnig gweithdai i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol mewn gwahanol ardaloedd ar draws y wlad. Mae'r gweithdai wedi amrywio o gyflwyniad i Fearless, i weithdai am droseddau penodol i grwpiau penodol o bobl ifanc ar bynciau fel troseddau cyllyll, ecsbloetio a llinellau cyffuriau (*county lines*). Yng Ngwent, mae amryw o sesiynau am droseddau wedi cael

eu cynnal mewn ysgolion a gwasanaethau ieuenctid, gan gynnwys rhai wedi'u teilwra'n arbennig i'r gymuned leol, fel sesiwn Fearless a chyffuriau.

Mae Fearless hefyd yn darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol er mwyn cyflwyno Fearless ac esbonio sut gallant gael mynediad at y wefan a defnyddio'r adnoddau. Yn dilyn yr hyfforddiant, gall gweithwyr proffesiynol siarad yn hyderus â phobl ifanc am y mathau o droseddau allweddol a all effeithio arnynt a sut i roi gwybod am droseddau yn ddiogel – gan gynnwys trwy wefan Fearless.org yn ddienw. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i <https://www.fearless.org/>.

Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) yn chwarae rhan allweddol i fynd i'r afael â Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol. Mae YOS ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent; maent yn darparu arolygiaeth effeithiol i bobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol neu sydd mewn perygl o fod yn gysylltiedig ag ymddygiad o'r fath. Mae pob unigolyn ifanc yn cael ei asesu a'i gyfeirio i gael cymorth lle bo'r angen.

Yn lleol, mae'r gwasanaeth yn dwyn ynghyd staff o amrediad eang o sefydliadau gan gynnwys yr awdurdodau lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Sant Giles a gweithwyr prosiect arbenigol. Trwy gydweithio a rhannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad, eu nod yw helpu pobl ifanc i wneud y dewisiadau cywir mewn bywyd a lleihau troseddau gan bobl ifanc.

Mae Heddlu Gwent yn dal i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r YOS, sy'n allweddol i ymyrryd yn fuan a chael effaith ar nifer y troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwaharddiadau ysgol. Mae wedi cael llawer iawn o lwyddiant wrth leihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.


Mae'r Heddlu Bach yn brosiect sy'n gweithio gyda phlant o gymunedau difreintiedig sydd o bosibl wedi cael problemau gyda'r heddlu yn y gorffennol gyda'r nod o feithrin gwell perthynas â'r heddlu yn y dyfodol a lleihau'r perygl y byddant yn dod yn droseddwyr.

2.3.6 Achosion o bryder yn ymwneud â phlentyn

Diffinnir pryder yn ymwneud â phlentyn fel sefyllfa lle mae'r plentyn yn annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael y cyfle i gyflawni neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb ddarpariaeth gan yr awdurdod lleol. At hyn, os na fydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu, mae'n debygol y bydd hyn yn amharu'n sylweddol ar ei iechyd, neu'n amharu mwy ar ei iechyd.

Mae Ffigur S7 yn dangos bod cyfradd yr achosion o'r math hwn o drosedd am bob 1,000 o'r boblogaeth (0-17 oed) yng Ngwent wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2016-17 a 2017-18 ac wedi parhau i gynyddu bob blwyddyn tan 2020-21. Mae'r duedd hon yn cael ei hailadrodd ym mhob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol ac eithrio yn 2020-21, lle gwelwyd gostyngiadau bach iawn yng nghyfraddau Casnewydd a Sir Fynwy. Blaenau Gwent oedd â'r cyfraddau uchaf ar draws y cyfnod amser hwn a Sir Fynwy oedd â'r cyfraddau isaf.

Ffigur S7: Achosion o Bryder yn ymwneud â Phlentyn yng Ngwent am bob 1,000 o'r boblogaeth (0-17 oed) 2016-17 – 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau Achosion o Bryder yn ymwneud â Phlentyn – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn y Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae achosion o bryder yn ymwneud â phlentyn wedi cynyddu ers 2016 oherwydd ffordd newydd o roi gwybod amdanynt drwy'r ysgolion. Mae gan Heddlu Gwent Uned Amddiffyn y Cyhoedd (PPU) ddynodedig sy'n cynnwys sawl tîm canolog, gan gynnwys PPU Canolog a'r Tîm Rheoli Troseddwy'r Rhyw neu Dreisgar (MOSOVO) a dau dîm sy'n gwasanaethu Ardaloedd Plismona Lleol Dwyrain a Gorllewin Heddlu Gwent.

Mae'r PPU yn ymdrin â'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas gan gynnwys materion yn ymwneud ag amddiffyn plant, plant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio yn rhywiol ac yn droseddol, amddiffyn oedolion agored i niwed (POVA) a phobl sydd wedi cael eu cam-drin ar sail anrhydedd. Mae'r Canolfannau Diogelu yn gweithio'n agos ag adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdodau lleol i ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl.


2.3.7 Ecsbloetio plant yn droseddol

Bydd plant yn cael eu hecsbloetio'n droseddol pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd grym i ofodi, rheoli, cam-lywio neu dwyllo plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed. Mae'n bosibl bod y dioddefwr wedi cael ei ecsbloetio'n droseddol, hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw plant yn cael eu hecsbloetio'n droseddol drwy gyswilt corfforol bob tro, gall hefyd ddigwydd drwy ddefnyddio technoleg. Mae ecsbloetio troseddol yn aml yn digwydd ynghyd ag ecsbloetio rhywiol neu fathau eraill o ecsbloetio. Mae ecsbloetio plant yn droseddol yn fwy eang na gweithgareddau fel llinellau cyffuriau,

ac mae'n cynnwys gorfodi plant i weithio ar ffermydd canabis, dwyn, dwyn o siopau neu bigo pocedi, neu fygwth pobl ifanc eraill.

Mae Ffigur S8 yn dangos cyfradd y troseddau ecsbloetio plant yn droseddol am bob 1,000 o'r boblogaeth (0-17 oed) yng Ngwent rhwng 2016-17 a 2020-21. Y peth cyntaf i'w nodi yw bod cyfradd y troseddau hyn yn hynod o isel, gyda chyfradd o sero bron iawn ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen dros y cyfnod amser. Cynyddodd y gyfradd yn Sir Fynwy rhwng 2016-17 a 2019-20 cyn gostwng eto yn 2020-21. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y gyfradd yng Nghasnewydd rhwng 2016-17 a 2019-20, cyn gostwng eto yn 2020-21. Mae rhywfaint o'r gostyngiad hwn yn debygol o fod oherwydd y cyfnodau clo sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19.

Ffigur S8: Ecsbloetio Plant yn Droseddol yng Ngwent am bob 1,000 o'r boblogaeth (0-17 oed) 2016-17 – 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau Ecsbloetio Plant yn Droseddol – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn y Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Pan fydd naill ai'r heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr ysgol neu bartneriaid arall, yn nodi pryder yn ymwneud â phlentyn, cynhelir cyfarfod strategaeth rhwng yr asiantaethau priodol i asesu'r perygl i'r plentyn ac i roi cynlluniau ar waith i roi sylw i'r pryderon.

Mae'r gostyngiad mewn troseddau o'r math hwn yn bennaf oherwydd cyfyngiadau clo Covid-19, gan fod cyfleoedd i bobl ecsbloetio plant yn gyfyngedig ac roedd plant yn dod i lai o gysylltiad â chyfoedion a'r dulliau a ddefnyddir i ecsbloetio plant.


2.3.8 Ecsbloetio plant yn rhywiol

Mae ecsbloetio plant yn rhywiol yn ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol lle bydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd grym i orfodi, camlywio neu dwyllo plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth mae'r dioddefwr ei eisiau neu ei angen; a/neu (b) i ddod â mantais ariannol neu fwy o statws i'r drwgweithredwr neu'r hwylusydd. Mae'n bosibl bod y dioddefwr wedi cael ei ecsbloetio'n rhywiol, hyd yn oed os yw'n ymddangos yn gydsyniol. Nid yw ecsbloetio plant yn rhywiol bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol a gall ddigwydd drwy ddefnyddio technoleg.

Mae Ffigur S9 yn dangos cyfradd yr achosion o ecsbloetio plant yn rhywiol am bob 1,000 o'r boblogaeth (0-17 oed) yng Ngwent rhwng 2016-17 a 2020-21. Roedd cyfradd yr achosion o'r math hwn o drosedd yn eithaf sefydlog ym mhob ardal awdurdod lleol heblaw am Gasnewydd rhwng 2016-17 a 2018-19. Roedd cynnydd yn y gyfradd ym mhob ardal awdurdod lleol yn 2019-20, yn enwedig ym Mlaenau Gwent a Chasnewydd.

Gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd yn 2020-21 ym Mlaenau Gwent, Casnewydd a Sir Fynwy, ond roedd rhywfaint o gynnydd yn Nhorfaen a Chaerffili. Unwaith eto, mae'n werth nodi bod cyfradd y mathau hyn o droseddau yn hynod o isel dros y cyfnod amser cyfan.

Ffigur S9: Ecsbloetio Plant yn Rhywiol yng Ngwent am bob 1,000 o'r boblogaeth (0-17 oed) 2016-17 – 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau Ecsbloetio Plant yn Rhywiol – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau Poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn y Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Unwaith yn rhagor, mae'r gostyngiad yn nhroseddau o'r math hwn yn bennaf oherwydd y cyfnodau clo a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 gan fod cyfleoedd i bobl ecsbloetio plant yn gyfyngedig ac roedd llai o gyfle i gyfoedion ddod i gysylltiad â'r mathau o ddulliau a ddefnyddir i ecsbloetio plant.

Dynodir swyddog dynodedig yn Nhîm Ecsbloetio Heddlu Gwent i weithio gyda phob plentyn sydd wedi cael ei effeithio gan ecsbloetio plant yn rhywiol. Bydd yn gweithio gydag asiantaethau partner i leihau'r risg o ecsbloetio rhywiol a throseddol drwy dargedu troseddwr drwy unrhyw ddull posibl, er mwyn amharu ar eu gweithgareddau a thorri'r cylch. Bydd ymgysylltiad rheolaidd â'r plentyn drwy ymweliadau Adran 47 neu Adran 17 yn dibynnu ar barodrwydd y plentyn i gymryd rhan. Cynhelir cyfarfodydd adolygu Ecsbloetio Plant yn Droseddol yn rheolaidd ac mae'r rhain yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol sy'n ymwneud â'r plentyn er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf, nodi risgiau newydd a llunio cynlluniau i ddileu'r risg. Mae cyfarfodydd MACE (Multi Agency Criminal/Sexual Exploitation) achlysurol yn sicrhau bod gan yr holl asiantaethau drosolwg o'r achosion, gwybodaeth, cudd-wybodaeth a gweithgaredd ar draws pob awdurdod lleol ac ar draws ffiniau, ac maent yn ceisio dileu rhwystrau rhag diogelu ac ymateb i dueddiadau newydd a nodwyd.


2.3.9 Troseddau a alluogir gan dechnoleg seiber

Troseddau seiber-ddibynnol (neu seiberdroseddau 'pur') yw troseddau y gellir eu cyflawni gan ddefnyddio cyfrifiadur, rhwydweithiau cyfrifiadurol neu fath arall o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn unig. Mae'r gweithredoedd hyn yn cynnwys lledaenu firysau neu faleiswedd arall, hacio ac ymosodiadau atal gwasanaeth (DDoS).

Gelwir troseddau eraill sy'n cael eu cyflawni ar-lein ond a allai gael eu cyflawni heb ddefnyddio'r rhyngwrwyd (fel meithrin perthynas rywiol amhriodol, stelcian neu aflonyddu, bwlio, a thwyll ariannol neu ramantaidd) yn droseddau sy'n cael eu galluogi gan dechnoleg seiber.

Mae Ffigur S10 yn dangos bod troseddau a alluogir gan dechnoleg seiber yn broblem gynyddol yn ardal Gwent, ac mae'r duedd gyffredinol yn y gyfradd am bob 1,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu'n raddol rhwng 2016-17 a 2020-21, er bod y gyfradd yn dal i fod yn isel. Mae'r duedd hon i'w gweld ym mhob ardal awdurdod lleol ar draws Gwent yn ystod y cyfnod amser dan sylw.

Ffigur S10: Seiberdroseddau yng Ngwent am bob 1,000 o'r boblogaeth 2016-17 – 2020-21



Ffynonellau: Ffigyrau troseddau a alluogir gan dechnoleg seiber – Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel, Heddlu Gwent; Ffigyrau poblogaeth – Amcangyfrifon Canol-blwyddyn y Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

Er bod seiberdroseddau ar gynydd nid yn unig yng Ngwent ond yn fyd-eang, mae Heddlu Gwent yn cynnal ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i breswylwyr Gwent am arwyddion a pheryglon troseddau a alluogir gan dechnoleg seiber o bob math. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol (CSOs) ar gael i ymdrin â materion yn ymwneud â seiberdroseddau ynghyd â Thîm Seiberdroseddau dynodedig.

Yn ogystal â bod yn gynhwysol yn ddigidol, yn y dyfodol bydd angen i Gwent fod yn seiber-ddiogel.

2.3.10 Cynllun Heddlu a Throsedd Gwent 2021-2025

Mae blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throsedd Gwent 2021-2025 wedi cael eu dewis i ddiwallu anghenion cymunedau a sicrhau bod Heddlu Gwent yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaeth Heddlu effeithiol. Mae mynd i'r afael â throseddu, cefnogi dioddefwyr a chynyddu hyder y gymuned mewn plismona yn ganolog i'r cynllun. Pum blaenoriaeth allweddol Cynllun 2021-2025 yw:

1. **Cadw Cymdogaethau'n Ddiogel** – bob dydd mae timau cymdogaeth Heddlu Gwent yn gweithio yng nghanol cymunedau i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan fynd i'r afael â throseddu lle bynnag y mae'n digwydd. Mae troseddau meddiangar – fel lladrad, bwrgleriaeth a dwyn – troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a difrod troseddol yn ddinistriol i ddiogelwch a lles cymunedau. Mae troseddau moduro, fel gyrru'n beryglus, hefyd yn cael effaith ar ddiogelwch cymunedol a gallant arwain at ganlyniadau dinistriol. I fynd i'r afael â'r troseddau hyn ac i atal niwed, mae Heddlu Gwent yn gweithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol i dargedu pobl sy'n troseddu'n gyson. Prif ymrwymiadau'r flaenoriaeth hon yw: Lleihau troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a nifer y bobl sy'n cyflawni'r troseddau hyn o hyd; Lleihau troseddau meddiangar ac ad-droseddwyr; Gwella diogelwch ffyrdd ar draws Gwent; Comisiynu a buddsoddi mewn ymgyrchoedd atal trosedd effeithiol.
2. **Brwydro yn erbyn Troseddau Difrifol** - mae troseddau difrifol yn hynod niweidiol i gymunedau ac mae'n aml yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Byddwn yn defnyddio'r holl offer sydd ar gael i ni i frwydro yn erbyn troseddau difrifol, yn amrywio o waith atal rhagweithiol i fynd i'r afael â

throseddau a diogelu pobl sydd mewn perygl. Ar gyfer y flaenoriaeth hon, byddwn yn canolbwyntio ar droseddau sydd â phosiblwydd o achosi niwed difrifol, fel trosedd trefnedig a thrais difrifol, cam-fanteisio troseddol a rhywiol yn erbyn plant, troseddau casineb a therfysgaeth. Yn ogystal â'r troseddau hyn, bydd dileu trais yn erbyn menywod a merched wrth wraidd ein gwaith. Bydd yn golygu bod rhaid ymateb yn gadarn i dreisio a throseddau rhywiol eraill, cam-drin domestig a stelcio ac aflonyddu. Prif ymrwymïadau'r flaenoriaeth hon yw: Lleihau nifer y plant sy'n dioddef cam-fanteisio troseddol a rhywiol fwy nag unwaith; Mwy o waith i darfu ar drosedd trefnedig difrifol, ac ail-fuddsoddi asedau sy'n cael eu hatafael mewn cymunedau; Gwella ymateb cyffredinol y broses cyfiawnder i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; Comisiynu a buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl syn cyflawni troseddau difrifol i atal a lleihau aildroseddau.

3. **Rhoi Cymorth i Ddioddefwyr ac Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed** - Mae dioddef trosedd yn gallu cael effaith ddinistriol ar fywyd rhywun. Mae'n hollbwysig felly ein bod yn ymateb i ddioddefwyr yn y ffordd gywir bob tro. Mae darparu cymorth effeithiol i ddioddefwyr yn golygu defnyddio dull tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ym mhopeth a wnawn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaethau cymorth yn amserol ac yn gallu diwallu amrywiaeth o anghenion. Yn ogystal â chefnogi pobl sydd wedi profi trosedd, rhaid i ni fod yn barod i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed neu mewn perygl o risg hefyd. Er enghraifft, dioddefwyr cam-drin domestig, cam-fanteisio troseddol a rhywiol, a chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Prif ymrwymïadau'r flaenoriaeth hon yw: Gwella gwasanaethau i ddioddefwyr a sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn cael eu cydnabod a'u bod yn derbyn ymateb priodol drwy Connect Gwent a'r Uned Gofal Dioddefwyr; Gwella ein gwaith gyda phartneriaid i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed; Sicrhau bod diweddariadau i ddioddefwyr am ymchwiliad yr heddlu'n fwy amserol; Comisiynu a buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol i gefnogi dioddefwyr trwy'r broses cyfiawnder troseddol.
4. **Cynyddu Hyder y Gymuned mewn Plismona** - Mae'r gwasanaeth heddlu yn plismona drwy gydsyniad. Er mwyn parhau i wneud hyn, rhaid i ni ddatblygu ein cydberthynas gyda'n trigolion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r heddlu, gan sicrhau bod yr heddlu yn ymddwyn yn gyfreithiol, yn foesebol ac yn dryloyw ym mhopeth mae'n ei wneud. Mae unrhyw gamddefnydd o safle o bŵer ac ymddiriedaeth gan yr heddlu yn gallu cael, ac yn cael, effaith sylweddol ar ymddiriedaeth a hyder y gymuned mewn plismona ac ni ellir ei oddef. Mae ymgysylltu dwyffordd rheolaidd gyda'r holl gymunedau, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a'r rhai y mae'n anos ymgysylltu â nhw, yn rhoi cyfleoedd i drigolion rannu eu profiadau a'u barn am blismona yng Ngwent. Er mwyn gwella hyder y cyhoedd, rhaid i ni sicrhau bod y ffordd mae'r heddlu yn ymateb i alw a disgwyliadau'r heddlu yn ystyried anghenion ein cymunedau amrywiol, gan wella cynrychiolaeth y gweithlu. Prif ymrwymïadau'r flaenoriaeth hon yw: Gwella effeithiolrwydd gwaith ymgysylltu swyddogion a staff gyda thrigolion yn eu cymunedau, a hyder ac ymddiriedaeth y gymuned yn Heddlu Gwent; Gwella hygyrchedd timau plismona cymdogaeth trwy amrywiaeth o sianelau cysylltu sy'n bodloni anghenion y cyhoedd; Annog mwy o bobl o gymunedau sy'n llai tebygol o ymgysylltu â'r heddlu i roi gwybod am droseddau; Cynyddu amrywiaeth swyddogion a staff i sicrhau bod ein gwasanaeth heddlu'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
5. **Ysgogi Plismona Cynaliadwy** – Mae natur plismona yn ddeinamig ac mae'n addasu'n barhaus er mwyn bodloni gofynion sy'n newid yn gyflym iawn. Er mwyn darparu gwasanaeth effeithlon i'r cymunedau a mynd i'r afael â'r heriau mwyaf yn llwyddiannus, mae angen strwythurau sefydliadol hyblyg a gwydn. Mae angen cyfannu'r rhain â phrosesau cynaliadwy a threfniadau ariannol cynaliadwy sy'n galluogi dyfeisgarwch effeithiol a chyson wrth ddefnyddio swyddogion a staff. Mae defnydd traddodiadol o adeiladau, technoleg a defnyddiau traul, a gofynion parhaus am gerbydau heddlu yn creu ôl-troed ecolegol sylweddol. Trwy brosesau caffael a gwaredu cyfrifol, yn ogystal â'r defnydd o gerbydau ac ynni mwy gwyrdd, gellir cyfrannu'r cyfraniad at greu Cymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang. Prif ymrwymïadau'r flaenoriaeth hon yw: Sicrhau bod gan Heddlu Gwent y nifer cywir o swyddogion, staff a gwirfoddolwyr yn y mannau cywir; Cynyddu buddsoddiad mewn technoleg plismona'r 21^{ain} ganrif a'i mabwysiadu er mwyn cwrdd â heriau yfory heddiw; Gwella cymorth iechyd a lles ar gyfer swyddogion a staff i sicrhau bod y gweithlu'n ffit ac yn barod i gwrdd â heriau plismona; Lleihau effaith amgylcheddol plismona yn unol â thargedau carbon niwtral Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


2.4 Dulliau o wella diogelwch cymunedol a lleihau trosedd

Mae nifer o gynlluniau yn eu lle i geisio gwella diogelwch cymunedol a lleihau trosedd yn ardal Gwent, ac un enghraifft o hyn yw Heddlu Bach.

Mae cynllun Heddlu Bach yn rhaglen wirfoddoli hwyliog a rhyngweithiol syn cael ei darparu ar y cyd gan Heddlu Gwent ac ysgolion, ar gyfer plant rhwng 9 ac 11 oed. Mae plant ac ysgolion sy'n cymryd rhan yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol y mae'r plant eu hunain wedi tynnu sylw atynt yn eu cymuned. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'r Timau Plismona Cymdogaeth Lleol a mentrau atal trosedd ac yn cymryd rheolaeth dros y tasgau, gan gael hwyl a meithrin hyder ar yr un pryder.

Mae cynlluniau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn lleol yng nghymunedau Gwent, gyda Chynghorau Gwirfoddoli Sirol Lleol (fel Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddoli Torfaen) a llawer o fudiadau eraill o'r trydydd sector sy'n gwneud gwaith ymgysylltu gwirfoddol ym maes trosedd, diogelwch cymunedol a gwaith ieuenctid.

Ffigur S11: Nifer yr ysgolion a gymerodd ran yn Heddlu Bach yng Ngwent 2016-17 – 2020-21




Ffynhonnell: Heddlu Gwent

Dechreuodd Heddlu Bach fel rhaglen beilot yng Nghasnewydd yn 2017-18 gyda 3 ysgol yn cymryd rhan, ond mae hyn wedi cynyddu i 79 ysgol ar draws Gwent dros y tair blynedd diwethaf. Yn ardaloedd awdurdodau lleol Caerffili a Chasnewydd mae'r niferoedd uchaf o ysgolion sy'n cymryd rhan, gyda 23 ysgol ym mhob ardal erbyn 2020-21.

Mae gwirfoddolwyr sy'n ymuno â'r Heddlu Gwirfoddol yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd, profiadau a chymunedau. Er eu bod yn wirfoddolwyr, mae gan Gwnstablaid Gwirfoddol bwerau heddlu llawn, iwniform ac offer, ac maent yn gweithio ochr yn ochr â Swyddogion Heddlu a Swyddogion Cymunedol amser llawn i gadw Gwent yn ddiogel.

Ffigur S12: Nifer yr oriau o waith gwirfoddol gan Gwnstablaid Gwirfoddol yng Ngwent 2016-17 – 2020-21



Ffynhonnell: Heddlu Gwent

Mae Ffigur S11 yn dangos bod nifer yr oriau o waith gwirfoddol gan Gwnstablaid Gwirfoddol wedi gostwng yn raddol rhwng 2016-17 a 2018-19 cyn cynyddu rhywfaint yn 2019-20. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr oriau o waith gwirfoddol yn 2020-21, o bosibl oherwydd bod unigolion wedi'u rhoi ar gynlluniau ffyrlo dros dro ac roedd ganddynt fwy o amser i wirfoddoli.

Er y gwnaed pob ymdrech i gasglu gwybodaeth amserol, gywir a pherthnasol, mae'r Asesiad Strategol yn cydnabod bod bylchau posibl oherwydd nad oes data ar gael, nid yw pobl yn rhoi gwybod am droseddau neu mae problemau yn ymwneud ag ansawdd y data. Mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd gan yr Heddlu. Lle mae'n hysbys nad yw pobl yn rhoi gwybod am rai mathau o droseddau, mae hyn yn cyflwyno rhan o'r darlun yn unig. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y troseddau canlynol:

- Troseddau neu ddigwyddiadau casineb
- Cam-drin domestig
- Trais rhywiol
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Achosion lefel isel o ddwyn personol
- Dwyn o siopau
- Difrod troseddol

2.5 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, trais sy'n seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig, a thrais rhywiol. Mae VAWDASV yn digwydd ym mhob dosbarth cymdeithasol ac mae'r un mor amlwg yn rhannau gwledig a dinesig Gwent. Mae'r broblem yn effeithio ar bob dosbarth a phobl o bob nodwedd warchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Cyhoeddwyd Strategaeth VAWDASV Gwent ym mis Mai 2018 ac roedd yn nodi strategaeth ar gyfer sut gallai rhanbarth Gwent wella'r trefniadau ar gyfer atal, amddiffyn a chefnogi unigolion sy'n cael eu heffeithio gan drais a chamdriniaeth o'r fath, a chyfrannu at gysondeb, ansawdd a chydlyniant darpariaeth o'r fath yng Nghymru.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cynnwys pob agwedd ar VAWDASV gan gynnwys:

- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

- Priodasau dan orfod
- Cam-drin ar sail 'Anrhydedd' (HBA)
- Masnachu
- Cam-drin domestig
- Trais rhywiol gan gynnwys treisio ac aflonyddu rhywiol
- Pobl y camfanteisir arnynt yn rhywiol yn y diwydiant rhyw
- Stelcian ac aflonyddu

Yn aml mae cysylltiad rhwng cael eich effeithio gan VAWDASV â salwch corfforol a meddyliol. Mewn ymgynghoriad gyda goroeswyr ac asiantaethau sy'n bartneriaid mae pwysigrwydd rhoi cymorth holistaidd i unigolion yn cael ei ystyried yn hanfodol ond gall fod yn anodd weithiau. Gall gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a VAWDASV ddarparu cymorth sy'n fwy effeithiol a gall olygu nad oes yn rhaid i ddioddefwyr a goroeswyr ailadrodd eu profiadau ym mhob asesiad unigol.

Mae sawl asiantaeth a mudiad arbenigol yn gweithio yng Ngwent i gynnig cymorth i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan VAWDASV, gan gynnwys BAWSO, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Hafan Cymru, Llamau, New Pathways a Phoenix DAS.

Yng Ngwent yn 2020-21:

- roedd 92 o fenywod a 54 o blant wedi defnyddio llochesau
- roedd 318 o blant a phobl ifanc wedi derbyn cymorth uniongyrchol gan asiantaethau yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig
- roedd 235 o fenywod a 4 dyn wedi derbyn cymorth yn gysylltiedig â thai yn y gymuned
- roedd 256 o fenywod a 2 ddyn wedi derbyn cymorth ymyrraeth gynnar gan wasanaeth diogelwch y teulu
- roedd 263 o fenywod a 48 dyn wedi derbyn cymorth atal digartrefedd

Darparwyd sesiynau yn yr ysgolion a grwpiau cymunedol i bobl ifanc yn ogystal â'r cymorth ffurfiol a roddwyd.

Yng Ngwent mae hanes hir a chryf o fudiadau statudol a sectorau arbenigol yn y sector, gan gynnwys nifer o bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n gweithio mewn partneriaeth i gomisiynu'r gwasanaethau arbenigol i atal, amddiffyn a chynorthwyo'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV. Darperir y rhain gan wahanol fudiadau arbenigol o'r sector sy'n ymateb i anghenion grwpiau gwahanol.

Ffigur S13: Crynodeb o'r gwasanaethau VAWDASV a ddarperir yng Ngwent

Gwasanaeth	Crynodeb o'r gwasanaethau a ddarperir yng Ngwent
Barnardo's	Rhaglen Gymorth i'r Teulu Cyfan ar gyfer goroeswyr, drwgweithredwyr a phlant /pobl ifanc
BAWSO	Darpariaeth arbenigol i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ar gyfer pobl yr effeithiwyd ganddynt gan bob agwedd ar VAWDASV
Cyfannol - Cymorth i Fenywod	Gwasanaethau VAWDASV gan gynnwys llochesau, symud ymlaen, galw heibio, allgymorth yn y gymuned, gwaith addysgol, gwaith grŵp, cwnsela, ISVA, gwaith eiriolaeth yn ymwneud â chamddefnyddio pobl yn rhywiol, ac ymyriadau arbenigol i blant a phobl ifanc
Gwasanaeth IDVA Rhanbarthol Gwent	Yn darparu cymorth dwys 1:1 i bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig yr aseswyd eu bod mewn perygl uchel o gael niwed neu eu llofruddio
Hafan Cymru	Cymorth yn gysylltiedig â thai ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan Gam-drin Domestig. Yn cynnwys Rhaglen Spectrum, sy'n hyrwyddo cydberthnasau iach mewn ysgolion ar draws Gwent a Chymru

Llamau	Llochesau a chymorth yn y gymuned i bobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin domestig a/neu ddigartrefedd, ynghyd â hyfforddiant
New Pathways	Gwasanaethau trais rhywiol, canolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, prosiect gwrth-gaethwasiaeth Liberate, hyfforddiant, Iechyd Meddwl SURE
Gwasanaethau Cam-drin Domestig Phoenix	Cymorth i ddrwgweithredwyr a dioddefwyr/goroeswyr Cam-drin Domestig, gan gynnwys plant a phobl ifanc

Ffynhonnell: Bwrdd Partneriaeth VAWDASV Gwent

Darperir cymorth ychwanegol gan Heddlu Gwent, Connect Gwent, yr Uned Gofal Dioddefwyr ac Umbrella Cymru hefyd.

Mae'r rhanbarth wedi gwreiddio prosesau i gefnogi'r rhai yr aseswyd eu bod yn wynebu risg uchel o ddioddef cam-drin domestig, gan gynnwys y Gynhadledd Asesu Risg Amlasianaeth (MARAC). Mae MARAC yn gyfarfod rhannu gwybodaeth a rheoli risg ar gyfer yr Heddlu ac asiantaethau allweddol eraill sy'n bartneriaid. Nod y cyfarfod yw gwella diogelwch dioddefwyr, nodi a rheoli'r risgiau sy'n eu hwynebu a sefydlu a yw'r drwgweithredwr yn peri risg sylweddol i unigolion a'r gymuned yn ehangach.

Gall dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig sydd mewn perygl uchel o ddioddef niwed difrifol neu o gael eu llofruddio gael cymorth hefyd gan Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol. Yn rhanbarth Gwent, ariennir y gwasanaeth hwn ar y cyd gan Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Trosedd a Llywodraeth Cymru, drwy grant refeniw blyneddol y VAWDASV Rhanbarthol. Mae Gwent yn parhau i godi ymwybyddiaeth am arwyddion a symptomau VAWDASV gan gynnwys hyfforddiant, ac mae'n gweithio i gynnal, addasu a gwella strwythurau gwaith a rhannu'r gwersi a ddysgwyl.

Cafodd Ymgyrch Encompass ei lansio yn ysgolion Gwent ym mis Mawrth 2019 er mwyn helpu plant sy'n gysylltiedig â theuluoedd lle rhoddwyd gwybod am achos o gam-drin domestig. Mae'n galluogi'r Heddlu i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau yn ymwneud â phlant gydag ysgolion lleol yn gynnar y diwrnod ysgol ganlynol, gan alluogi ysgolion i ddarparu ymateb cefnogol. Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n wynebu digwyddiadau trawmatig, ac sydd o bosibl wedi dioddef cam-drin domestig neu wedi bod yn dyst iddo, yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn troseddau treisgar, camdriniaeth, cymryd cyffuriau a chael problemau tymor hir gyda'u hiechyd meddyliol neu gorfforol. Mae'r ymyrraeth gynnar hon yn ceisio cefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel, gan eu galluogi i fynegi eu pryderon a chael cymorth gyda'u lles.

Mae wynebu trais neu gamdriniaeth o unrhyw fath yn brofiad trawmatig ac mae digwyddiadau yn cael effeithiau difrifol a hirdymor ar anghenion iechyd corfforol a meddyliol unigolyn, ei ymddygiad, a'i sgiliau rhyngpersonol. Maent yn cael effaith sylweddol hefyd ar allu unigolyn i brosesu'r hyn sy'n digwydd iddo, meddwl yn rhesymegol, cynllunio ar gyfer y dyfodol neu ddatrys problemau. Gall hefyd wneud i'r unigolyn deimlo nad yw'n gallu gwneud synnwyr o amser, gall ddrysu llinellau amser ac amharu ar y gallu i gofio pethau. Mae angen cymorth ymarferol sy'n seiliedig ar drawma ar oroeswyr er mwyn eu helpu i wneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd yn ogystal â'u harwain drwy'r gwasanaethau a'r systemau, fel y system cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol i blant neu dai, y mae eu hangen arnynt er mwyn gwella a symud ymlaen.


Mae pryderon yn ymwneud ag iechyd meddwl dioddefwyr, goroeswyr a drwgweithredwyr VAWDASV yn faes allweddol, ynghyd â'r effaith ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r achosion hyn. Mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl oherwydd profiadau VAWDASV cyfredol a hanesyddol yn cynyddu.

Mae pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi gwaethygu'r holl faterion sy'n ymwneud â VAWDASV, oherwydd y nifer llai o alwadau ac atgyfeiriadau i'r gwasanaethau, unigolion yn byw gyda

drwgweithredwyr ac yn methu cael mynediad at gymorth, a chynnydd yn nifer y galwadau i linellau cymorth fel Childline.

Ffigur S14: Cymhariaeth o'r achosion MARAC 2019/20

MARAC Cases 2019 /2020 Comparison



Ffynhonnell: Heddlu Gwent

Mae data'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) yn Ffigur S14 yn dangos sut mae'r cyfyngiadau wedi effeithio ar allu pobl i chwilio am gymorth. Yn 2020, roedd nifer yr atgyfeiriadau yn is na lefelau 2019 ar draws y flwyddyn, ond yn enwedig o amgylch adeg y gwahanol gyfnodau clo yn ystod 2020. Roedd hyn yn destun pryder mawr i bartneriaid rhanbarthol ac arweiniodd at sawl ymgyrch i dynnu sylw at y ffyrdd gwahanol y gallai pobl gysylltu â Heddlu Gwent ac asiantaethau cymorth arbenigol.

Mae Asesiad Anghenion VAWDASV yn newid yn barhaus ac nid yw'n honni bod yn gynhwysfawr nac yn llawn, yn hytrach mae'n dangos lefel y galw a'r math o alw. Mae bylchau yn yr wybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â cham-drin ar sail 'anrhydedd', FGM, priodasau dan orfod a gwasanaethau arbenigol a ddarperir i'r gymuned BAME yng Ngwent, a rhoddir blaenoriaeth i wella'r maes hwn yn y dyfodol.

Un o brif ganfyddiadau'r Asesiad Anghenion yw'r anhawster i gael gwybodaeth gywir ac amserol am yr achosion o VAWDASV ar draws y rhanbarth. Nid yw'r data ar gael yn gyson nac yn ganolog, gan olygu nad oes modd cael darlun clir a chynhwysfawr o raddfa'r angen yng Ngwent. Yn yr un modd, mae bwlch yn y data o ran i ba raddau mae dioddefwyr, goroeswyr a drwgweithredwyr yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol ar draws Gwent. Mae bwlch amlwg yn yr wybodaeth am bobl â nodweddion gwarchodedig hefyd. Yn ogystal â diffyg dealltwriaeth am elfen gudd VAWDASV (ni fydd pawb yn dymuno, neu'n gallu, riportio neu ofyn am gymorth), mae hyn yn effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau ystyrlon ar sail tystiolaeth. Mae'r cymysgedd o boblogaethau gwledig a threfol, gyda threfi marchnad a chymunedau amaethyddol, yn cynnig heriau comisiynu gwahanol iawn wrth ddarparu gwasanaethau VAWDASV effeithiol ac o ansawdd.

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau VAWDASV yn dweud eu bod yn gweld dirywiad cynyddol yn iechyd meddwl pobl, ac mae staff yn aml yn gweithio gyda phobl sy'n ystyried lladd eu hunain neu wedi ceisio lladd eu hunain neu maent yn gorfod cyfeirio pobl at wasanaethau argyfwng. Mae adborth gan fudiadau arbenigol yn y sector yn nodi bod y rhai sy'n ceisio cymorth mewn llochesau yn wynebu lefelau uwch o drais corfforol, ac mae mwy o'r bobl sy'n derbyn cymorth yn ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidiol i'w hiechyd. Mae'r holl bartneriaid yn pryderu y gallai'r pwysau hyn arwain at broblem ddeublyg lle mae'r staff wedi'u llethu neu mae eu hiechyd a'u lles eu hunain yn dioddef, ac mae angen cynyddu lefel y cymorth a ddarperir i'r unigolion hynny sydd eisoes yn derbyn cymorth, a hynny o fewn gwasanaeth argyfwng sydd eisoes yn gwegian.


Mae tagfa enfawr yn y System Cyfiawnder Troseddol (nid oherwydd pandemig Covid-19 yn unig), gan olygu bod achosion yn cymryd amser hir iawn i gael eu prosesu neu i gyrraedd y llysoedd, i'r graddau bod

dioddefwyr yn dechrau rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y broses. O ganlyniad, nid yw drwgweithredwyr yn cael eu dal i gyfrif am eu gweithredoedd, nid oes amodau yn cael eu rhoi arnynt, ac mae hyn yn cynyddu'r risg a'r niwed posibl i'w dioddefwyr. Mae'n haws i ddrwgweithredwyr symud ymlaen i gam-drin pobl mewn perthynas newydd, heb i gamdriniaeth hanesyddol ddod i'r amlwg.

2.6 Digwyddiadau yn ymwneud â'r Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub modern yn gwneud llawer mwy nag ymladd tanau – mae ymladdwyr tanau cyfoes yn cadw'r cyhoedd yn ddiogel rhag sawl bygythiad arall (gan gynnwys llifogydd ac achosion yn ymwneud â thraffig ar y ffyrdd) ac maent yn chwarae rhan fawr yn ystod digwyddiadau fel ymosodiadau terfysgol. Yn hollbwysig, mae gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn helpu i atal tanau ac yn achub bywydau drwy ddarparu gwybodaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd ymgysylltu cynhwysfawr gan gadw'r cyhoedd yn ddiogel pan mae eu diogelwch o dan fygythiad, a'u hamddiffyn rhag tanau a pheryglon eraill.

Ffigur S15: Tanau a gofnodwyd yng Ngwent am bob 1,000 o aelwydydd 2016-17 – 2020-21



Ffynonellau: Amcangyfrifon aelwydydd – Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru; Digwyddiadau Tanau–Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mae Ffigur S15 yn dangos cyfraddau'r tanau a gofnodwyd ar draws Gwent am bob 1,000 o aelwydydd rhwng 2016-17 a 2020-21, ac er eu bod yn amrywio, roedd y gyfradd ar ei uchaf yn 2018-19, mae'n bosibl oherwydd haf eithriadol o sych 2018. Blaenau Gwent oedd â'r raddfa uchaf am bob 1,000 o aelwydydd ym mhob blwyddyn heblaw am 2019-20, pan oedd cyfradd Casnewydd ychydig yn uwch. Roedd y gyfradd ar ei hisaf yn Sir Fynwy ar draws y cyfnod amser, ac yno arhosodd y gyfradd yn eithaf sefydlog heblaw am gynnydd bach yn 2018-19.

Fel y gwelir yn Ffigur S16, yn 2018/19 roedd cynnydd o 29% mewn tanau yng Nghaerffili, a thanau gwastraff (cynnydd o 13%) a thanau gwair (cynnydd o 119%) oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y tanau yng Nghaerffili ar y cyfan wedi gostwng o 1,057 yn 2018-19 i 745 yn 2020/21.

Ffigur S16: Nifer y tanau yn ôl math yn ardal awdurdod lleol Caerffili 2016-17 – 2020-21

Property Type Summary	2016/2017	2017/2018	2018/2019	2019/2020	2020/2021	Grand Total
Refuse/Refuse Container	361	366	415	311	346	1799
Grassland, woodland and crops	148	181	396	191	172	1088
Road Vehicle	120	89	88	108	79	484
Dwelling	78	70	70	82	84	384
Non Residential Building	57	64	48	58	39	266
Outdoor structures	28	34	23	26	17	128
Other outdoors (including land)	7	5	6	4	2	24
Other Residential Building	2	9	4	3	3	21
Outdoor equipment and machinery			5	1	3	9
Other Vehicle	2		2	2		6
Grand Total	803	818	1057	786	745	4210

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Fel y gwelir yn Ffigur S17, roedd lleihad yn nifer y tanau yng Nghasnewydd o 934 yn 2016-17 i 676 yn 2020-21 (gostyngiad o 28%). Ar gyfartaledd roedd tanau gwastraff yn cyfrif am 52% o'r holl danau yn ystod y cyfnod hwn. Mae cyfran y tanau gwastraff wedi cynyddu ychydig yn ystod y cyfnod amser, o 51% yn 2016-17 i 57% yn 2020-21.

Ffigur S17: Nifer y tanau yn ôl math yn ardal awdurdod lleol Casnewydd 2016-17 – 2020-21

Property Type Summary	2016/2017	2017/2018	2018/2019	2019/2020	2020/2021	Grand Total
Refuse/Refuse Container	476	486	417	392	385	2156
Road Vehicle	177	109	126	130	89	631
Grassland, woodland and crops	86	85	165	105	64	505
Dwelling	82	82	77	94	73	408
Non Residential Building	60	51	41	26	35	213
Outdoor structures	40	36	32	35	25	168
Other Residential Building	9	9	2	3	3	26
Outdoor equipment and machinery	4	5	7	6	1	23
Other outdoors (including land)		2	1	3	1	7
Other Vehicle			2			2
Grand Total	934	865	870	794	676	4139

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mae cyfran y tanau bwriadol yng Ngwent wedi aros o gwmpas 75% ar gyfartaledd dros y cyfnod amser, ac roedd y 25% sy'n weddill yn danau damweiniol neu'n danau anhysbys. Mae Ffigur S18 yn dangos nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngwent yn ystod y cyfnod 5 mlynedd.

Ffigur S18: Nifer y Tanau Damweiniol yng Ngwent 2016-17 – 2020-21

Financial Year	Count
2016/2017	255
2017/2018	206
2018/2019	196
2019/2020	257
2020/2021	208
Total	1,122

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Fel y gwelir yn Ffigur S18, roedd lleihad yn nifer y tanau damweiniol o 255 yn 2016-17 i 196 yn 2018-19, ond yna gwelwyd cynnydd i 257 yn 2019-20. Gall tanau damweiniol fod yn ddifrifol iawn, ac mae rhai o'r rhesymau dros y tanau hyn wedi'u dangos isod:


- cafodd 35% neu 1 o bob 3 tân damweiniol eu hachosi gan goginio
- mae ymladdwyr tân yn cael eu galw i ddelio â hyd at bedwar tân coginio damweiniol bob wythnos
- cafodd 75% neu 3 o bob 4 eu hachosi gan bobl
- cafodd 37% neu 1 o bob 3 tân coginio damweiniol eu hachosi gan fod rhywbeth arall wedi tynnu sylw pobl
- cafodd 16% neu 1 o bob 6 o'r holl danau coginio damweiniol eu hachosi gan fod rhywun wedi cwmpo i gysgu
- cafodd 15% neu 1 o bob 7 o'r holl danau coginio damweiniol eu hachosi gan rywun a gafodd ei amau o fod o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol

Cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (SWFRS) 6,852 archwiliad diogelwch tân yn y cartref yn ardal Gwent yn ystod 2019-20. Yn ystod 2020-21 roedd lleihad yn y nifer hwn i 2,774, gan fod mynediad i gartrefi pobl wedi'i gyfyngu oherwydd pandemig Covid-19. Cyflwynwyd Archwiliad Diogelwch y Cartref newydd, a gynhaliwyd dros y ffôn yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Rhoddir cyngor dros y ffôn i helpu unigolion i wella eu hiechyd a'u lles a lleihau'r perygl y bydd tân yn eu cartref. Gellir cynnal yr archwiliadau newydd hyn os nad yw'r preswilydd yn dymuno i ni fynd i mewn i'w heiddo, neu os nad yw'n bosibl casglu digon o wybodaeth gan weithwyr y Gwasanaeth Tân sy'n cwblhau'r archwiliad i asesu bod y preswilydd a) yn gallu deall y deunyddiau addysg ac b) os oes angen offer, bod y preswilydd yn gallu gosod yr offer ar ei ben ei hun.

Yn ystod yr archwiliad mae manylion yn cael eu casglu am y math o ddeiliadaeth, a oes synwryddion mwg yn yr eiddo ac os felly, a ydynt yn gweithio, pobl sy'n ysmygu, yn defnyddio canhwylau, yn cronni gwrthrychau ac a ydynt yn gorlwytho socedi trydan yn ogystal â nodi peryglon diogelwch tân eraill. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr archwiliadau, a chynhaliwyd 1,821 o archwiliadau diogelwch yn y cartref hyd at ddiwedd mis Medi 2021.

Mae tanau damweiniol yn cynnwys tanau y tybir iddynt gael eu cynnau'n ddamweiniol neu nid yw'r rheswm yn hysbys (neu heb ei nodi).

Ffigur S19: Tanau damweiniol am bob 1,000 o aelwydydd yng Ngwent 2016-17 – 2020-21




Ffynonellau: Amcangyfrifon aelwydydd – Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru; Achosion o Danau – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mae Ffigur S19 yn dangos cyfradd y tanau damweiniol am bob 1,000 aelwyd a gofnodwyd ar draws Gwent rhwng 2016-17 a 2020-21, ac mae'n dangos bod y gyfradd yn eithaf sefydlog dros y cyfnod amser hwn ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol Gwent. Yn gyffredinol, Sir Fynwy oedd â'r gyfradd uchaf dros y cyfnod amser, ac roedd y gyfradd ar ei hisaf ym Mlaenau Gwent a Chaerffili. Dylid nodi bod cyfradd y tanau damweiniol yn gyffredinol yn isel iawn ar draws Gwent.

Mae tanau bwriadol yn cynnwys y rheini y 'credir' neu yr 'amheuir' iddynt gael eu cynnwys'n fwriadol. Maent yn cynnwys tanau yn eiddo'r unigolyn, eiddo pobl eraill neu eiddo perchennog anhysbys. Nid yw tanau bwriadol yr un peth â llosgi bwriadol (*arson*), gan fod llosgi bwriadol wedi'i ddiffinio o dan Ddeddf Difrod Troseddol 1971 fel 'gweithred i geisio dinistrio neu ddifrodi eiddo, a/neu thrwy wneud hynny, beryglu bywyd'.


Ffigur S20: Tanau bwriadol am bob 1,000 aelwyd yng Ngwent rhwng 2016-17 a 2020-21



Mae Ffigur S20 yn dangos cyfradd y tanau bwriadol am bob 1,000 aelwyd a gofnodwyd ar draws Gwent rhwng 2016-17 a 2020-21, ac mae'n dangos bod y gyfradd wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2018-19 cyn gostwng yn 2019-20 ym mhob ardal. Parhaodd y gyfradd i ostwng yng Nghasnewydd, Caerffili a Thorfaen yn 2020-21. Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o danau bwriadol ar draws y cyfnod amser heblaw am yn 2019-20, pan oedd cyfradd Casnewydd ychydig yn uwch. Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf o danau bwriadol ar draws y cyfnod amser hwn, ac mae'r gyfradd yn eithaf sefydlog yn yr ardal hon heblaw am gynnydd bach yn 2018-19.


Tanau bach yn yr awyr agored yw tanau gwair fel arfer ac nid ydynt yn ymwneud â phobl nac eiddo, fel tanau gwastraff, tanau glaswelltir a thanau mewn adeiladau gwag neu gerbydau wedi'u gadael. Mae tanau lle mae pobl yn cael eu hanafu neu'n gorfod cael eu hachub, neu mae pump neu ragor o beiriannau pwmpio wedi cael eu defnyddio, yn cael eu hystyried yn danau cynradd awyr agored eraill.

Ffigur S21: Tanau Gwair Bwriadol am bob 1,000 aelwyd yng Ngwent rhwng 2016-17 a 2020-21



Mae Ffigur S21 yn dangos cyfradd y tanau gwair bwriadol am bob 1,000 aelwyd a gofnodwyd ar draws Gwent rhwng 2016-17 a 2020-21. Cyrhaeddodd y gyfradd frig yn 2018-19 ym mhob ardal, mae'n debyg oherwydd haf hynod o boeth a sych 2018, cyn gostwng yn sylweddol ym mhob ardal yn 2019-20 ac aros yn sefydlog yn 2020-21. Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o danau gwair bwriadol rhwng 2016-17 a 2018-19, ac roedd y gyfradd ar ei uchaf yng Nghaerffili yn 2019-20 a 2020-21. Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf o danau gwair bwriadol ar draws y cyfnod amser, ac mae'r gyfradd yn eithaf sefydlog heblaw am gynnydd bach yn 2018-19. Roedd y sefyllfa yn debyg yng Nghasnewydd a Thorfaen.

Ffigur S22: Galwadau Ffug Maleisus yng Ngwent am bob 1,000 aelwyd rhwng 2016-17 a 2020-21



Ffynonellau: Amcangyfrifon aelwydydd – Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru; Achosion o Danau – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mae Galwadau Ffug Maleisus yn cael eu gwneud gyda'r bwriad o alw'r Gwasanaeth Tân at ddigwyddiad nad yw'n bodoli gan gynnwys galwadau maleisus bwriadol a rhai a amheuir, ac maent fel arfer yn cael eu gwneud mewn galwadau ffôn ffug neu drwy ganu larymau tân yn fwriadol.


Mae Ffigur S22 yn dangos cyfradd y galwadau ffug maleisus am bob 1,000 aelwyd a gofnodwyd ar draws Gwent rhwng 2016-17 a 2020-21, ac mae'n dangos er bod y duedd gyffredinol yn amrywio, mae'r gyfradd yn isel iawn. Heblaw am yn 2016-17, Casnewydd oedd â'r gyfradd uchaf o alwadau ffug maleisus bob blwyddyn yn ystod y cyfnod amser, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2019-20. Mae'r gyfradd yn Nhorfaen wedi gostwng yn ystod y cyfnod amser hwn. Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf yn ystod tair o'r pum mlynedd (2016-17, 2017-18 a 2019-20).

Digwyddiadau heb danau (sydd hefyd yn cael eu galw'n ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig) yw digwyddiadau lle mae angen injan dân neu swyddog tân. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- argyfyngau lleol e.e. digwyddiadau traffig ffyrdd, ymateb i argyfyngau meddygol, achub pobl a/neu anifeiliaid neu wneud ardaloedd yn ddiogel
- argyfyngau amgylcheddol mawr e.e. llifogydd, digwyddiadau yn ymwneud â deunyddiau peryglus neu olyngiadau
- digwyddiadau domestig e.e. pobl wedi'u cloi allan /i mewn, rhyda pobl o lifftiau, hunanladdiad/ymgais i gyflawni hunanladdiad
- trefniadau ymlaen llaw i fod yn bresennol neu gynorthwyo asiantaethau eraill, a all gynnwys darparu rhywfaint o gyngor neu fod yn barod i ymateb i ddelio â sefyllfaoedd argyfwng

Mae Ffigur S23 yn dangos cyfradd y galwadau yn ymwneud â llifogydd am bob 1,000 aelwyd a gofnodwyd ar draws Gwent rhwng 2016-17 a 2020-21, ac er bod y duedd gyffredinol yn amrywio, gwelir bod y gyfradd yn hynod o isel. Cyrhaeddodd y gyfradd uchafbwynt yn Sir Fynwy yn 2019-20, ac uchafbwyntiau llai ym Mlaenau Gwent a Chaerffili. Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o alwadau yn ymwneud â llifogydd yn 2016-17 a 2017-18, Sir Fynwy oedd â'r gyfradd uchaf yn 2018-19 a 2019-20, ac roedd y gyfradd ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent a Chasnewydd yn 2020-21.

Ffigur S23: Galwadau yn ymwneud â Llifogydd am bob 1,000 aelwyd yng Ngwent rhwng 2016-17 a 2020-21



Ffynonellau: Amcangyfrifon aelwydydd – Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru; Achosion o Danau – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru


2.7 Tueddiadau a heriau'r dyfodol

Yn 2018, cafodd Ash Futures³ ei gomisiynu gan y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus blaenorol yng Ngwent i nodi set o sefyllfaoedd ar gyfer y dyfodol yn ardal Gwent. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethant gynnal cyfres o sganiau gorwel i nodi amrywiaeth eang o dueddiadau, tarfwyr a gyrwyr newid posibl sy'n debygol o effeithio ar gymdeithas a'i siapiau dros y 10 neu 20 mlynedd nesaf. Cafodd y sganiau gorwel hyn eu grwpio yn ddeg thema allweddol – Poblogaeth, Gofodol, Symudedd, Gwleidyddiaeth, Economi, Cymdeithas, Diogelwch, Technoleg, Adnoddau a Systemau Naturiol. Dangosir cynrychioliad o'r themâu allweddol hyn a'r is-themâu cysylltiedig yn Ffigur S23, sydd hefyd yn ceisio dangos y rhyngberthynas rhyngddynt.

Mae cwrpas byd-eang i rai o'r themâu a'r is-themâu hyn, ac mae eraill yn llawer mwy lleol. Fodd bynnag, bydd gan bob un ohonynt ganlyniadau i bobl, busnesau ac amgylchedd Gwent. Gall rhai gynnig cyfleoedd gwirioneddol i'r ardal, a gall eraill ei dal yn ôl. Ond bydd bod yn ymwybodol o'r bygythiadau hyn a'u heffeithiau posibl ar Went yn helpu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ragweld bygythiadau posibl, nodi posibiliadau newydd ac ystyried ymatebion strategol.

Thema allweddol Diogelwch yw'r un fwyaf perthnasol i drosedd a diogelwch cymunedol, gan ei bod yn ystyried is-themâu seiberddrosedd, seiberddiogelwch, radicaliaeth, terfysgaeth, gwyliadwriaeth, diogelwch neu ymyrraeth a phlisma rhagfynegol. Daw'r wybodaeth ganlynol o'r adroddiad 'Gwent Futures Horizon Scanning Report'⁴ gan Ash Futures (Mawrth 2018).

Ffigur S24: Prosiect 'Gwent Futures' – Gyrywyr Newid yn y Dyfodol



Ffynhonnell: adroddiad 'Gwent Futures Summary Horizon Scanning Report', Ash Futures, Mawrth 2018

Y we dywyll yw'r enw sy'n cael ei roi ar y rhan fach o'r rhyngwryd a ddefnyddir yn bennaf fel marchnad ddu ar-lein ar gyfer masnach anghyfreithlon mewn nwyddau a gwasanaethau anghyfreithlon fel cyffuriau, pasbortau ffug, pornograffi plant, arfau a meddalwedd camfanteisio (gwasanaethau hacio cyfrifiaduron). Defnyddir meddalwedd arbenigol i gael mynediad i'r we dywyll, sy'n aml yn celu lleoliad y defnyddiwr a'i ddefnydd o'r we dywyll.

Mae defnyddwyr llai drygionus yn dechrau defnyddio'r we dywyll at ddibenion cyfreithlon er mwyn elwa ar y gallu i guddio rhag llygaid busneslyd – boed yn orfodwyr y gyfraith, marchnadwyr neu gymdogion swnllyd. Mae plismona'r we dywyll yn heriol, ond mae awdurdodau yn gwneud mwy o ymdrech yn y maes hwn.

Credir bod cyfran y defnyddwyr cyffuriau yn y DU a gafodd sylweddau anghyfreithlon ar y we dywyll yn 2017 (1 mewn 4) wedi dyblu ers 2014. Ecstasi yw'r cyffur sy'n cael ei brynu'n fwyaf aml, yna canabis, sylweddau seicoweithredol newydd (NPSs) fel Spice a Clockwork Orange, a LSD. Mae melin drafod y Rand Corporation o'r farn mai marchnad gyffuriau ar-lein y DU yw'r fwyaf yn Ewrop, a'i bod yn cyfrif am 20,000 o drafodion ar y we sy'n werth £1.8 miliwn bob mis. Yn fyd-eang, marchnad UDA yn unig oedd yn fwy o ran elw, er bod nifer y gwerthiannau yn ôl y boblogaeth yn fwy yn y DU.

Mae'r we dywyll yn drysu asiantaethau sy'n ymladd trosedd, ac maent yn ei hystyried yn fygythiad cynyddol i iechyd a diogelwch. Bydd llwyddiant gorfodi'r gyfraith yn dibynnu ar (ymhlith pethau eraill) cydweithio rhyngwladol rhwng cynrychiolwyr y diwydiant technoleg a sefydlu unedau ymchwilio a phatrolau seiber ar y cyd.

Bydd ymchwil i'r ymarfer yn bwysig hefyd, ac mae'r Arsyllfa Polisi Cyffuriau Byd-eang⁵ ym Mhrifysgol Abertawe yn archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â'r we dywyll.

Mae gwell cysylltedd wedi cynyddu'r angen ar gyfer **seiberddiogelwch**. Ar ôl i bopeth gael ei rwydweithio, gall grwpiau bach ac unigolion sy'n gweithio o bell lansio ymosodiadau cudd, dwyn (er enghraifft) gwybodaeth bersonol o gronfeydd data cwsmeriaid, dosbarthu a gweithredu maleiswedd neu lansio

ymosodiadau rhwystrad gwasanaeth gwasgaredig (DDoS) drwy'r botnet. Gall sefydliadau ddioddef seiber ymosodiadau gan unigolion, grwpiau troseddol neu genedl-wladwriaethau gelyniaethus. Derbynnir bellach y bydd elfen seiber yn perthyn i bob gwrthdaro neu ryfel yn y dyfodol ac y bydd rhai ohonynt yn cael eu hymladd yn gyfan gwbl yn y seiber-ofod.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddyfodol seiberddiogelwch? Yn syml iawn, ni ddylai cwmnïau a sefydliadau heb brofiad o'r diwydiant diogelwch gwybodaeth weithio ar eu pen eu hunain ar gynnyrch sy'n gofyn am gysylltiad â'r Rhyngwrld a dylent weithio gydag arbenigwyr i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u systemau yn ddiogel.

Disgwylir y bydd cynnydd mawr yn y galw am seiberddiogelwch, ond er mwyn mynd i'r afael â'r problem bydd angen i bob gweithiwr a chyflogai ddod yn ymwybodol o faterion seiber a bydd angen i lywodraethau a busnesau sicrhau eu bod yn diweddarau eu meddalwedd a'u systemau diogelwch i amddiffyn eu hunain a'u cleientiaid a/neu'r cyhoedd.

Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan Invotra⁶ ar ddiwedd 2017 yn amlygu'r ffaith bod y rhan fwyaf o uwch-reolwyr TG sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn ystyried diogelwch data a systemau fel eu prif flaenoriaeth. Roedd 79% o reolwyr TG yn ystyried diogelwch yn brif flaenoriaeth, a dywedodd 60% fod ymosodiadau seiber proffil uchel wedi eu hannog i graffu'n fwy gofalus ar ddiogelwch eu systemau. Dywedodd ychydig dros chwarter (26%) fod ymosodiadau wedi gwneud i bobl yn eu sefydliad deimlo'n 'ofnus', ac roedd hyn wedi cael effaith negyddol ar gynhyrchedd. At hyn, dywedodd 23% arall fod hacio proffil uchel yn 'cael effaith negyddol ar eu cymhelliad'.

Pan ofynnwyd am y cynnydd a wnaed tuag at safon 'digidol yn bennaf' y Llywodraeth, disgrifiodd 44% drawsnewidiad digidol fel 'ffocws pwysig', ond dywedwyd bod y sector cyhoeddus 'ymhell ar ôl' y sector preifat. Mae bron i un o bob tri (32%) o'r farn nad oes digon o fuddsoddiad mewn technoleg i gyrraedd nodau trawsnewid digidol, ac roedd 29% yn credu bod diffyg sgiliau yn rhwystr. Gwelodd yr arolwg, hyd yn oed pan oedd buddsoddiad wedi'i wneud mewn technoleg, roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn credu nad oedd digon o hyfforddiant mewn systemau newydd.

Mae'r grŵp hawliau dynol Liberty wedi colli ei her yn yr Uchel Lys yn erbyn Deddf Pwerau Ymchwilio (IPA) y llywodraeth ym mis Gorffennaf 2019⁷. Mae'r ddeddfwriaeth, sy'n cael ei galw'n "Siarter y Busneswyr" gan ei beirniaid, yn caniatáu rhagor o wylidwriaeth dorfol o ddyfeisiau electronig, gan alluogi'r asiantaethau cuddwybodaeth i echdynnu a storio gwybodaeth. Roedd Liberty yn honni bod pwerau "swmp hacio" yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, dywedodd yr Arglwydd Ustus Singh a Mr Ustus Holgate wrth yr Uchel Lys fod y pwerau gwyliadwriaeth yn gyfreithlon. Cafodd yr achos ei ddwyn gerbron y llys yn dilyn beirniadaeth o'r ffordd roedd MI5 yn ymdrin â'i weithredoedd storio data. Dywedodd cyfreithwyr Liberty y gall y data a gasglwyd gan y gwasanaethau diogelwch ac asiantaethau eraill – o dan warantau a roddwyd gan farnwr neu'r ysgrifennydd cartref - gynnwys:

- Data o natur bersonol iawn, gan gynnwys hanes pori'r rhyngwrld unigolyn
- Yr apiau mae defnyddwyr wedi'u lawrlwytho ar eu ffonau
- Enwau defnyddwyr a chyfrineiriau
- Data safle celloedd a all nodi union leoliad unigolyn ar adeg benodol

Dywedodd y grŵp nad oedd gwarantau yn cynnwys casglu data mewn sypiau, gan olygu fod y ddeddfwriaeth yn mynd yn groes i gyfraith hawliau dynol, ac y byddai'r data yn cael eu cadw ar ffeil ar gyfer eu harchwilio ar ôl i unrhyw warant ddod i ben.

Nid oes llawer o gefnogaeth i'r IPA. Y pryderon yw y bydd y ddeddfwriaeth yn ymyrryd ar breifatrwydd personol a phroffesiynol ac yn cynyddu'r teimlad o ddiffyg ymddiriedaeth rhwng dinasyddion a'r wladwriaeth. Mae'r bosibl bod y drafodaeth am IPA yn tynnu sylw dinasyddion o fater a allai fod yn fwy ymwithiol: olrhain symudiadau, perthnasoedd ac arferion siopa defnyddwyr apiau yn gudd.

Mae manteision ac anafanteision **gwyliadwriaeth** yn ymddangos yn gymhleth. Ar un llaw, mae dinasyddion yn pryderu nad yw'r wladwriaeth yn gwylio eu symudiadau. Ar y llaw arall, maent yn barod i gario dyfeisiau a gyrru ceir y gellir eu holrhain, ac maent yn barod i drosglwyddo pob math o ddata personol i gorfforaethau preifat sy'n turio drwy eu gwybodaeth bersonol, eu dewisiadau a'u proffiliau prynu er budd masnachol.

Mae'n bosibl bod y disgwrs cyhoeddus ar wyladwriaeth - a hyd yn oed y gair ei hun - yn rhy syml ac yn henffasiwn; os felly, mae angen i'r ddadl newid yn sylweddol ac yn gyflym.

Mae plismona rhagfynegol yn defnyddio dulliau dadansoddi rhagfynegol i gysylltu troseddau â phobl neu leoedd. Mae'r technegau yn symud y tu hwnt i'r dulliau sy'n bodoli ar hyn o bryd (fel dadansoddiad patrymau a gwyliadwriaeth yn seiliedig ar TCC) tuag at algorithmau sy'n rhagweld lle mae troseddau yn debygol o ddigwydd a phwy allai eu cyflawni; ac ymlaen at wneud argymhellion ar gyfer dynodi adnoddau'r heddlu.

Mae'r ymatebion yn ronnynog ac wedi'u cyfeirio. Anfonir patrolau i ardal benodol yn hytrach na chymdogaeth gyfan ac ychwanegir data am drosedd yn ddyddiol er mwyn cynhyrchu rhagfynegiadau ar gyfer pob sifft.

Mae plismona rhagfynegol yn codi nifer o faterion ynghylch preifatrwydd a hawliau sifil, ac mae adroddiadau sy'n dod i'r amlwg am ddulliau yn China yn awgrymu y gallai'r dull hwn gael ei ddefnyddio yr un mor hawdd ar gyfer rheolaeth gymdeithasol ag ymladd trosedd.

Eto i gyd, mae Chicago yn buddsoddi rhagor yn y dechnoleg ac mae systemau newydd fel LineSight⁸ (system Unisys a allai helpu awdurdodau i sylwi ar bobl a ddrwgdybir a chargo ger ffiniau gwledydd a meysydd awyr ar draws y byd "mewn cyn lleied â dwy eiliad") yn dangos sut gall y dechnoleg gefnogi plismona.

Mae Heddlu Manceinion Fwyaf a Heddlu Caint wedi bod yn treialu plismona rhagfynegol ers 2012 ac, ar y cyfan, mae'r canlyniadau yn gadarnhaol. Er bod rhai arbenigwyr yn credu bod llawer o gynnydd yn dal i'w wneud, y teimlad cyffredinol yw bod hwn yn un dull pwysig i ymladd trosedd yn y dyfodol.

Un mater pwysig er mwyn gwella plismona rhagfynegol yw hygyrchedd ac ansawdd y data sy'n cael eu defnyddio. Mae 'Big Data and Policing'⁹ (adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Gwasanaethau Unedig, neu'r 'Royal United Services Institute' ym mis Medi 2017) yn ystyried y materion yn ymwneud â hyn yn fanwl ac yn nodi pedair blaenoriaeth ar gyfer cryfhau plismona rhagfynegol. Mae hefyd yn nodi rhwystrau rhag rhoi'r dull hwn ar waith ac yn galw am ragor o fuddsoddiad a gwell ymarfer i gefnogi'r dull.

Mae'r rhan fwyaf o'r 14 argymhelliad yn yr adroddiad wedi'u cyfeirio at Heddluoedd a chyrrff plismona heblaw am y canlynol – Dylid creu cronfeydd data MASH (Canolfan Diogelu Amlasiantaeth) sy'n cael eu rhannu, er mwyn gwella'r broses o rannu data rhwng yr heddlu ac asiantaethau sy'n bartneriaid, ac mae'n galw ar awdurdodau lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu i gydweithio'n agos wrth adnabod pobl agored i niwed y mae angen eu diogelu.

Lansiwyd Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth Gwent ym mis Ionawr 2021, a gwelwyd nifer o asiantaethau (gan gynnwys swyddogion Heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ac addysg, swyddogion y gwasanaeth prawf a staff o'r sector gwirfoddol) yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwybodaeth werthfawr ac arbenigedd proffesiynol i sicrhau bod y bobl y mae angen cymorth arnynt yn ei dderbyn cyn gynted â phosibl. Trwy weithio gyda'i gilydd, bydd gweithwyr proffesiynol rheng-flaen yn edrych ar bob math o sefyllfa yn ymwneud â bod yn agored i niwed, gan gynnwys materion amddiffyn plant ac oedolion fel camfanteisio, cam-drin ac esgeulustod.

Diben Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021¹⁰ yw dwyn amrywiaeth o wybodaeth ynghyd, mewn un lle hygyrch, er mwyn helpu dinasyddion a llunwyr polisiâu yng Nghymru i ddeall y tueddiadau a'r ysgogwyr mawr sy'n debygol o lunio dyfodol Cymru. Mae ganddo rôl benodol o dan y ddeddfwriaeth i lywio gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt asesu llesiant lleol. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio cefnogi sgwrs genedlaethol am y ffyrdd gorau y gall rhanddeiliaid baratoi ar gyfer y dyfodol. Mae'n ddogfen adnoddau, y gall pobl droi ati i gael gwybodaeth am dueddiadau allweddol sy'n eu hannog i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd a all arwain o'r tueddiadau hyn.

Mae'r adroddiad yn cynnwys pedwar 'mega-dueddiad' sy'n fwyaf tebygol o arwain at risgiau neu gyfleoedd i Gymru, sef **pobl a phoblogaeth, iechyd a therfynau'r blaned, anghydraddoldebau, a thechnoleg**. Gan gydnabod y rôl unigryw mae cyrrff cyhoeddus yn ei chwarae i gyflawni'r nodau llesiant, mae'r adroddiad hwn yn cynnig gwybodaeth ychwanegol am y tueddiadau sy'n ymwneud â chyllid cyhoeddus a galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus.

Effaith barhaus pandemig COVID-19

Mae pandemig Covid-19 yn enghraifft o ddigwyddiad sydd wedi amharu'n sylweddol ar dueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Mae effaith y pandemig wedi esgor ar drafodaethau a diddordeb newydd mewn rhagweld y dyfodol ac mae wedi cael effaith ddwys ar economïau a chymdeithasau ar draws y byd, gan amharu mewn ffordd amlwg ar rai tueddiadau tymor byr, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â phatrymau trosedd ac achosion o danau, er enghraifft. Mae'r pandemig wedi dwysáu anghydraddoldebau oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru, yn enwedig yn achos y bobl fwyaf agored i niwed, ond hefyd ar draws cymdeithas yn fwy eang. Yn benodol, cafodd effaith anghymesur ar fenywod, pobl hŷn, pobl ifanc, pobl o grwpiau Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd gwaelodol, pobl sy'n byw mewn tai o safon isel, a phobl sy'n gweithio mewn swyddi anffurfiol, incwm is, a gwasanaethau rheng-flaen.

Mae'n debygol y bydd y pandemig yn arwain at gyflymu rhai o'r tueddiadau presennol ac o bosibl yn creu tueddiadau newydd. Fodd bynnag, mae effaith y pandemig, sy'n dal i ddatblygu, wrth lywio tueddiadau yn y tymor canolig a'r tymor hir yn fyd-eang ac yng Nghymru, yn llawr mwy ansicr ar hyn o bryd.

Newid hinsawdd

Mae tymereddau byd-eang wedi bod yn codi'n raddol dros y degawdau diwethaf – mae naw o'r deng mlynedd cynhesaf ar gofnod wedi digwydd ers 2010¹¹. Disgwylir yn eang y bydd newid hinsawdd yn parhau gan gynyddu amllder, dwysedd, ac effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol dros y blyneddodod i ddod¹². Yng Nghymru, mae tebygolrwydd uchel y bydd digwyddiadau tywydd digynsail gan gynnwys **stormydd arfordirol, llifogydd, tonnau gwres, a sychder** yn fwy cyffredin yn y blyneddodod i ddod¹³. Mae disgwyl y bydd hafau yn gynhesach ac yn sychach, y bydd gaeafau yn fwynach ac yn wlypach, a rhagwelir y bydd lefelau'r môr yn codi ar draws y wlad i hyd at 24cm erbyn 2050. Yng Nghymru, ni fydd newid hinsawdd yn cael effaith gyfartal ar draws y wlad – bydd yn cael effaith anghymesur ar bobl ag anfantais economaidd a chymdeithasol¹⁴. Mae anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli yn debygol o gael eu gwaethygu, a bydd llai o adnoddau ar gael i bobl sy'n byw mewn ardaloedd incwm is a lleoliadau mwy agored i leihau effaith newidiadau i'r hinsawdd ac addasu iddynt.

Digideiddio

Mae busnesau ar draws y byd yn addasu fwyfwy i ddigideiddio ac yn mabwysiadu technolegau newydd. Y tuedd cyffredinol yw un o gyflymu digideiddio mewn prosesau yn y gwaith. Yn y dyfodol agos, rhagwelir y bydd 29% o gynnydd yn nifer y busnesau fydd yn mabwysiadu technolegau **engryptio** a rhagwelir y bydd cynnydd o 29% yn y defnydd o **dechnolegau seiberddiogelwch**, a chynnydd o 17% yn y defnydd o gyfrifiadureg yn y cwmwl. Ochr yn ochr â thwf digideiddio, mae **bygythiadau seiberddiogelwch** yn berygl cynyddol i gymdeithasau ym mhob man. Mae 82% o fusnesau'r DU yn bancio ar-lein ac mae 58% yn cadw gwybodaeth bersonol am gwsmeriaid yn electronig. Mae 40% o fusnesau'r DU wedi dioddef ymosodiadau neu achosion tor-diogelwch data yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae seiberddiogelwch yn debygol o ddod yn fwy amlwg os bydd y tueddiadau presennol yn parhau.

Bydd angen i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent weithio i leihau bygythiadau'r tueddiadau hyn a ragwelir i'r dyfodol, y tarfwyr posibl a'r gyrwyr newid, a cheisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd posibl, er mwyn dod â'r budd gorau i breswylwyr a chymunedau Gwent.

2.8 Casgliad

Mae lefel y mathau gwahanol o drosedd ar draws Gwent yn gostwng yn gyffredinol dros amser, er bod cynnydd wedi bod mewn rhai mathau o droseddau, fel troseddau casineb (oherwydd ymdrechion i wella perthnasoedd â chymunedau penodol i'w hannog i roi gwybod am drosedd) ac achosion fel digwyddiadau lle mae pryder ynglŷn â phlentyn a throseddau plant neu gyfeiriadedd rhywiol (oherwydd y ffordd mae pobl yn rhoi gwybod am y mathau hyn o droseddau). Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith amlwg ar droseddau o sawl math, gan fod llai o bobl allan yn eu cymunedau ac roedd cyfleoedd cyfyngedig i unigolion ddod i gyswllt ag unigolion agored i niwed neu â'u cyfoedion.

Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i fod yn broblem ar draws Gwent ac mae trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer ei atal ac er mwyn amddiffyn a chynnig cymorth i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan drais a chamdriniaeth o'r fath. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod y cyfnodau clo a gyflwynwyd yn sgil y pandemig wedi effeithio ar allu'r dioddefwyr i dderbyn y cymorth hwn, ac mae tagfa enfawr yn y System Cyfiawnder Troseddol sy'n golygu nad yw drwgweithredwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd.

Mae nifer y tanau o bob math yn lleihau yn gyffredinol ar draws Gwent, er y gall materion amgylcheddol fel haf eithriadol o sych 2018 gael effaith fawr ar y ffigyrau hyn. Mae newid hinsawdd yn debygol o arwain at hafau cynhesach, gan gynyddu'r risg o danau, ac mae'r gaeafau yn debygol o fod yn oerach, gan gynyddu'r risg o stormydd a llifogydd.

Mae llawer o'r heriau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y dyfodol yn ymwneud â seiberddrosedd a seiberddiogelwch, gan fod unigolion a grwpiau trefnedig yn defnyddio'r byd seiber yn gynyddol i dargedu dioddefwyr agored i niwed, ac mae hyn wedi bod yn broblem benodol yn ystod y pandemig. Bydd angen i'r gwasanaethau brys gofleidio'r dechnoleg newydd er mwyn darparu'r mathau o wasanaethau mae unigolion a chymunedau yn disgwyl eu derbyn.

3 Addysg

3.1 Cyflwyniad i addysg

Gall cael addysg dda chwarae rôl allweddol wrth alluogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, ac i gyflawni eu potensial. Mae mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a gwella deilliannau a sgiliau addysg, yn enwedig i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel, yn cefnogi eu llesiant economaidd hirdymor a'u cymunedau.

Gall yr ysgolion gynnig y cyfle cyntaf i bobl ifanc ddysgu'r sgiliau ar gyfer cyd-dynnu'n dda â phobl o gefndiroedd eraill a bod yn ddinasyddion gweithredol. Gallant gael cyfle i brofi digwyddiadau diwylliannol newydd, a datblygu sgiliau iaith Gymraeg. Yn yr ysgol, gall pobl ifanc hefyd ddysgu am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a'r effaith mae pobl yn ei chael ar y blaned yn fyd-eang.

Gall profiadau yn ystod plentynod gael effaith sylweddol ar ddatblygiad hirdymor unigolyn a'i gyflawniadau cyffredinol mewn bywyd. Rydym yn gwybod fod teuluoedd yng Ngwent yn cael anhawster talu am hanfodion bywyd. Mae data Prydau Ysgol am Ddim (FSM) yn dweud wrthym hefyd fod anghydraddoldebau yn ein cymunedau, ac rydym yn gwybod y gall cael pryd da wella iechyd a chefnogi dysgu. Bydd gweithredu'n fuan i gefnogi pobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac addysg o ansawdd dda yn cefnogi eu llesiant economaidd yn nes ymlaen yn eu bywydau.

Mae pum Awdurdod Addysg Lleol unigol yng Ngwent ac maent yn rhannu Gwasanaeth Cyflawniad Addysg sy'n darparu cymorth a her i ysgolion yn y pum awdurdod lleol i ymdrechu dros ragoriaeth. Mae Gwent wedi elwa hefyd ar raglen ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru, gan ddarparu gwell adeiladau a chyfleusterau i gefnogi dulliau cyfoes o ddysgu sy'n dod â budd i ddisgyblion a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol.

Ffigur S25: Trosolwg o'r data addysg

Plant oed ysgol 	Mae gan Gwent 73,324 o blant oed ysgol, sef 19.3% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru ¹⁵ .
Prydau ysgol am ddim	Mae 24.8% o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ¹⁶ .
Ysgolion 	Mae gan Gwent 233 o ysgolion a gynhelir - 20 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, 3 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, mae 17 o ysgolion yr Eglwys Gatholig ac 11 o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn y rhanbarth ¹⁷ .
Ethnigrwydd	Mae 11.8% o ddisgyblion 5 oed neu throsodd yng Ngwent yn dod o gefndir lleiafrif ethnig ¹⁸ .

Mae Ffigur S26 yn dangos bod ysgolion o sawl math gwahanol yng Ngwent. Mae'r ysgol y bydd rhywun yn ei mynychu yn fwyaf tebygol o gael ei bennu gan ddalgylch yr ardal lle'r plentyn yn byw, ond mae ffactorau cymdeithasol eraill fel ysgolion ffydd ac ysgolion Cymraeg.

Ffigur S26: Dadansoddiad o'r ddarpariaeth addysgol gan awdurdodau lleol yng Ngwent

Blaenau Gwent (31.4% FSM)	Caerffili (24.9% FSM)	Sir Fynwy (16.6% FSM)	Casnewydd (23.1% FSM)	Torfaen (30.0% FSM)
3 Lleoliad meithrin nas cynhelir	14 Lleoliad meithrin nas cynhelir	25 Lleoliad meithrin nas cynhelir	23 Lleoliad meithrin nas cynhelir	15 Lleoliad meithrin nas cynhelir
19 Cynradd (1 cyfrwng	63 Cynradd (11 cyfrwng	30 Cynradd (2 cyfrwng	2 Meithrin 43 Cynradd (3 cyfrwng	25 Cynradd (3 cyfrwng
Cymraeg, 3 Catholig, 1 Eglwys yng Nghymru)	Cymraeg, 1 Catholig) 6 Babanod 4 Iau	Cymraeg, 6 Eglwys yng Nghymru, 2 Catholig)	Cymraeg, 2 Eglwys yng Nghymru, 6 Catholig)	Cymraeg, 3 Eglwys yng Nghymru, 3 Catholig)
2 Uwchradd 2 Arbennig 2 3-16	11 Uwchradd (1 cyfrwng Cymraeg) 1 Arbennig 1 Uned Cyfeirio Disgyblion 1 3-18	4 Uwchradd 1 Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion	9 Uwchradd (1 cyfrwng Cymraeg, 1 Catholig) 2 Arbennig 1 Uned Cyfeirio Disgyblion	6 Uwchradd (1 cyfrwng Cymraeg, 1 Catholig) 1 Arbennig 1 Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion

Ffynhonnell: Gwasanaeth Cyflawniad Addysg

Mae amgylchedd yr ysgol yn un lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ynghyd, yn aml am y tro cyntaf, gan hybu cydlynid cymunedol. Bydd galluogi pobl o gefndiroedd gwahanol i gael cyfleoedd bywyd tebyg yn arwain at fwy o gydraddoldeb.

3.2 Cyflawniad addysgol

3.2.1 Blynyddoedd cynnar

Dechrau'n Deg yw rhaglen Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant o dan 4 oed ac mae wedi'i thargeddu at rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae cysylltiad rhwng tlodi plant â chanlyniadau gwael mewn bywyd, gan gynnwys canlyniadau iechyd yn ystod plentynod cynnar. Mae Dechrau'n Deg yn cynnwys pedair elfen graidd: gofal plant o ansawdd am ddim, cymorth i rieni, cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd, a chymorth ar gyfer llythrennedd cynnar¹⁹.

Mae ardaloedd Dechrau'n Deg i'w cael ar draws rhanbarth Gwent. Mae'r data diweddaraf o 2016 yn dangos bod y ganran o blant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol neu'n rhagori arnynt yn 3 oed yng Ngwent yn amrywio o 61% ym Mlaenau Gwent i 43% yn Sir Fynwy; cyfradd Cymru yw 51%²⁰.

Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yw'r addysg ran amser ar gyfer plant 3 a 4 oed cyn iddynt ddechrau derbyn addysg orfodol yn 5 oed. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth gynnar mewn lleoliadau a gynhelir (e.e. adran feithrin mewn ysgol) a/neu lleoliadau nas cynhelir (e.e. meithrinfa ddydd, cylch chwarae, Cylch Meithrin neu ofalwr plant).

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fodloni eu dyletswydd i sicrhau addysg feithrin ddigonol ar gyfer plant yn eu hardal, ac mae hyn yn cael ei ystyried yn llawn yn narpriaeth ran amser y Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg /darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol Gwent.


Ar draws yr ardal, aseswyd bod darpariaeth ddigonol, er bod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd a dewis i rieni, er enghraifft, mae Sir Fynwy yn nodi bod trefniadau trawsffiniol yn eu lle gyda phob un o'r chwe awdurdod lleol cyfagos (yng Nghymru a Lloegr) gan roi mynediad at ddarpariaeth ar draws ffiniau os ystyrir bod hynny'n fwy cyfleus.

Er bod y rhan fwyaf o rieni yn manteisio ar y cyfleoedd hyn, nid yw pawb yn hawlio'r cyfle i dderbyn addysg am ddim, weithiau oherwydd nad ydynt yn gwybod am yr hawl ac weithiau oherwydd dryswch ynghylch y rhaglen Dechrau'n Deg os nad ydynt yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg. Mae gwybodaeth am ofal plant wedi'i chynnwys yn adran Economaidd yr Asesiad Llesiant.

3.2.2 Ysgolion Cynradd

Cytunir yn gyffredinol bod presenoldeb ysgol yn ffactor allweddol yng nghyflawniad disgyblion. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod presenoldeb yn ysgolion cynradd Gwent dros y 2 flynedd diwethaf yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn 2018/19 roedd amrywiadau ar draws Gwent o 4.6% o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd pob absenoldeb yn Sir Fynwy, i 5.8% ym Mlaenau Gwent fel y gwelir yn Ffigur S27.


Ffigur S27: Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd pob absenoldeb mewn ysgolion cynradd, 2018-19



Ffynhonnell: StatsCymru


Mae asesiadau deilliannau fel y cânt eu mesur gan ddata Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (FPI) a Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 2 (CSI) o 2014-2017 (y data diweddaraf i gael ei gyhoeddi) yn dangos bod rhanbarth Gwent yn perfformio'n well na Chymru yn gyffredinol, ond mae amrywiadau rhwng awdurdodau lleol yng Ngwent, fel y gwelir yn Ffigurau S28 a S29.

Ffigur S28: Canran y plant sy'n cyrraedd Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (FPI), 2014 – 2017



Ffynhonnell: StatsCymru

Ffigur S29: Canran y plant sy'n cyrraedd Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 2 (CSI), 2014 – 2017




Ffynhonnell: StatsCymru

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yn defnyddio data ar ganlyniadau cyfartalog asesiadau athrawon o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 2 a 6 yn yr ysgolion cynradd. Mae pob deiliant sy'n cael ei asesu yn cael ei sgorio, a defnyddir y sgoriau hyn i ddarparu sgôr pwyntiau cyfartalog gan ddefnyddio canlyniadau disgyblion o flynyddoedd academiaidd 2015/16 i 2017/18. Roedd mân amrywiadau rhwng yr awdurdodau lleol yng Ngwent, gyda Sir Fynwy yn cael y sgôr uchaf (107 yn y Cyfnod Sylfaen a 90 yng Nghyfnod Allweddol 2) a Blaenau Gwent oedd â'r isaf (103 yn y Cyfnod Sylfaen ac 86 yng Nghyfnod Allweddol 2), o'i gymharu â sgôr gyfartalog Cymru o 104 yn y Cyfnod Sylfaen ac 87 yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r data hwn yn golygu bod modd cymharu ar lefel ardaloedd llai o fewn awdurdodau lleol (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, neu ACEHlau), lle mae amrywiadau ehangach yn amlwg. Er enghraifft, mae Ffigur S30 yn dangos bod sgôr gyfartalog y Cyfnod Sylfaen yng Nghasnewydd yn amrywio o 113 yn Allt-yr-ynn 3 i 95 yn Victoria 4. Mae amrywiadau tebyg i'w gweld yn y sir yng Nghyfnod Allweddol 2, fel y gwelir yn Ffigur S31. Mae anghydraddoldebau o'r fath yn ein cymunedau yn dangos bod cael y dechrau gorau mewn


bywyd yn bwysig, er mwyn sicrhau nad yw'r patrymau presennol o anfantais rhwng y cenedlaethau yn parhau.

Ffigur S30: Sgôr pwyntiau cyfartalog y Cyfnod Sylfaen yn ôl ACEHI yng Ngwent



Ffynhonnell: MALIC 2019 Dangosydd Maes Addysg, Llywodraeth Cymru

Ffigur S31: Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 yn ôl ACEHI yng Ngwent




Ffynhonnell: MALIC 2019 Dangosydd Maes Addysg, Llywodraeth Cymru

3.2.3 Ysgolion uwchradd

Mae presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd yn tueddu i fod ychydig yn is nag yn yr ysgolion cynradd. Yn 2018/19 roedd presenoldeb yn ysgolion uwchradd Gwent ychydig yn well nag ar draws Cymru – roedd y ganran o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd pob absenoldeb yn amrywio o 5% yn Sir Fynwy i 7.1% ym Mlaenau Gwent, fel y gwelir yn Ffigur S32.

Ffigur S32: Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd pob absenoldeb mewn ysgolion uwchradd, 2018/19



Ffynhonnell: StatsCymru

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2018/19) yn dangos bod rhanbarth Gwent yn perfformio'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ar y gwahanol fesuriadau. Mae amrywiadau mawr rhwng awdurdodau lleol ar y lefel hwn o'i gymharu â'r ysgolion cynradd, er enghraifft, mae'r ganran sy'n cyrraedd Lefel 2 yn gynhwysol yn amrywio o 43.1% ym Mlaenau Gwent i 60.8% yn Sir Fynwy, fel y gwelir yn Ffigur S33.

Ffigur S33: Mesuriadau Cyfnod Allweddol 4 2018/19


Ardal	Awdurdod Lleol	% Yn ennill Lefel 1 (5 TGAU A*-G)	% Yn ennill Lefel 2 yn gynhwysol (5 TGAU A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg)	% Yn ennill 5 TGAU A*-A
	Blaenau Gwent	93.8	43.1	9.9
	Caerffili	90.9	50.6	15.2
	Sir Fynwy	93.5	60.8	23.1
	Casnewydd	91.3	53.4	18.0
	Torfaen	93.1	48.3	12.5
De ddwyrain Cymru		92.0	51.7	16.1
Cymru		92.8	53.8	18.0

Ffynhonnell: StatsCymru

Mae data am sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 o MALIC 2019 yn dangos bod amrywiadau rhwng awdurdodau lleol yng Ngwent, gyda Sir Fynwy yn cael y sgôr uchaf (126) a Blaenau Gwent yn cael y sgôr isaf (108) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 119.

Mae Ffigur S34 yn dangos y data hwn ar gyfer ardaloedd llai o fewn awdurdodau lleol, lle mae amrywiadau eang yn amlwg yng Nghyfnod Allweddol 4. Er enghraifft, yng Nghasnewydd, mae disgyblion yn Nhŷ-du yn sgorio 145 o bwyntiau ar gyfartaledd, ac mae myfyrwyr yn Ringland 4 yn sgorio 80.

Ffigur S34: Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 yn ôl ACEHI yng Ngwent



Ffynhonnell: MALIC 2019 Dangosydd Maes Addysg, Llywodraeth Cymru

Gall cyflawniad addysgol gwael fod yn rhwystr rhag addysg ôl-16, hyfforddiant a chyflogaeth ystyrlon. Gall cyflawniad gwael hirdymor effeithio ar y gallu i ennill cyflog, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd mewn bywyd, a all waethygu'r cylch tlodi. Gall cyflawniad amrywio hefyd yn ôl grwpiau gwahanol o ddysgwyr agored i niwed; rhoddir asesiad pellach o gyflawniad grwpiau agored i niwed yng Ngwent yn yr adran nesaf.


3.2.4 Cyflawniad grwpiau agored i niwed

Wrth ystyried cymorth effeithiol yn yr ysgol i ddisgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed, mae Estyn yn diffinio disgyblion agored i niwed fel y rheini a allai fod yn fwy tebygol o ddioddef rhwystrau emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol rhag dysgu, er enghraifft disgyblion ag anghenion addysgol arbennig; disgyblion â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion meddygol; a phlant sy'n derbyn gofal. Disgyblion sydd dan anfantais yw disgyblion y gallai fod rhwystrau ganddynt rhag llwyddo yn yr ysgol oherwydd amgylchiadau niweidiol y tu hwnt i'w rheolaeth, er enghraifft, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion o deuluoedd ar incwm isel²¹. Mae asesiad pellach o blant a phobl ifanc â chyflyrau iechyd, anabledd a nam ar y synhwyr, gan gynnwys nifer y plant ag anabledd a ragwelir yng Ngwent, wedi'i gynnwys yn Adran 3 o Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwent²².

Gwent sydd â rhai o'r canrannau uchaf o blant oed ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM) yng Nghymru. Yn 2020/21 Blaenau Gwent oedd â'r ganran uchaf yng Nghymru (31.4%), a'r ail uchaf oedd Torfaen (30%), o'i gymharu â chyfartaledd o 22.9% ar draws Cymru. Ar y llaw arall, roedd gan Sir Fynwy un o'r canrannau isaf (16.6%) ar ôl Gwynedd, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae nifer y plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yng Ngwent ar gynnydd, ac mae hyn yn wir am yr holl awdurdodau lleol yn yr ardal (gweler Ffigur S35). Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Nhorfaen, lle'r oedd 30% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2019-20, o'i gymharu â 17.5% yn 2016-17. Mae'r cynnydd rhwng 2019-20 a 2020-21 yn amlwg iawn ar draws pob ardal ond yn benodol ym Mlaenau Gwent, lle gwelwyd cynnydd o 25.5% i 31.4% yn ystod un flwyddyn.

Ffigur S35: Canran y disgyblion 5-15 oed sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, 2016-17 – 2020-21




Ffynhonnell: PLASC 2020-21

Nid yw pob disgybl o reidrwydd yn gwneud cais am brydau ysgol am ddim. Mae'n debygol bod gwahanol resymau pam nad yw disgyblion yn manteisio ar brydau ysgol am ddim, er enghraifft, mae Sefydliad Joseph Rowntree yn nodi bod rhai plant, neu eu rhieni, yn anfodlon manteisio ar brydau ysgol am ddim oherwydd y gwarthnod sydd ynghlwm â'r fenter hon a'r sylw nas dymunir y gall hyn ei ddenu²³.

Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree "Mae canran y disgyblion 15 oed sy'n ennill cymwysterau sy'n gyfwerth â phump neu ragor TGAU gradd uchel, gan gynnwys Saesneg (neu Gymraeg) a mathemateg, yn cael ei ystyried fwyfwy fel dangosydd allweddol o gyflawniad addysgol. Mae hyn oherwydd bod meddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd ar y lefel hwn yn hollbwysig i symud ymlaen i astudio ymhellach a chael swydd"²⁴.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae bwlch sylweddol yng nghyflawniad plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant nad ydynt. Mae'r data diweddaraf i gael ei gyhoeddi ar gyfer 2018-19 yn dangos bod bwlch o ran cyrhaeddiad ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent. Ar draws Gwent, llwyddodd 27.2% o bobl ifanc sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim i gyrraedd Lefel 2 cynhwysol, o'i gymharu â 58.2% o ddisgyblion Gwent nad ydynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch cyrhaeddiad ar ei fwyaf yn Sir Fynwy, lle enillodd 28.8% o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim Lefel 2 cynhwysol yn 2018/10, o'i gymharu â 65.7% o blant nad oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (gweler Ffigur S36).

Ffigur S36: Canran y plant Cyfnod Allweddol 4 sy'n llwyddo i ennill Lefel 2 cynhwysol ac sy'n derbyn prydau ysgol am ddim /nid ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim



Ffynhonnell: StatsCymru


Mae grwpiau eraill o ddysgwyr agored i niwed, er enghraifft, plant sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol, y mae tua eu hanner yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac y mae eu deilliannau yn waeth na rhai'r boblogaeth gyffredinol o ddisgyblion. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (2016) yn dangos bod 39% heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar eu pen-blwydd yn 19 oed²⁵.

3.3 Deilliannau addysg plant a phobl ifanc


Mae'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (APS) yn llunio amcangyfrifon o nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. Ar ddiwedd 2020, roedd 14.9% o bobl 19-24 oed a 7.4% o bobl 16-18 oed yn y categori NEET yng Nghymru, canrannau uwch nag yn Lloegr²⁶.

Mae data Gyrfa Cymru yn dangos bod canran y disgyblion a wnaeth adael yr ysgol ym mlwyddyn 11 ac a oedd yn y categori NEET yng Ngwent yn amrywio o 1.4% yn Sir Fynwy a Chasnewydd i 2.3% yn Nhorfaen, ac yn achos disgyblion a wnaeth adael yr ysgol ym mlwyddyn 13, roedd y ganran yn amrywio o 1.1% yng Nghasnewydd i 8.2% yng Nghaerffili, fel y gwelir yn Ffigurau S37 a S38. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y bennod ar y sefyllfa Economaidd.

Ffigur S37: Canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 a oedd yn NEET, 2017 – 2020



Ffigur S38: Canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 13 a oedd yn NEET, 2017 – 2020




(Sylwer: Coleg trydyddol yn unig sydd ym Mlaenau Gwent ac mae'r disgyblion blwyddyn 13 yn garfan fach o Ysgol Arbennig Pen-y-cwm.)

Mae astudiaethau wedi dangos y gall y cyfnod amser y bydd pobl ifanc yn ei dreulio yn y categori NEET gael effaith niweidiol ar eu hiechyd corfforol a meddyliol, a chynyddu'r tebygolrwydd o ddiweithdra, cyflogau isel, neu waith o ansawdd isel yn ddiweddarach yn eu bywyd²⁷.

Roedd adroddiad a ariannwyd gan yr Adran Addysg²⁸ ar fyfyrwyr NEET yn cynnwys adran am ffactorau risg. Daeth i'r casgliad mai'r ffactor risg addysgol mwyaf arwyddocaol oedd cyrhaeddiad isel yn TGAU. Roedd ffactorau risg personol yn cynnwys problemau iechyd, cyfrifoldebau gofalu ac amgylchiadau teuluol anodd (fel bod mewn gofal neu'r berthynas gyda rhieni yn chwalu). Roedd ffactorau risg strwythurol yn cynnwys amodau anodd yn y farchnad lafur, diffyg cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaethau a'r ffaith bod cymorth gan y wladwriaeth les yn cynnig incwm uwch na chyflogau posibl.

Mae data MALIC 2019 am ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 a wnaeth fynd i Addysg Uwch ar ryw adeg yn ystod y tair blynedd ar ôl gadael blwyddyn 11, yn dangos yr amrywiaeth rhwng yr awdurdodau lleol yng Ngwent, o 25.6% ym Mlaenau Gwent i 33.1% yn Sir Fynwy o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (gweler Ffigur S39).

Ffigur S39: Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd ymlaen i Addysg Uwch




Ffynhonnell: MALIC 2019 Dangosydd Maes Addysg, Llywodraeth Cymru

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn dangos bod cynnydd graddol wedi bod yn nifer y graddedigion yn y DU dros y degawd diwethaf (data hyd at 2017) a bod graddedigion yn fwy tebygol o fod mewn gwaith na phobl nad ydynt yn raddedigion²⁹. Mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn dangos bod 39.9% o'r holl raddedigion yng Nghymru yn 2019 yn gweithio mewn swyddi nad oedd ar gyfer graddedigion, o'i gymharu â 32.7% yn Ne-ddwyrain Lloegr³⁰.

Mae'r diffyg swyddi o ansawdd uchel i raddedigion yn Ne Cymru yn golygu bod y bobl fwyaf iach, sydd â'r cymwysterau gorau, yn aml yn gadael yr ardal i gael cyfleoedd gwell, gan arwain at effaith 'ymfudiad ymennydd'. Wrth i fwy o bobl gymwysedig adael, mae'n dod yn fwy anodd i'r ardal adfer a denu'r cyfleoedd gwaith mae pobl yn chwilio amdanynt³¹.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar statws marchnad lafur pobl ifanc – roedd cynnydd o 4.7% yng nghanran y bobl ifanc 18-24 oed a oedd yn hawlio budd-daliadau ym mis Mawrth 2020, gan gyrraedd uchafbwynt o 9.5% ym mis Gorffennaf 2020. Roedd awdurdodau lleol Gwent yn agored iawn i'r duedd hon, ac roedd y ganran ym mhedwar o'r pum awdurdod lleol yn uwch na chanran uchaf Cymru ym mis Gorffennaf. Erbyn mis Mehefin 2021, roedd y cyfraddau hyn yn is na'r uchafbwynt yn ystod yr haf 2020 ond roeddynt yn dal i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig (gweler Ffigur S40).

Ffigur S40: Canran yr hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith 18-24 oed, Ionawr 2020 – Mehefin 2021



Ffynhonnell: NOMIS


At hyn, mae ffigyrau llywodraeth y DU a gafodd eu rhyddhau o dan Gynllun Cadw Swyddi Covid-19 yn dangos bod y gyfradd uchaf o swyddi a gafodd eu rhoi ar ffyrlo ym mis Gorffennaf 2020 yn y band oedran dan 18 (41%), ac yna'r band oedran 18–24 (28%)³².

Gall dysgu gydol oes fel oedolyn helpu pobl i wneud cynnydd ym maes cyflogaeth, ailhyfforddi a newid gyrfa, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar les. Er y gall astudio am gymwysterau ffurfiol neu addysg ychwanegol achosi straen yn y tymor byr, mae'r effaith ar les unigolyn yn fwy cadarnhaol yn y tymor hir, gan fod cymwysterau yn gallu arwain at gyflogaeth a swyddi o ansawdd uwch³³.

Y tu hwn i gyfleoedd gyrfa, gall dysgu anffurfiol ddod â buddion lles cadarnhaol fel gwella rhyngweithio cymdeithasol, hyder, hunan-barch ac ymwybyddiaeth ryngbersonol. Gall canlyniadau o'r fath fod yn bwysig (os nad yn bwysicach) na'r buddion mwy amlwg fel sgiliau newydd a chymwysterau. Mae rhoi cyfleoedd i oedolion barhau i ddysgu yn dod â buddion llesiant pwysig i bobl hŷn, lle mae dysgu er pleser a rhesymau cymdeithasol yn aml yn gymhellant allweddol³⁴.


Mae cymwysterau oedolion o oedran gwaith ar Lefel 3 a 4 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) yn uwch yn Ne-ddwyrain Cymru (mae hyn yn cynnwys Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful) nag ar draws Cymru yn gyffredinol. Unwaith yn rhagor, mae amrywiadau yn bodoli rhwng yr awdurdodau lleol yng Ngwent fel y gwelir yn y data ar gyfer 2020 yn Ffigurau S41 a S42.

Ffigur S41: Canran yr oedolion o oedran gwaith sydd wedi cymhwyso at Lefel 3 ac uwch NQF, 2020



Ffynhonnell: StatsCymru


Ffigur S42: Canran yr oedolion o oedran gwaith sydd wedi cymhwyso at Lefel 4 NQF ac uwch, 2020



Ffynhonnell: StatsCymru

Mae canran yr oedolion oedran gwaith heb gymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent, heblaw am Sir Fynwy, fel y gwelir yn Ffigur S43.

Ffigur S43: Canran yr oedolion o oedran gwaith heb gymwysterau, 2020



Ffynhonnell: StatsCymru

Gall lefelau isel o gyflawniad addysgol fod yn rhwystr rhag cael cyfleoedd cyflogaeth a swyddi sy'n talu'n dda. Ar y llaw arall, mae graddedigion yn fwy tebygol o fod mewn gwaith a mwynhau gwell lles na phobl nad ydynt yn raddedigion – maent yn tueddu i fod yn hapusach, yn fwy bodlon â'u bywydau ac yn teimlo bod eu bywydau yn fwy gwerth chweil³⁵. Eto i gyd, fel y nodwyd eisoes, maent hefyd yn fwy tebygol o adael yr ardal er mwyn dod o hyd i waith addas, neu gallant fod mewn swydd sy'n gofyn am gymwysterau is na'r rhai sydd ganddynt.

3.4 Addysg ar gyfer llesiant

Mae cwricwlwm addysg newydd i Gymru, a gyflwynwyd yn 2022, yn cynnwys ymhlith ei bedwar diben ddyhead i gefnogi plant i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd "sydd yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwydd y blaned".

Un o'r pedwar diben arall yw cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i ddod yn unigolion iach, hyderus "sydd yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi"³⁶.

Mae cryn sylw wedi cael ei roi i les disgyblion a staff yn ystod pandemig Covid-19. Gwelodd astudiaeth gan ddwy brifysgol yng Nghymru bod ysgolion wedi rhoi mwy o sylw i iechyd a lles yn ystod tymhorau'r gwanwyn, haf a'r hydref 2020, gan gynnwys cynyddu rôl dysgu awyr agored i gefnogi lles corfforol a meddyliol. Roedd yr astudiaeth hefyd yn cydnabod bod y llwyth gwaith ychwanegol a oedd yn deillio o'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd a lles athrawon a staff ysgolion. Roedd yr astudiaeth yn argymhell bod ysgolion yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarparwyd drwy'r cwricwlwm newydd i wreiddio ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles mewn ffordd gynaliadwy drwy weithio gyda theuluoedd a chymunedau³⁷.

Mae'r ffordd rydym yn rhyngweithio gyda'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu at ein lles a'n teimlad o gyflawniad, yn ogystal â chefnogi creadigrwydd ac arloesedd. Gall gwaith, gwirfoddoli, lleoliadau, addysg a hyfforddiant yn yr amgylchedd naturiol gynyddu ein lefelau gweithgaredd corfforol, rhoi hwb i'n lles meddyliol, datblygu sgiliau a gwybodaeth newydd, a gwella ein dealltwriaeth o ddulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

Mae dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n seiliedig ar natur yn datblygu dealltwriaeth o'r byd naturiol ac effaith pobl arno. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl sydd â mwy o gysylltiad â natur yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol tuag at yr amgylchedd.

Mae tystiolaeth ddiweddar mewn perthynas â'r pandemig yn dangos bod addysg awyr agored wedi cael ei argymhell fel adnodd i ddysgu plant yn y cartref ac ailagor ysgolion yn ddiogel. Mae plant wedi elwa ar ddysgu a chwarae yn yr awyr agored ac mae adnoddau dysgu awyr agored wedi cael eu hyrwyddo a'u defnyddio'n helaeth. Mae'n cael ei gydnabod yn eang bod ardaloedd awyr agored bellach yn rhan o'r ystafell ddosbarth ac mae addysg awyr agored yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth y dylai ysgolion ei mabwysiadu, gan ei bod yn fuddiol i iechyd corfforol a meddyliol³⁸.

Mae Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn fuddsoddiad cyfalaf strategol, hirdymor mewn ysgolion a cholegau er mwyn eu datblygu fel canolfannau ar gyfer dysgu a lleihau amodau gwael mewn adeiladau. Mae'r rhaglen yn cael ei darparu ar y cyd â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau esgobaethol. Ei nod yw creu cymunedau addysgol sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru³⁹.

Mae ysgolion ar draws Gwent wedi elwa ar well cyfleusterau ysgol, ac mae cynlluniau datblygu pellach yn eu lle. Nod y safleoedd ysgol gwell hyn yw darparu cyfleusterau sy'n addas i'r diben, gan gynnig mynediad i bawb a galluogi athrawon i ganolbwyntio ar wella deilliannau addysgol.




Ffigur S44: Ysgol Gynradd Parc Jiwbilf, Casnewydd

3.5 Pandemig Covid-19

Mae'r pandemig wedi amharu ar ysgolion ac addysg. Mae wedi effeithio ar bresenoldeb ysgol ac wedi arwain at gyfnodau hir o ddysgu o bell i ddisgyblion. Mae Ffigur S45 yn dangos patrymau presenoldeb mewn ysgolion ar draws Cymru yn 2020-21, yn ogystal â'r cyfnodau o ddysgu o bell. Gan fod ardaloedd gwahanol yng Ngwent wedi gweld cyfraddau gwahanol o achosion o'r feirws a rheoliadau, roedd amrywiadau hefyd yn y cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion.

Mae effaith yr amharu ar addysg yn ystod pandemig Covid-19 wedi cyflwyno heriau digynsail i blant a phobl ifanc yng Ngwent, gan gynnwys yr effaith bydd yr amser i ffwrdd o'r ysgol yn ei chael ar lwybr dysgu llawer o ddysgwyr. Nid yw hyn yn debygol o fod yn unffurf, a bydd disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed yn fwy tebygol o gael eu heffeithio oherwydd nad oeddynt yn gallu cael mynediad i'r cymorth roedd ei angen arnynt⁴⁰.

Ffigur S45: Canran y disgyblion a oedd yn bresennol yn ysgolion Cymru o 7 Medi 2020 ymlaen



Source: Schools in Wales

(a) Schools open to all pupils from 14 September 2020.

(b) All secondary schools in Wales moved to online remote learning for the last week of term before Christmas. Many primary schools also closed during the last week of term before Christmas (14 to 18 December 2020).

(c) Schools closed to most pupils from 4 January 2021.

(d) A phased return of Foundation Phase pupils began on 22 February 2021.

(e) From 15 March 2021, all remaining primary school children and children in qualification years were able to return to learning on site.

(f) From 12 April 2021, all remaining pupils were able to return to learning on site.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cafodd y broses arferol o ddyfarnu canlyniadau Cyfnodau Allweddol 4 a 5 ei newid hefyd ar gyfer y blynyddoedd academiaidd 2019-20 a 2020-21, gan arwain at ansicrwydd i fyfyrwyr. Ar draws Cymru, roedd cynnydd yng nghanran y graddau TGAU A ac A* ac roedd cynnydd hefyd yn nifer y rhai a enillodd o leiaf gradd C neu uwch rhwng 2019 a 2021 (gweler Ffigur S46). Fodd bynnag, ar y radd uchaf roedd mwy o fwllch rhwng y rhai a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oedd yn gymwys i'w derbyn. Yn 2021, roedd gwahaniaeth o 11.5 pwynt canrannol ar radd A*, cynnydd o 2.8 pwynt canrannol ers 2020 a chynnydd o 6.2 pwynt canrannol ers 2019⁴¹.

Ffigur S46: Canlyniadau TGAU yng Nghymru, 2019 – 2021

	2019	2020	2021
TGAU A ac A*			
	18.4%	25.5%	28.7%
O leiaf C neu uwch			
	62.8%	73.8%	73.6%

Ffynhonnell: Cymwysterau Cymru

Yn ôl ymchwil gan y BBC, roedd cynnydd o 75% yn nifer y plant a gofrestrodd i gael eu haddysgu yn y cartref yn ystod wyth mis cyntaf blwyddyn ysgol 2020-21. Cafodd dros 40,000 o ddisgyblion eu tynnu'n ffurfiol o ysgolion y DU rhwng mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021, o'i gymharu â chyfartaledd o 23,000 yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Mewn rhai achosion, mae rhieni wedi gwneud y penderfyniad hwn yn seiliedig ar bryderon

iechyd ynghlwm â Covid-19, ond mewn achosion eraill, mae cyfnod o ddysgu o bell wedi dylanwadu ar benderfyniad rhieni i addysgu eu plant yn y cartref. Mae ymchwiliad BBC yn dangos mai yn Nhorfaen y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y cofrestriadau ar gyfer addysgu plant yn y cartref ymhlith awdurdodau lleol Gwent⁴².

Yn ogystal ag amharu ar addysg, mae'r pandemig wedi cael effaith ar iechyd a lles pobl ifanc. Yn ystod ac yn dilyn y cyfnodau hyn o newid mawr, daeth iechyd a lles disgyblion, eu teuluoedd a'u staff yn fater o flaenoriaeth i ysgolion.

Mae canlyniadau arolwg 'Coronafeirws a Fi' gan Gomisiynydd Plant Cymru a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr 2021, yn dangos yr effaith ar les pobl ifanc yn ystod y pandemig, yn ogystal â barn pobl ifanc am yr effaith ar eu haddysg. Roedd dros chwarter pobl ifanc 12-18 oed yn teimlo'n unig y rhan fwyaf o'r amser, a'r prif resymau dros hyn oedd oherwydd nad oeddynt yn gallu gweld eu ffrindiau ac aelodau eraill y teulu ac effaith cau ysgolion a cholegau.

Roedd tua hanner y bobl ifanc wedi hoffi dysgu ar eu cyflymder eu hunain ac roedd ychydig o dan eu hanner yn gadarnhaol am y cymorth maent yn ei gael gan athrawon. Roedd 63% o bobl ifanc yn poeni am fod ar ei hôl hi gyda'u dysgu ac roedd 61% yn poeni am gymwysterau. Dywedodd 59% nad oedd ganddynt gymhelliant i wneud eu gwaith ysgol yn y cartref. Er eu bod yn rhannu pryderon, roedd llawer o blant a phobl ifanc hefyd yn disgrifio profiadau cadarnhaol, gan gynnwys mwynhau treulio amser yn y cartref a derbyn cymorth da gan ysgolion a gweithwyr ieuenctid⁴³.

3.6 Tueddiadau a heriau'r dyfodol

Mae gweithleoedd yn newid, ac mae pandemig Covid-19 wedi cyflymu'r symudiad tuag at fwy o ddefnydd o **dechnoleg ac awtomatiaeth**,⁴⁴ a disgwylir y bydd y duedd hon yn parhau. Mae'n debyg y bydd technoleg yn newid y rhan fwyaf o swyddi, ac y bydd y swyddi isaf eu sgiliau, sy'n cynnwys elfen gref o drefn, yn cael eu hawtomateiddio. Mae perygl y bydd pobl ifanc yn derbyn hyfforddiant mewn **sgiliau anghywir neu henffasiwn**, gan effeithio ar eu rhagolygon o gael swyddi⁴⁵.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd rhai o **swyddi'r dyfodol**, ond rydym yn gwybod y bydd rhai swyddi y bydd eu hangen bob amser, ac felly bydd angen pobl fedrus i weithio yn y swyddi hyn, fel y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, bwyd ac ynni.

Mae angen i ni sicrhau bod pobl ifanc wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer **sectorau cyflogaeth y dyfodol**, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â throï Cymru yn wlad carbon sero, drwy sicrhau bod sgiliau, hyfforddiant a dysgu yn cyfateb yn well i'r sectorau sy'n dod i'r amlwg, fel technoleg glyfar, deallusrwydd artifisial a roboteg.

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi'r meysydd canlynol fel rhai pwysig ar gyfer ffyniant y rhanbarth dros y 10-20 mlynedd nesaf: gwyddorau bywyd, technoleg ariannol, deallusrwydd artifisial, yr economi greadigol, peirianeg trafnidiaeth, cynhyrchu lled-ddargludyddion, dadansoddeg seiberddiogelwch ac ynni a'r amgylchedd⁴⁶.

Yn ogystal â **sgiliau mwy technegol** bydd llawer o swyddi'r dyfodol yn gofyn am resymu rhesymegol a sgiliau sensitifrwydd problemau⁴⁷. Yn y dyfodol bydd angen i'n systemau hyfforddiant ac addysg ddarparu'r sgiliau hyn a datblygu unigolion hyblyg, creadigol sy'n gallu datrys problemau⁴⁸.

Rydym yn gwybod y gall yr **anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd** sy'n bodoli yn ein cymunedau effeithio ar allu pobl ifanc i ddysgu. Bydd lleihau'r anghydraddoldebau hyn ac ymateb i'r ffordd maent yn datblygu yn y dyfodol, gan gynnwys **torri patrymau tlodi rhwng y cenedlaethau**, yn helpu i sicrhau y gall cenedlaethau o blant yn y dyfodol gyflawni eu potensial addysgol a mynd ymlaen i fwynhau llesiant economaidd yn nes ymlaen yn eu bywyd.

3.7 Casgliad

Mae nifer cynyddol o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob ardal yng Ngwent, sydd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddangos bod anghydraddoldeb yn bodoli yn y rhanbarth.

Mae amrywiadau amlwg o ran lefelau cyflawniad a chymwysterau rhwng ardaloedd yng Ngwent. Yn yr un modd, mae gwahaniaethau yng nghyflawniad grwpiau o blant sydd lleiaf o dan anfantais ac sydd o dan anfantais fwyaf. Gall cyflawniad is effeithio ar les drwy gydol eu bywydau.

Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at bwyslais cynyddol ar les a dysgu yn yr awyr agored. Cafwyd effaith sylweddol ar bresenoldeb ac mae'r holl amharu ar fyd addysg yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar ddisgyblion sydd o dan anfantais neu sy'n agored i niwed. Yn ystod y pandemig, gwelwyd cynnydd amlwg hefyd yn nifer y disgyblion sy'n dewis derbyn eu haddysg yn y cartref. Bydd angen parhau i fonitro'r dystiolaeth am effaith y pandemig ar addysg er mwyn deall unrhyw effeithiau pellach ar les.

Mae pwysigrwydd darparu'r sgiliau cywir i blant a phobl ifanc ar gyfer y dyfodol yn hollbwysig. Bydd yn cefnogi eu gallu i gyflawni eu potensial, yn ogystal â'u llesiant economaidd hirdymor a llesiant y cymunedau lle maent yn byw.

4 Iechyd

4.1 Cyflwyniad i iechyd

Gall llawer o ffactorau effeithio ar ein hiechyd, o'r amgylchedd, tai, ein gwaith, faint o gyflog rydym yn ei ennill, ein ffordd o fyw, trafnidiaeth a chydlynid cymunedol. Gall *penderfynyddion ehangach iechyd* gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol. Rydym yn gwybod hefyd fod rhai o'n cymunedau yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â'r ffactorau hyn, a all gael effaith ar iechyd. Bydd y ffordd y bydd yr anghydraddoldebau hyn yn datblygu dros amser yn effeithio ar iechyd cenedlaethau'r dyfodol sy'n byw yng Ngwent.

Wrth i ddisgwyliad oes barhau i ymestyn, bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer a chyfran y bobl hyn yng Ngwent. Er lles unigolion a chynaliadwyedd gwasanaethau, bydd yn hanfodol bod pobl yn byw'r blynyddoedd ychwanegol hyn mewn iechyd da.

Nid yw effaith hirdymor pandemig Covid-19 ar iechyd yn hysbys eto. Roedd adroddiad 'Build Back Fairer: the COVID-19 Marmot Review' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd ac iechyd yn Lloegr, gan dynnu sylw at y ffaith bod yr anghydraddoldebau mewn cymdeithas wedi cyfrannu at nifer y marwolaethau uchel ac anghyfartal o COVID-19 yn Lloegr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod y pandemig wedi gwaethygu rhai anghydraddoldebau iechyd ac y bydd angen buddsoddi mwy mewn iechyd cyhoeddus i liniaru effaith y pandemig ar iechyd, ac ar anghydraddoldebau iechyd a'u penderfynyddion ehangach. Daw'r adroddiad i'r casgliad fod llawer o bethau y gellid eu gwneud i wella ansawdd bywydau pobl a thrwy ddilyn y polisiau cywir yn y tymor hir, gellir lleihau anghydraddoldebau iechyd⁴⁹.

4.2 Anghydraddoldebau iechyd – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n dod o dan faner Ystadegau Cenedlaethol ac yn cael ei baratoi gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mae MALIC yn nodi'r ardaloedd lle mae'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Prif ddiben y Mynegai yw darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen am yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru er mwyn llywio amrywiaeth o benderfyniadau, fel targedu arian, rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer ardaloedd lleol. Mae MALIC yn gosod yr holl ardaloedd bach yng Nghymru (sy'n cael eu galw'n Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is neu ACEHlau) mewn safleoedd o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).


Ar hyn o bryd mae MALIC yn darparu gwybodaeth ar gyfer wyth maes (neu fath) o amddifadedd gwahanol. Mae pob maes yn cael ei gyfrifo o bob math o ddangosyddion gwahanol. Y meysydd sydd wedi'u cynnwys yn MALIC 2019 yw Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Mynediad at Wasanaethau, Tai, Diogelwch Cymunedol a'r Amgylchedd Ffisegol.

Yn adrannau eraill o'r asesiad rydym yn ystyried y meysydd amddifadedd eraill, ond yn yr adran benodol hon byddwn yn edrych ar y maes Iechyd yn benodol.

Rydym wedi defnyddio maes Iechyd MALIC 2019 i roi gwybodaeth i ni am yr anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli ar draws Gwent. Mae'r data yn dweud wrthym fod amrywiadau sylweddol a bod rhannau o'n cymunedau yn wynebu iechyd gwael.

Mae map thematig maes Iechyd MALIC 2019 yn Ffigur S47 yn dangos dosbarthiad amddifadedd iechyd ar draws Gwent, gyda'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y cymoedd a chymunedau canol dinas Casnewydd.

Ffigur S47: Safle pob ACEHI yng Ngwent ar gyfer y Maes Iechyd yn gyffredinol



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r maes hwn wedi'i lunio o ddangosyddion sy'n cynnwys diagnosis o gyflyrau cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu, salwch hirdymor cyfyngol, marwolaethau cynamserol, diagnosis iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu, achosion o ganser a genedigaethau pwysau isel. Mae anghydraddoldebau iechyd sylweddol yng Ngwent a phocedi o gymunedau lle mae amddifadedd iechyd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. ACEHI Sant Iago 3 yng Nghaerffili yw'r ardal fwyaf difreintiedig o ran iechyd yng Ngwent ac mae yn y 7^{fed} safle o blith 1909 ACEHI yng Nghymru. Rhai ACEHlau eraill sydd yn y safleoedd uchel yn gyffredinol ym maes iechyd yw Trefddyn 1 yn Nhorfaen (safle 16), Sirhywi 2 ym Mlaenau Gwent (safle 17) a Philgwenlli 4 yng Nghasnewydd (safle 19). Ym mhen arall y sbectrwm, yr ACEHI lleiaf difreintiedig o ran iechyd yw Drennewydd-Gelli-farch yn Sir Fynwy sydd yn safle 1899. O blith y 191 ACEHI ar draws Cymru, mae 40 yn y categori 10% mwyaf difreintiedig o ran iechyd yng Ngwent, sy'n cyfateb i 20.9%. O blith y 40 ACEHI, mae 9 ym Mlaenau Gwent, 12 yng Nghaerffili, 14 yng Nghasnewydd a 5 yn Nhorfaen.

Mae hyn yn dangos yr anghydraddoldebau iechyd eang sy'n bodoli ar draws yr ardal. Mae'r dangosyddion isod sy'n rhan o faes iechyd MALIC yn dangos yr anghydraddoldeb hwn o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i'r lleiaf difreintiedig ar draws Gwent, ond hefyd y gwahaniaeth sy'n bodoli o fewn ac ar draws ardal pob awdurdod lleol⁵⁰.

- Mae'r gyfradd uchaf o gyflyrau cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu yn Victoria 4 a Philgwenlli 3 yng Nghasnewydd, gyda chyfradd o 25.9 am bob 100 o bobl yn y ddwy ardal (yn y 3^{ydd} safle yng Nghymru). Mae'r gyfradd isaf yn Langstone 2 yng Nghasnewydd (cyfradd o 8.5) – sydd yn safle 1894 yng Nghymru.
- Mae'r gyfradd uchaf o salwch hirdymor cyfyngol yn Sant Iago 3 yng Nghaerffili, gyda chyfradd o 40.7 am bob 100 o bobl (y safle 1^{af} yng Nghymru). Mae'r gyfradd isaf yn Sant Martin 5 yng Nghaerffili (cyfradd o 11.3) – yn safle 1904 yng Nghymru.
- Mae'r gyfradd uchaf o farwolaethau cynamserol (cyn 75 oed) ym Mhulgwenlli 4 yng Nghasnewydd, gyda chyfradd o 1006 am bob 100,000 o bobl (y 7^{fed} safle yng Nghymru), sy'n sylweddol uwch na'r gyfradd

uchaf nesaf ym Mhilogwenlli 1 yng Nghasnewydd (cyfradd o 880.6). Mae'r gyfradd isaf yn The Elms yn Sir Fynwy (cyfradd o 143) – sydd yn safle 1906 yng Nghymru.

- Mae'r gyfradd uchaf o salwch iechyd a gofnodwyd gan feddyg teulu ym Metws 1 yng Nghasnewydd, gyda chyfradd o 39.9 am bob 100 o bobl (6^{ed} safle yng Nghymru). Mae'r gyfradd isaf yn y Coed-duon 3 yng Nghaerffili (cyfradd o 14.7) – sef safle 1841 yng Nghymru.
- Mae'r gyfradd uchaf o achosion o ganser yn Alway 4 yng Nghasnewydd, gyda chyfradd o 987.9 am bob 100,000 o bobl (safle 1^{af} yng Nghymru). Mae'r gyfradd isaf yn Rhisga Gorllewin 2, Caerffili (cyfradd o 397.6) – safle 1906 yng Nghymru.
- Mae'r ganran fwyaf o fabanod pwysau geni isel (genedigaethau sengl byw llai na 2.5kg) yn Nhredegar Newydd 3 yng Nghaerffili, gyda chyfradd o 11.2% (14^{eg} safle yng Nghymru). Mae'r gyfradd isaf ym Mrynbuga 1 yn Sir Fynwy a Thy-du 1 yng Nghasnewydd (0%) – sef safle 1901 yng Nghymru⁵¹.

Nid yw effaith Covid-19 ar anghydraddoldebau iechyd yng Ngwent yn hysbys eto, fodd bynnag, mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021⁵² cyfeiriwyd at y ffaith bod anghydraddoldebau iechyd eisoes yn dod yn fwy amlwg yng Nghymru. Mae hyn i'w weld yn y gwahaniaeth rhwng disgwyliad oes (yn enwedig i fenywod) y rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig.

4.3 Disgwyliad oes

Rydym yn gwybod fod disgwyl i nifer y bobl hŷn sy'n byw yng Ngwent godi yn ystod yr 20 mlynedd nesaf a bod llawer o fuddion o fyw'n hirach, gan gynnwys y cyfraniad y gall pobl ei wneud i'w teuluoedd a'r gymuned ehangach. Rydym eisiau i'n pobl hŷn fod mor iach â phosibl am gyhyd â phosibl.

Disgwyliad oes iach cyfartalog	Rhwyng 2015 a 2017, disgwyliad oes iach cyfartalog gwrywod yng Ngwent yw 58.5 oed. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (61.4 oed) ⁵³ .																				
	Rhwyng 2015 a 2017, disgwyliad oes iach cyfartalog benywod yng Ngwent yw 59 oed. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (62 oed) ⁵⁴ .																				
	<table><tr><th rowspan="2">Ardal</th><th colspan="2">Disgwyliad oes iach cyfartalog (blynyddoedd)</th></tr><tr><th>Gwrywod</th><th>Benywod</th></tr><tr><td>Blaenau Gwent</td><td>54.1</td><td>54.5</td></tr><tr><td>Caerffili</td><td>55.2</td><td>56.1</td></tr><tr><td>Sir Fynwy</td><td>65.7</td><td>64.3</td></tr><tr><td>Casnewydd</td><td>58.4</td><td>62.0</td></tr><tr><td>Torfaen</td><td>59.6</td><td>57.6</td></tr></table>		Ardal	Disgwyliad oes iach cyfartalog (blynyddoedd)		Gwrywod	Benywod	Blaenau Gwent	54.1	54.5	Caerffili	55.2	56.1	Sir Fynwy	65.7	64.3	Casnewydd	58.4	62.0	Torfaen	59.6
Ardal	Disgwyliad oes iach cyfartalog (blynyddoedd)																				
	Gwrywod	Benywod																			
Blaenau Gwent	54.1	54.5																			
Caerffili	55.2	56.1																			
Sir Fynwy	65.7	64.3																			
Casnewydd	58.4	62.0																			
Torfaen	59.6	57.6																			

Disgwyliad oes iach yw'r nifer disgwylidig o flynyddoedd oes sy'n weddill sy'n cael eu treulio mewn iechyd da o oedran penodol, fel arfer o enedigaeth neu 65 oed.

Yng Ngwent, Blaenau Gwent oedd â'r disgwyliad oes iach isaf ar gyfer gwrywod a benywod, a Chaerffili oedd yn yr ail safle. Roedd y ffigyrau ym mhob un o ardaloedd awdurdodau lleol Gwent, heblaw am Sir Fynwy, yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer gwrywod (61.4 oed), ac roedd yr un peth yn wir am dd disgwyliad oes iach benywod (62 oed), ac eithrio ffigur Casnewydd a oedd yr un peth â'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn Sir Fynwy, roedd disgwyliad oes gwrywod a benywod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae bwlch o 11.6 blynedd rhwng y ffigyrau isaf (Blaenau Gwent – 54.1 oed) a'r uchaf (Sir Fynwy – 65.7 oed) ar gyfer disgwyliad oes iach gwrywod, ac mae bwlch o 9.8 blynedd rhwng yr isaf (Blaenau Gwent – 54.5 oed) a'r uchaf (Sir Fynwy – 64.3 oed) ar gyfer disgwyliad oes iach benywod.

Gallai cynyddu disgwyliad oes iach leihau'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yng Ngwent yn y dyfodol. Gallai cynyddu gweithgaredd corfforol a mabwysiadu deiet iach helpu pobl syn byw yng Ngwent gael blynyddoedd lawer o iechyd da yn y dyfodol.

Bwlch mewn disgwyliad oes	Rhwyng 2015 a 2017, roedd gwahaniaeth o 6.7 blwyddyn rhwyng disgwyliad oes preswylwyr gwrywaidd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Ngwent. Mae hyn yn llai na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru (7.4 blwyddyn) ⁵⁵ .	
	Rhwyng 2015 a 2017, roedd gwahaniaeth o 6.1 blwyddyn rhwyng disgwyliad oes preswylwyr benywaidd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Ngwent. Mae hyn yr un peth â'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru ⁵⁶ .	
	Ardal	Bwlch mewn disgwyliad oes (blynyddoedd)
		Gwrywod
		Benywod
	Blaenau Gwent	3.5
	Caerffili	4.9
	Sir Fynwy	6.7
	Casnewydd	7.8
	Torfaen	7.7
		6.1

Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes ar adeg genedigaeth rhwyng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig mewn ardal yn fesur pwysig, gan ei fod yn ystyried effaith amddifadedd ar ba mor hir gall unigolyn ddisgwyl byw ar ôl ei enedigaeth.

Yng Ngwent, Casnewydd oedd yn y pedwerydd safle o ran y bwlch mwyaf mewn disgwyliad oes yng Nghymru rhwyng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig ar gyfer gwrywod (7.8 o flynyddoedd), ac yn pumed safle yng Nghymru roedd Torfaen (7.7 o flynyddoedd). Ym Mlaenau Gwent roedd y bwlch lleiaf yng Ngwent, sef 3.5 o flynyddoedd, y bwlch pedwerydd lleiaf yng Nghymru.

Roedd y bwlch mwyaf o ran disgwyliad oes yng Nghymru rhwyng y benywod mwyaf a'r lleiaf difreintiedig (7.4 blynedd) yng Nghasnewydd, ac yn seithfed safle yng Nghymru roedd Torfaen (6.1 blynedd). Ym Mlaenau Gwent roedd y bwlch lleiaf yng Ngwent, sef 2.7 blynedd, sef y trydydd bwlch lleiaf yng Nghymru. Roedd y bylchau ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy yn llawer is na chyfartaledd Cymru (yn enwedig ym Mlaenau Gwent), roedd bwlch sylweddol mwy yng Nghasnewydd ond roedd Torfaen yr un peth â chyfartaledd Cymru.

Yn ôl erthygl ym mhapur newydd 'The Guardian' ym mis Rhagfyr 2020⁵⁷, mae pandemig Covid-19 wedi lleihau disgwyliad oes yng Nghymru a Lloegr o tua blwyddyn, gan wyrddroi enillion a wnaed ers 2010.

Dangosodd astudiaeth a gynhaliwyd gan ymchwilwyr o Brifysgol Rhydychen fod disgwyliad oes ar enedigaeth wedi gostwng 0.9 a 1.2 blynedd i fenywod a gwrywod yn y drefn honno, o'i gymharu â lefelau 2019. Roedd disgwyliad oes yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn cynyddu'n raddol am 50 mlynedd, cyn sefydlogi yn ystod y degawd diwethaf.

Mae pandemig Covid-19 yn debygol o gael effaith negyddol ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwyng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Ngwent, gan fod effeithiau cysylltiedig y pandemig yn fwy tebygol o fod wedi effeithio ar yr unigolion hynny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys colli incwm ar ôl cael eu diswyddo neu eu rhoi ar y cynllun ffyrlo; cyflyrau iechyd presennol yn gwaethygu oherwydd diffyg cyswllt wyneb yn wyneb â gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd, a chanslo llawdriniaethau a gynlluniwyd; ac effaith debygol COVID-19 hir ar iechyd a lles unigolion sy'n dioddef o'r cyflwr, er na fydd yr effaith lawn yn hysbys am beth amser.

Mae llawer o weithwyr iechyd proffesiynol hefyd yn pryderu ynglŷn â'r ffaith bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y bobl sydd wedi cael eu cyfeirio i gael archwiliad pellach am ganser a chlefydau eraill yn ystod

y pandemig, a allai arwain at ddiagnosis hwyr o salwch, gan leihau dewisiadau o ran triniaeth a mwy o debygolrwydd o farwolaeth.

Gall sawl math o ganser, yn enwedig os cânt eu canfod yn ddigon cynnar, gael eu trin yn llwyddiannus. Os byddai cyfran yr achosion o ganser sy'n cael eu canfod yn y cam cynnar yn cynyddu 10%, byddai rhwng 7,000 a 9,000 yn rhagor o bobl yn goroesi cancer am 5 mlynedd yn y DU⁵⁸. Mae diagnosis cynnar yn dibynnu ar wasanaethau iechyd, ond hefyd ar ymwybyddiaeth y claf o symptomau ac arwyddion o ganser ac a yw'n ceisio triniaeth yn fuan.


Prif achosion marwolaeth yw clefydau cylchredol a chanser. Byddai lleihau marwoldeb cyffredinol o glefydau cylchredol i lefelau sydd i'w gweld yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru yn ymestyn disgwyliad oes yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o 1.5 blynedd i wrywod ac 1.3 blynedd i fenywod. Gellid sicrhau enillion tebyg petai cyfraddau marwoldeb cancer yn cael eu gostwng (1.3 blynedd i wrywod, 1.2 i fenywod)⁵⁹.

4.4 Cofrestriadau cancer

Canser yw un o brif achosion salwch a bydd 1 o bob 2 o bobl yn y DU yn cael diagnosis o ganser yn ystod ei oes⁶⁰. Er bod ffactorau fel oed, rhyw, a chyfansoddiad genetig yn dylanwadu ar risg unigolion o ddatblygu cancer, gellid atal llawer o achosion o ganser drwy leihau ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd fel ysmygu, yfed alcohol ac anweithgarwch corfforol. Os cânt eu canfod yn ddigon cynnar gall sawl math o ganser gael eu trin yn llwyddiannus.

Mae achosion o ganser a goroesiad hefyd yn gysylltiedig ag amddifadedd a'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag ef. Nid yn unig mae'r rheini sy'n byw â mwy o amddifadedd gymdeithasol-economaidd yn fwy tebygol o fynd at feddygon yn dioddef o achosion newydd o ganser, maent hefyd yn llai tebygol o oroesi na'r rhai lleiaf difreintiedig. Petai mwy o achosion o ganser yn cael eu canfod ar gam cynnar ar draws Gwent, yna byddai mwy o bobl yn fwy tebygol o oroesi cancer.

Ffigur S48: Cofrestriadau cancer ymhlith gwrywod am bob 100,000 o'r boblogaeth, 2014 – 2018




Ffynhonnell: Uned Deallusrwydd a Gwylidwriaeth Cancer Cymru (WCISU)

Mae Ffigur S48 yn dangos cyfradd y cofrestriadau cancer am bob 100,000 o'r boblogaeth wrywaidd rhwng 2014 a 2018. Dros y cyfnod amser hwn, roedd cyfradd cofrestriadau cancer am bob 1,000 o'r boblogaeth wrywaidd yn sylweddol is yn Sir Fynwy nag yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill Gwent. Yn Sir Fynwy roedd

gostyngiad blynyddol yng nghyfradd y cofrestriadau rhwng 2014 a 2017, er bod cynnydd bach yn 2018. Roedd cyfradd y cofrestriadau yn ardal awdurdod lleol Sir Fynwy yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru ar gyfer bob blwyddyn ystod y cyfnod amser.

Ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amser, roedd cofrestriadau cancer am bob 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer gwrywod yng Nghasnewydd yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn sylweddol uwch rhwng 2014 a 2017. Roedd nifer y cofrestriadau cancer am bob 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer gwrywod yn fwy amrywiol dros y cyfnod amser yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill Gwent.

Ffigur S49: Cofrestriadau cancer ymhlith benywod am bob 100,000 o'r boblogaeth, 2014 – 2018




Ffynhonnell: Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Cancer Cymru (WCISU)

Mae Ffigur S49 yn dangos cyfradd y cofrestriadau cancer am bob 100,000 o'r boblogaeth fenywaidd rhwng 2014 a 2018. Dros gyfnod amser, roedd gan ardal awdurdod lleol Sir Fynwy gyfradd is o gofrestriadau am bob 100,000 o'r boblogaeth fenywaidd nag unrhyw un o ardaloedd awdurdodau lleol eraill Gwent, ac eithrio yn 2016 pan oedd y gyfradd gofrestriadau yn sylweddol uwch nag unrhyw un o ardaloedd awdurdodau lleol eraill Gwent a Chymru gyfan. Yn ystod pob blwyddyn heblaw am 2016, roedd gan Gaerffili gyfradd uwch o gofrestriadau cancer am bob 100,000 o'r boblogaeth fenywaidd na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r gyfradd cofrestriadau cancer am bob 100,000 o'r boblogaeth fenywaidd yn fwy amrywiol ar draws y cyfnod amser yn ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill.

4.5 Marwolaethau oherwydd cancer

Ffigur S50: Cyfradd y marwolaethau oherwydd cancer am bob 100,000 o'r boblogaeth (cyfraddau Ewropeaidd wedi'u safoni)



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

Er mai'r duedd gyffredinol yw cynnydd mewn achosion o ganser yn lleol ac yn genedlaethol, mae cyfraddau goroesi wedi gwella ac mae cyfraddau marwolaethau wedi gostwng, yn bennaf oherwydd datblygiadau wrth ganfod a thrin achosion yn gynnar.

Cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oed (ASMRs) yw nifer y marwolaethau a nodwyd am bob 100,000 o'r boblogaeth, wedi'u safoni i reoli gwahaniaethau mewn maint a strwythur oedran y boblogaeth rhwng lleoedd a phwyntiau amser.

Mae Ffigur S50 yn dangos cyfradd y marwolaethau o ganser am bob 100,000 o bobl rhwng 2015 a 2019. Yn Sir Fynwy roedd y gyfradd farwolaethau am bob 100,000 o'r boblogaeth yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod amser. Un awdurdod lleol arall yn unig mewn blwyddyn unigol dros y cyfnod amser (Torfaen yn 2016) oedd â chyfradd farwolaethau is o ganser am bob 100,000 o'r boblogaeth ar lefel awdurdod lleol na chyfartaledd Cymru.

Caerffili oedd â'r gyfradd farwolaethau uchaf o ganser am bob 100,000 o'r boblogaeth yn ystod tair o'r pum mlynedd (2015, 2018 a 2019), a chyfradd uwch na chyfartaledd Cymru am bob un o'r pum mlynedd yn y cyfnod amser. Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau o ganser yn ystod y ddwy flynedd arall o'r cyfnod pum mlynedd (2016 a 2017), ac roedd y gyfradd yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer pob un o'r pum mlynedd yn y cyfnod amser. Roedd cyfradd Casnewydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru bob blwyddyn yn ystod y cyfnod amser, ac eithrio yn 2018.

4.6 Marwolaethau oherwydd clefyd cardiofasgwlar


Mae llawer o achosion o glefyd cardiofasgwlar yng Nghymru. Mae dros 10,000 o farwolaethau bob blwyddyn yn cael eu hachosi gan glefydau'r system gylchredol, gan gynnwys tuag un o bob tri o farwolaethau cynamserol ymhlith dynion a chwarter y marwolaethau cynamserol ymhlith menywod. Mae clefyd cardiofasgwlar yn cynnwys y canlynol – clefyd cynhenid y galon, clefyd coronaidd y galon, methiant y galon, ffibriliad atrial, adferiad cardiaidd, strôc a chlefyd fasgwlar perifferol.

Mae digwyddiadau cardiofasgwlar cynamserol sy'n effeithio ar unigolion o dan 75 oed yn gyffredin. O fewn y grŵp hwn o glefydau, prif achos marwolaeth yw clefyd coronaidd (ischaemig) y galon, a arweiniodd at 4,700 o farwolaethau yn 2010. Mae gan ardaloedd diffreintiedig lefelau llawer uwch o glefyd cardiofasgwlar yn gyffredinol.

Mae nifer o ffactorau hysbys yn effeithio ar y risg o glefyd cardiofasgwlar gan gynnwys heneiddio, bod yn wryw, ethnigrwydd, pwysedd gwaed uchel, lefelau colesterol, ysmegu a diabetes mellitus, a gellid atal llawer

o'r cyflyrau hyn drwy ddilyn ffordd o fyw iachach. Mae ffactorau eraill fel gordewdra, statws cymdeithasol-economaidd, hanes teuluol o glefyd cardiofasgwlar cynamserol, yfed alcohol, clefyd yr arennau cronig a chlefyd llidiol yn bwysig hefyd.

Ffigur S51: Cyfradd marwolaethau oherwydd clefydau cardiofasgwlar am bob 100,000 o bobl (cyfraddau Ewropeaidd wedi'u safoni)



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)


Mae Ffigur S51 yn dangos cyfradd y marwolaethau o glefydau cardiofasgwlar am bob 100,000 o'r boblogaeth rhwng 2015 a 2019. Roedd y gyfradd marwolaethau am bob 100,000 o'r boblogaeth yn sylweddol is yn Sir Fynwy na chyfartaledd Cymru am bob blwyddyn yn ystod y cyfnod amser. Un awdurdod lleol arall yn unig (Torfaen yn 2019) oedd â chyfradd marwolaethau is o glefydau cardiofasgwlar am bob 100,000 o'r boblogaeth na chyfartaledd Cymru rhwng 2015 a 2018, ac roedd cyfartaledd marwolaethau Cymru gyfan yn 2019 yn llawer uwch nag ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent.

Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau o glefydau cardiofasgwlar yn ystod pob blwyddyn o'r cyfnod amser, ac roedd yn sylweddol uwch na phob ardal awdurdod lleol arall yng Ngwent, ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru am bob blwyddyn ac eithrio 2019. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r lefel uwch o amddifadedd cymdeithasol-economaidd yn yr ardal hon.

4.7 Marwolaethau oherwydd Covid-19

Mae Covid-19 wedi cael effaith fawr ar iechyd a lles ar draws y DU, ac yn enwedig marwolaethau. Yng Nghymru roedd 9,544 o farwolaethau lle nodwyd ar y dystysgrif farwolaeth bod Covid-19 yn gysylltiedig. Yng Ngwent roedd cyfanswm o 1,875 o farwolaethau lle cafodd Covid-19 ei nodi ar y dystysgrif farwolaeth, sef 19.6% o'r cyfanswm ar draws Cymru.

Ffigur S52: Nifer y marwolaethau wythnosol a'r rheini sy'n gysylltiedig â Covid-19 yng Nghymru, 13 Mai 2020 – 2 Gorffennaf 2021



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol


Fel mae Ffigur S52 yn ei ddangos, mae dau gyfnod brig yn y marwolaethau a gofrestrwyd sy'n cyfeirio at Covid-19, sef canol mis Ebrill 2020 a chanol mis Ionawr 2021. Mae hyn yn golygu bod marwolaethau cyffredinol yn ystod y cyfnodau amser hyn wedi cynyddu hefyd, er bod llawer llai o farwolaethau o firsau eraill y gaeaf fel fflw.

4.8 Oedi wrth drosglwyddo gofal

Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn digwydd pan fydd claf yn barod i adael ysbyty neu ddarparwr gofal tebyg ond mae'n dal i fod mewn gwely yn yr ysbyty. Gall oedi ddigwydd pan fydd cleifion yn barod i gael eu hanfon adref neu i gartref preswyl neu nyrsio neu maent yn aros i gael eu symud i ysbyty cymunedol neu hosbis.

Gall oedi wrth drosglwyddo – sy'n aml yn cael ei ddisgrifio yn y cyfryngau fel 'blocio gwelyau' – achosi trallod sylweddol ac arosiadau hir a diangen yn yr ysbyty i gleifion. Maent hefyd yn effeithio ar amseroedd aros am ofal GIG, gan fod oedi wrth drosglwyddo yn lleihau nifer y gwelyau sydd ar gael i gleifion eraill.

Ffigur S53: Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (pob rheswm), 2015 – 2020



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S53 yn dangos nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngwent rhwng 2015 a 2020. Mae'n dangos mai yng Nghaerffili roedd y nifer mwyaf o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ym mhob blwyddyn dros y cyfnod amser. Cynyddodd y nifer hwn hyd at 2017, cyn gostwng ychydig hyd at 2019 cyn dechrau codi eto yn 2020.

Blaenau Gwent oedd â'r nifer lleiaf o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal rhwng 2015 a 2020, sy'n llawer is na'r awdurdodau lleol eraill yng Ngwent. Mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn Nhorfaen wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2015 a 2020, ond mae'r nifer yn Sir Fynwy wedi cynyddu rhwng 2016 a 2020.


4.9 Iechyd a datblygiad babanod a phlant

Hyd yn oed cyn genedigaeth, rydym yn gwybod bod ffactorau eisoes yn gallu effeithio ar ddisgwyliad oes iach baban a'i gyfleoedd mewn bywyd. Ar hyn o bryd, mae plant sy'n cael eu geni i dlodi yn fwy tebygol o ddatblygu yn oedolion y mae eu cyflwr iechyd yn waeth na'r rheini sy'n cael eu geni i sefyllfa o gyfoeth. Mae babi sy'n cael ei eni i fam sy'n ordew ac sy'n ysmegu yn ystod ei beichiogrwydd mewn mwy o berygl o fynd ymlaen i gael ffordd afiach o fyw yn y dyfodol, sy'n ei roi mewn mwy o berygl o gyflyrau cronig difrifol a fydd yn eu tro yn effeithio ar ei ansawdd bywyd a'i ddisgwyliad oes. Mae effaith profiadau plentyndod ar iechyd a disgwyliad oes unigolyn, a'i ymddygiad iechyd, yn parhau i effeithio arno a chronni yn ystod plentyndod ac ymlaen pan fydd yn oedolyn.

4.9.1 Pwysau geni isel mewn genedigaethau sengl byw

Mae pwysau geni isel yn rhagfynegydd allweddol o anghydraddoldebau iechyd ac mae'n cael ei ddiffinio fel y ganran o enedigaethau byw sengl gyda phwysau geni llai na 2,500g. Mae babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel mewn mwy o berygl o wynebu problemau yn ystod ac ar ôl yr enedigaeth, ac mae ganddynt hefyd risg o glefydau cronig fel oedolion.

Ffigur S54: Canran y genedigaethau pwysau isel sengl byw, 2015 – 2019



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S54 yn dangos cyfran y genedigaethau o fabanod â phwysau geni isel fel canran o'r holl enedigaethau byw ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngwent a Chymru rhwng 2015 a 2019. Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o fabanod â phwysau geni isel ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod amser (yn amrywio o 6.1% i 8.2%) heblaw am 2016, pan oedd y gyfran uchaf yn Nhorfaen (6.5%). Sir Fynwy oedd â'r gyfran isaf o fabanod â phwysau geni isel ar draws y cyfnod amser, yn amrywio o 3.3% i 4.3%. Roedd y cyfartaledd ar gyfer Cymru yn amrywio o 5.1% i 5.9% ar draws y cyfnod amser.


4.9.2 Beichiogi yn yr arddegau

Mae beichiogi yn yr arddegau yn achos posibl a chanlyniad i dlodi plant, a gall gynyddu'r tebygolrwydd o anghydraddoldebau iechyd. Mae bod yn fam yn yr arddegau, neu'n blentyn i fam yn yr arddegau, yn cynyddu'r risg o broblemau iechyd a phroblemau eraill i'r fam a'r plentyn.

Mae Ffigur S55 yn dangos cyfradd yr achosion o feichiogi ar gyfer merched o dan 18 oed fel cyfradd am bob 1,000 o ferched 15-17 oed, ar gyfer yr holl awdurdodau lleol yng Ngwent a Chymru rhwng 2015 a 2018. Y darlun cyffredinol yw bod rhywfaint o amrywiad yn y gyfradd hon dros y cyfnod amser, gydag achosion yn codi ac yn gostwng ym mhob awdurdod lleol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y nifer bach o achosion. Roedd y gyfradd yn Sir Fynwy yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a phob awdurdod lleol arall yng Ngwent dros y cyfnod amser, yn amrywio o gyfradd o 5.7 i gyfradd o 8.4. Roedd cyfartaledd Cymru yn amrywio rhwng 18.9 a 25.4 dros y cyfnod amser.

Torfaen oedd â'r gyfradd uchaf yn ystod tair o'r pum mlynedd yn y cyfnod amser (2014, 2017 a 2018), ac roedd y gyfradd ar gyfer yr ardal hon yn amrywio rhwng 20.2 a 28.8. Caerffili oedd â'r gyfradd uchaf yn 2015 (er ei bod yn is na chyfartaledd Cymru) a Chasnewydd oedd â'r gyfradd uchaf yn 2016 (uwch na chyfartaledd Cymru).

Ffigur S55: Cyfradd beichiogrwydd o dan 18 oed am bob 1,000 o ferched 15-17 oed, 2014 – 2018



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol


4.9.3 Bwydo ar y fron

Mae bwydo ar y fron yn fuddiol i famau a babanod ac mae'n dal i gael ei hyrwyddo fel y deiet gorau i fabanod. Mae'r gwrthgyrff yn llaeth y fron yn helpu i amddiffyn babanod rhag salwch sy'n gyffredin ymhlith plant. Mae plant sy'n cael eu bwydo ar y fron yn llai tebygol o fynd i'r ysbyty oherwydd heintiau ac yn fwy tebygol o dyfu gyda phwysau iach a heb alergeddau⁶¹.

Mae bwydo babanod ar y fron yn unig yn dod â phob math o fuddion i'r baban, sy'n dechrau ar unwaith ac yn parhau nes eu bod yn oedolion. Mae bwydo ar y fron yn fuddiol i'r baban gan ei fod yn lleihau'r perygl o heintiau, dolur rhydd a chwydu, syndrom marwolaeth sydyn babanod (SIDS), lewcemia yn ystod plentyndod, diabetes math 2, gordewdra, a chlefyd cardiofasgwlar mewn oedolion.

Mae bwydo ar y fron yn dod â buddion i famau gan gynnwys risg is o ganser y fron, canser yr ofari, osteoporosis, clefyd cardiofasglwr a gordewdra. At hyn, mae bwydo ar y fron a'r cyswllt a'r ymlyniad cynnar a ddaw yn ei sgil yn hybu datblygiad optimaidd ymennydd y baban a chadernid emosiynol, sy'n parhau yn ystod cyfnod y glasoed, gan effeithio ar nifer o ffactorau llesiant.

Ffigur S56: Canran y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron yn unig am 10 diwrnod yn dilyn eu genedigaeth, 2016 – 2018




Mae Ffigur S56 yn dangos canran y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron yn unig am 10 diwrnod yn dilyn eu genedigaeth ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngwent a Chymru gyfan rhwng 2016 a 2018. Mae'n dangos bod canran y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron yn unig yn Sir Fynwy yn llawer uwch nag ym mhob ardal awdurdod lleol arall yng Ngwent a Chymru, yn amrywio rhwng 43.8% a 49.5% dros y cyfnod amser. Roedd y ganran ar gyfer Cymru gyfan yn amrywio rhwng 33.8% a 35.2% dros y cyfnod amser.

Ym mhob awdurdod lleol arall yng Ngwent, roedd canran y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron yn unig hyd at 10 diwrnod yn dilyn eu genedigaeth yn is na chyfartaledd Cymru dros y cyfnod amser. Blaenau Gwent oedd â'r ganran isaf dros y cyfnod amser, yn amrywio rhwng 18.8% a 22.7%, er bod cynnydd graddol bob blwyddyn.

4.9.4 Plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol neu'n rhagori arnynt

Dechrau'n Deg yw rhaglen y blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru sy'n targedu teuluoedd â phlant o dan 4 oed yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae datblygiad cynnar plentyn yn hollbwysig o ran ei gyfleoedd mewn bywyd, ac mae plant ifanc sy'n byw mewn tloti yn aml yn methu cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol. At hyn, mae bwlch parhaus rhwng deilliannau dysgu cynnar y plant tlotaf yng Nghymru a'u cyfoedion yn yr ardaloedd mwy cyfoethog, sy'n parhau ym mhob cam yn eu haddysg.

Ffigur S57: Canran plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol neu'n rhagori arnynt pan yn 3 oed, 2012 – 2016



Mae Ffigur S57 yn dangos cyfran y plant Dechrau'n Deg a wnaeth gyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol neu a wnaeth ragori arnynt yn 3 oed, yn ardaloedd awdurdodau lleol Gwent a Chymru rhwng 2012 a 2016. Mae'n dangos darlun newidiol dros y cyfnod amser, gyda phatrwm anghyson rhwng yr awdurdodau lleol a blynyddoedd.

Yn gyffredinol, roedd canrannau Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen yn is na chyfartaledd Cymru ar draws yr holl gyfnod amser (ac eithrio Torfaen yn 2012 a 2013, ac roedd y ganran yn Sir Fynwy yr un peth â chyfartaledd Cymru yn 2014). Roedd y canrannau ym Mlaenau Gwent a Caerffili yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod pedair o'r pum mlynedd ar draws y cyfnod amser.


4.9.5 Pwysau iach a gordewdra

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ystyried gordewdra fel un o'r heriau iechyd cyhoeddus byd-eang mwyaf difrifol yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae gordewdra yn arwain at leihau disgwyliad oes a llai o flynyddoedd o fywyd iach ac mae cysylltiad rhyngddo â llawer o gyflyrau iechyd gan gynnwys diabetes math 2, clefyd y galon, pwysedd gwaed uchel, strôc a chanser. Mae effeithiau ehangach yn cynnwys cyfrannu llai at fywyd y teulu a chymuned; llai o gyfleoedd swyddi; incwm is; llai cynhyrchiol a chynnydd mewn absenoldeb; perfformio'n wael yn yr ysgol a lles iechyd meddwl gwael.

Mae cario gormod o bwysau yn broblem iechyd mawr i blant unigol, eu teuluoedd ac iechyd cyhoeddus. Mae bron i un o bob tri o blant rhwng 2 a 15 oed (28%) dros eu pwysau neu'n ordew ac mae cenedlaethau iau yn dod yn ordew yn iau ac yn aros yn ordew yn hirach⁶². Gall hyn gael goblygiadau difrifol i iechyd corfforol a meddyliol plentyn a all barhau pan fydd yn oedolyn, ac mae anghydraddoldebau iechyd sylweddol i'r teuluoedd tlotaf.

Canfu Rhaglen Mesur Plant 2017/18 fod 12% o blant Cymru yn y categori gordew, ac mai'r bwlch rhwng achosion o blant gordew yn yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig oedd 6%⁶³.

Ffigur S58: Canran y plant 4-5 oed sydd yn y categori pwysau iach, 2014 – 2018



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Ffigur S58 yn dangos canran y plant 4-5 oed yn y categori pwysau iach rhwng 2014 a 2018, ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngwent a chyfartaledd Cymru. Dylid nodi bod data ar goll ar gyfer rhai ardaloedd awdurdodau lleol mewn rhai blynyddoedd.


Sir Fynwy oedd â'r ganran uchaf o blant 4-5 oed yn y categori pwysau iach ym mhob blwyddyn yr oedd data ar gael ar eu cyfer, ac roedd y ganran yn uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd canran Casnewydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru bob blwyddyn yn ystod y cyfnod amser. Torfaen oedd â'r ganran isaf ar draws Gwent yn ystod tair blynedd o'r cyfnod amser (2014, 2015 a 2016).

4.9.6 Imiwneiddio

Mae'n bwysig bod plant a babanod yn cael eu himiwneiddio'n llawn i'w hamddiffyn rhag clefydau a all fod yn ddifrifol. Mae salwch a oedd yn arfer bod yn gyffredin (fel difftheria a tetanws) bellach yn anghyffredin yn y DU oherwydd imiwneiddio. Er bod polio wedi cael ei ddileu o Ewrop, nid yw'r bygythiad o glefydau eraill fel

y frech goch a meningitis wedi diflannu yn y DU heddiw. Gall rhai clefydau heintus difrifol arwain at gymhlethdodau a sgil effeithiau hirdymor difrifol.

Ffigur S59: Canran yr holl blant sydd wedi derbyn pob brechiad yn unol â'r drefn frechu erbyn eu bod yn 4 oed, 2014–2019




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S59 yn dangos canran y plant sydd wedi derbyn pob brechiad yn unol â'r drefn frechu erbyn eu bod yn 4 oed ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent a Chymru, rhwng 2015 a 2019. Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, roedd canran y plant a oedd wedi derbyn pob brechiad yn unol â'r drefn frechu o fewn 5% i gyfartaledd Cymru yn ystod pob blwyddyn o'r cyfnod amser. Yr un ardal awdurdod lleol lle gwelwyd canran sylweddol is na chyfartaledd Cymru oedd Casnewydd, patrwm a welwyd bob blwyddyn yn ystod y cyfnod amser.

4.9.7 Iechyd y geg

Mae iechyd y geg gwael yn effeithio ar iechyd a lles. Gall problemau fel poen a haint effeithio ar unigolion yn y tymor byr, ond gall gael canlyniadau hirdymor eraill ar iechyd hefyd. Mae'n bosibl atal pydredd dannedd mewn plant bron yn llwyr, ond gall iechyd y geg gwael ei gwneud yn anodd bwyta, gan effeithio ar faeth a thwff a datblygiad o ganlyniad. Iechyd deintyddol gwael yw'r prif reswm unigol mwyaf cyffredin dros anfon plant 5-9 oed i'r ysbyty, ac mewn rhai achosion mae plant yn mynd i'r ysbyty i gael tynnu mwy nag un dant o dan anaesthetig cyffredinol oherwydd bod cyflwr eu dannedd mor wael.

Ffigur S60: Nifer cyfartalog o ddannedd oedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi mewn plant 5 oed – 2007, 2011, 2014 a 2015




Ffynhonnell: Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg (WOHIU)

Mae Ffigur S60 yn dangos nifer cyfartalog y dannedd oedd wedi pydru, ar goll neu sydd wedi'u llenwi mewn plant 5 oed ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngwent a chyfartaledd Cymru, ar gyfer blynyddoedd dethol rhwng 2007 a 2015. Sir Fynwy yn unig oedd â ffigur is na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r blynyddoedd dethol dros y cyfnod amser.

Roedd y niferoedd ym mhob awdurdod lleol yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r blynyddoedd a ddewiswyd dros y cyfnod amser, er mai'r duedd gyffredinol ar gyfer pob awdurdod lleol oedd bod y nifer y dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ymhlith plant 5 oed wedi lleihau dros y cyfnod amser.

Ffigur S61: Nifer cyfartalog y dannedd oedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ymhlith plant 12 oed - 2004, 2008, 2012 a 2016



Ffynhonnell: Uned Gwybodaeth am Iechyd y Geg Cymru (WOHIU)

Mae Ffigur S61 yn dangos nifer cyfartalog y dannedd oedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ymhlith plant 12 oed ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol yng Ngwent a chyfartaledd Cymru, ar gyfer blynyddoedd dethol rhwng 2004 a 2016. Roedd y nifer yn ardal awdurdod lleol Sir Fynwy ychydig yn is na chyfartaledd Cymru yn ystod tair o'r pedair blynedd a ddewiswyd dros y cyfnod amser ac roedd 0.1 yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2008.

Roedd y ffigurau ar gyfer pob un o awdurdodau lleol eraill Gwent yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod rhai o'r blynyddoedd dethol, heblaw am Gasnewydd yn 2004. Unwaith yn rhagor, y duedd gyffredinol ym

mhob ardal awdurdod lleol oedd bod nifer y plant 12 oed â dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi yn gostwng dros y cyfnod amser. Fodd bynnag, yn sgil canslo archwiliadau deintyddol arferol bob chwe mis yn ystod pandemig Covid-19, mae oedi mawr yn yr amseroedd aros i weld deintydd ac mae'r cyfnodau rhwng archwiliadau bellach yn hirach, felly mae'n ddigon posibl y bydd pydredd dannedd yn gwaethygu yn y dyfodol⁶⁴.

4.9.8 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod


Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn brofiadau anodd a chronig yn ystod plentyndod a all niweidio plentyn yn uniongyrchol (fel cam-drin neu esgeuluster) neu effeithio arnynt drwy'r amgylchedd lle maent yn byw (fel tyfu i fyny mewn cartref gyda thrais domestig neu gydag unigolion sydd â phroblemau alcohol neu sy'n camddefnyddio sylweddau eraill).

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ar y cyd â Phrifysgol John Moores Lerpwl) astudiaeth⁶⁵ o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd ym mhoblogaeth oedolion Cymru, gan holi 2,028 o bobl am eu hymddygiad iechyd presennol a'u cysylltiad â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Gwelodd yr arolwg fod 47% o ymatebwyr wedi cael o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentyndod, ac roedd 14% wedi cael pedwar neu ragor o brofiadau o'r fath. Mae'r cyfrannau hyn yn debyg i'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU, yn ogystal â thu hwnt. Mae'n hysbys hefyd bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn fwy tebygol o gael profiadau niweidiol lluosog yn ystod eu plentyndod.


Edrychodd yr astudiaeth hefyd ar sut gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith negyddol ar gyfnod y glasoed ac ar ôl tyfu'n oedolion, gan gyfrannu at broblemau iechyd meddwl a chlefydau fel canser, clefyd y galon a diabetes math II, gan achosi nid yn unig marwolaethau cynamserol ond hefyd o bosibl perfformiad gwael yn yr ysgol a chysylltiad â throseddau. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn tueddu i effeithio ar genedlaethau o deuluoedd gan gloi cenedlaethau olynol i batrwm o iechyd gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Ffigur S62 yn dangos faint o oedolion yng Nghymru sydd wedi dod i gysylltiad â mathau gwahanol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Ffigur S62: Canran yr oedolion yng Nghymru sydd wedi dod i gysylltiad â mathau gwahanol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod



Mae Ffigur S63 yn dangos sut gall cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gynyddu'r risg y bydd rhywun yn datblygu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd.

Ffigur S63: Tebygolrwydd y bydd pobl â 4+ o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn datblygu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd



Trwy weithio gyda'i gilydd, gall Gwasanaethau Byrddau Cyhoeddus gael effeithiau cadarnhaol drwy fabwysiadu dull unedig i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a datblygu'r gwasanaeth mwyaf priodol i ymateb iddynt. Mae atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod nid yn unig yn debygol o wella profiadau blynyddoedd cynnar plant, ond bydd hefyd yn lleihau lefelau o ymddygiad sy'n niweidio iechyd yn ystod eu bywyd ac ar draws cenedlaethau. Nid yw buddion atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gyfyngedig i iechyd, mae hyn hefyd yn effeithio ar drais treisgar a materion cymdeithasol, fel cyfraddau beichiogrwydd yn ystod yr ardegau.

4.10 Ffordd o fyw iach

Gall llawer o ffactorau effeithio ar eich iechyd, o dai addas, addysg, bwyd fforddiadwy a dŵr glân, ynni glân fforddiadwy, ecosystem sefydlog, adnoddau cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb. Mae iechyd a lles da yn galluogi unigolion i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol i'w teuluoedd, eu cymuned a'u cynhyrchedd lleol.

Mae llawer o dystiolaeth yn awgrymu bod mabwysiadu pedwar neu ragor ymddygiad iach (peidio ag ysmegu, cadw pwysau iach, bwyta llawer o ffrwythau a llysiau, bod yn weithgar yn gorfforol, yfed alcohol yn gymedrol) yn hybu iechyd ac yn lleihau'r perygl o afiechydon yn sylweddol. Bydd creu'r amodau sy'n gwneud ymddygiadau iach yn ddewis hawdd yn gwella iechyd cenedlaethau'r dyfodol sy'n byw yng Ngwent.

Mae tystiolaeth hefyd yn dangos y gall ymddygiad afiach (ysmegu, yfed yn drwm, peidio â gwneud digon o weithgaredd corfforol ac ati) achosi neu waethygu'r canlyniadau iechyd gwael mwyaf difrifol a chyffredin, gan achosi'r niwed mwyaf i iechyd. Mae ymddwyn mewn ffordd iach yn cadw pobl yn iach ac yn rhydd rhag salwch, yn ymestyn disgwyliad oes iach, yn atal marwolaethau cynamserol, yn lleihau effeithiau negyddol ein poblogaeth sy'n heneiddio ac yn galluogi'r rheini ag afiechydon cronig i fyw bywydau iach am amser hirach. Mae perthynas gadarn rhwng ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd ag amddifadedd a'r amgylchiadau bywyd a ddaw gyda hynny, gan olygu bod cyfraddau yn uwch mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog uwch ac mae amrediad eang o ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn effeithio arnynt.

4.10.1 Gweithgaredd corfforol

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ei ddisgrifio fel "y fargen orau mewn iechyd cyhoeddus", a dangoswyd bod lefelau uwch o weithgaredd corfforol yn cael canlyniadau buddiol yn nhermau ymestyn disgwyliad oes iach pobl a lleihau'n sylweddol y risg o ddioddef o leiaf 20 o'r clefydau cronig mwyaf cyffredin, gan gynnwys clefydau cylchredol, rhai mathau o ganser, diabetes math II, poen cefn, osteoporosis, salwch meddwl, cwympiadau a dementia.


Mae bod yn weithgar yn gorfforol yn yr awyr agored yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd corfforol a lles meddyliol, y tu hwnt i fuddion y gweithgaredd corfforol ei hun. Mae gweithgaredd corfforol, mwy o bobl yn cerdded a beicio fel rhan o'u bywydau bob dydd, bod yn weithgar yn eu cymunedau a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn dod â buddion ar draws y nodau llesiant, o fwynhau diwylliant lleol, annog cymunedau mwy cysylltiedig a ffyniannus a dod â budd i economïau lleol. Mae tystiolaeth hefyd bod mwy o weithgaredd yn gallu helpu plant i ganolbwyntio a bod ymgysylltu â chwaraeon yn gallu lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae llawer o weithgareddau corfforol yn yr awyr agored am ddim gan olygu nad yw fforddiadwydd yn rhwystro pobl rhag cymryd rhan, er y gall y gost ac argaeledd dulliau teithio fod yn rhwystrau.

Mae faint o weithgaredd corfforol sydd angen ei wneud er mwyn gwella iechyd yn amrywio ar draws cyfnodau bywyd. Dylai plant a phobl ifanc 5-18 oed gael o leiaf awr y dydd o weithgaredd corfforol sy'n gymysgedd o ymarfer corff dwysedd canolig a dwysedd uchel, a dylai oedolion gael o leiaf 150 munud o weithgaredd corfforol dwysedd cymedrol neu 75 munud o weithgaredd dwysedd uchel bob wythnos⁶⁶.

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod ymddygiad eisteddog, fel eistedd neu orwedd am gyfnodau hir, yn ddrwg i iechyd. Credir bod treulio oriau yn eistedd i lawr yn gwylio'r teledu neu'n chwarae gemau cyfrifiadurol yn cynyddu'r risg o nifer o glefydau cronig, fel clefyd y galon, strôc a diabetes, yn ogystal â magu pwysau a gordewdra. Rhai enghreifftiau cyffredin o ymddygiad eisteddog yw gwylio'r teledu, defnyddio cyfrifiadur, defnyddio'r car am daith fer ac eistedd i ddarllen, siarad neu wrando ar gerddoriaeth. Mae GIG 111 Cymru yn argymhell y dylai pobl o bob oedran leihau eu hymddygiad eisteddog⁶⁷. Yn y dyfodol mae'n bosibl y bydd pobl yn dewis bod yn fwy gweithgar yn gorfforol er mwyn cadw'n iachach wrth heneiddio.

Yn ystod pandemig Covid-19, mae tystiolaeth bod mwy o bobl wedi dechrau gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored a bod hyn wedi arwain at fuddion sylweddol i iechyd corfforol a meddyliol yn ystod y cyfnod clo⁶⁸.

Ffigur S64: Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod yn weithgar yn gorfforol am 150 munud yr wythnos, 2016 – 2018




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S64 yn dangos canran yr oedolion a ddywedodd eu bod yn weithgar yn gorfforol am 150 munud yn yr wythnos flaenorol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngwent a chyfartaledd Cymru, rhwng 2016 a 2018. Roedd canrannau Sir Fynwy a Chaerffili yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod pob blwyddyn o'r cyfnod amser. Roedd canrannau Blaenau Gwent yn sylweddol is na'r ddau awdurdod lleol arall yng Ngwent (Casnewydd a Thorfaen, a oedd yn agos at gyfartaledd Cymru) a Chymru gyfan, ac mae'r ganran hon yn gostwng dros y cyfnod amser.

4.10.2 Deiet iach

Gall deiet iach gyfrannu at hybu iechyd ac atal clefydau fel diabetes, gorbwysedd, colesterol uchel, clefyd y galon, strôc a chanser y coluddyn. Deiet gwael yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn cyfraddau gordewdra ac mae'n gysylltiedig â nifer o'r cyflyrau yn ymwneud ag heneiddio'n afiach, fel osteoporosis a dementia.

Ffigur S65: Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod yn bwyta pump neu ragor o ddogneau o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, 2011 -2014



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S65 yn dangos canran yr oedolion a ddywedodd eu bod wedi bwyta pum dogn neu ragor o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngwent a chyfartaledd Cymru, rhwng 2011 a 2014. Ardal awdurdod lleol Sir Fynwy oedd â'r gyfran fwyaf o oedolion a ddywedodd eu bod wedi bwyta pum dogn neu ragor o ffrwythau a llysiau yn ystod y diwrnod blaenorol, yn amrywio rhwng 34.9% a 36% dros y cyfnod amser, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru a oedd yn amrywio rhwng 32.2% a 33%.

Roedd y cyfraddau yn y pedwar awdurdod lleol arall yng Ngwent oll yn is na chyfartaledd Cymru yn ystod pob blwyddyn yn y cyfnod amser. Roedd canrannau Blaenau Gwent a Chaerffili yn gyson is na'r canrannau yng Nghasnewydd a Thorfaen yn ystod pob blwyddyn y cyfnod amser.


4.10.3 Alcohol

Mae'r camddefnydd o alcohol wedi dod yn broblem iechyd cyhoeddus ddifrifol sy'n gwaethygu yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU. Mae camddefnyddio alcohol nid yn unig yn fygythiad i iechyd a lles yr yfwr, ond gall achosi niwed i deuluoedd, ffrindiau, cymunedau a chymdeithas yn ehangach drwy arwain at broblemau fel trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diffyg cynhyrchedd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y camddefnydd o alcohol wedi dod yn fwy o broblem i rai unigolion yn ystod y cyfnodau clo dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd pandemig Covid-19, ac mae hyn yn debygol o gael effeithiau negyddol ar eu lles meddyliol a chorfforol.

Roedd 19% o oedolion yng Nghymru yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol yn 2016-17 a 2017-18. Roedd yfed mwy na'r canllawiau yn fwy cyffredin ymhlith dynion na menywod ym mhob grŵp oedran. Mewn rhai grwpiau oedran, roedd dynion yn yfed bron ddwywaith yn fwy na menywod. Dynion 55-74 oed oedd yn yfed mwyaf yng Nghymru, gyda thua un o bob tri yn yfed mwy nag 14 uned o alcohol mewn wythnos arferol⁶⁹.

Roedd pobl a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn yfed mwy na'r canllawiau mewn wythnos arferol yn 2016-17 a 2017-18 na'r rhai mewn ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r ffigyrau wedi cael ei safoni yn ôl oed fel bod modd eu cymharu. Er mai 19% oedd cyfartaledd Cymru, yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig roedd yn 22%, o'i gymharu â 14.5% yn y rhai mwyaf difreintiedig. Roedd y ffigyrau hyn yn wahanol iawn yn ystadegol i gyfartaledd Cymru; fodd bynnag, nid oedd yr arfer o yfed mwy na'r canllawiau wythnosol yn wahanol iawn i Gymru yn yr ardaloedd hynny y tu allan i'r rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig.


Ffigur S66: Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod wedi goryfed alcohol o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf, 2011 – 2014



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S66 yn dangos canran yr oedolion a ddywedodd eu bod wedi goryfed o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos flaenorol ar gyfer pob un o ardaloedd awdurdodau lleol Gwent a chyfartaledd Cymru, rhwng 2011 a 2014. Roedd ffigur Torfaen ychydig yn is na chyfartaledd Cymru yn ystod tair o'r pedair blynedd, ac roedd yn llawer is na chyfartaledd Cymru yn 2014 (20.4% o'i gymharu â 24.3%). Roedd canrannau Blaenau Gwent a Chaerffili ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru dros yr holl gyfnod amser.

Ffigur S67: Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod wedi yfed 14 uned neu ragor o alcohol yr wythnos, 2016 – 2018




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S67 yn dangos canran yr oedolion a ddywedodd eu bod wedi yfed 14 uned neu ragor o alcohol yr wythnos ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent a chyfartaledd Cymru, rhwng 2016 a 2018. Roedd canrannau Blaenau Gwent a Chasnewydd yn is na chyfartaledd Cymru ar draws y cyfnod amser, ac roedd canrannau ardaloedd awdurdodau lleol Caerffili a Thorfaen yn is na chyfartaledd Cymru yn ystod dwy o'r tair blynedd yn y cyfnod dan sylw.

Roedd ffigyrau Sir Fynwy yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod dan sylw, ac roedd y ganran yn llawer uwch na'r awdurdodau lleol eraill a Chymru gyfan yn 2016.

Ffigur S68: Nifer yr unigolion a gafodd eu hasesu ar gyfer camddefnyddio alcohol




Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Mae Ffigur S68 yn dangos nifer yr unigolion a gafodd eu hasesu ar gyfer camddefnyddio alcohol ym mhob awdurdod lleol, rhwng 2014 a 2018. Roedd y nifer mwyaf o asesiadau dros y cyfnod amser yng Nghaerffili, yn amrywio rhwng 401 yn 2014 i 495 yn 2016. Yn yr ail safle roedd ardal awdurdod lleol Torfaen lle'r oedd y niferoedd yn amrywio rhwng 360 yn 2016 a 399 yn 2014).

Sir Fynwy oedd â'r nifer lleiaf o unigolion a aseswyd ar gyfer camddefnyddio alcohol dros y cyfnod amser dan sylw, yn amrywio rhwng 150 yn 2014 i 192 yn 2018, sy'n dangos tuedd gynyddol dros amser.

4.10.4 Ysmygu

Ffigur S69: Ysmygu yng Nghymru 2020



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru


Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), mae tybaco y lladd dros 8 miliwn o bobl y flwyddyn ar draws y byd ac yn un o'r bygythiadau mwyaf erioed i iechyd cyhoeddus. Mae ysmygu ac ysmygu goddefol yn gysylltiedig ag amrywiaeth o afiechydon difrifol gan gynnwys canser a chlefyd y galon⁷⁰.

Ysmygu yw un o'r achosion unigol mwyaf o farwolaethau cynnar y gellid ei osgoi yng Nghymru. Yn 2018, roedd tua 5,600 o farwolaethau ymhlith pobl 35 oed a throsodd wedi'u priodoli i ysmygu, sef 16.5% o'r holl farwolaethau yn y grŵp oedran hwn. Mae ysmygu yn gysylltiedig ag amrywiaeth eang o afiechydon a

all arwain at arhosiad yn yr ysbyty. Yn 2018-19, amcangyfrifir bod tua 28,000 o bobl 35 oed a throsodd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd salwch yn gysylltiedig ag ysmegu, sy'n cynrychioli tua 4.6% o'r holl achosion a gafodd eu derbyn i'r ysbyty yn y grŵp oedran hwn.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 – 2018-19, dywedodd 18.4% o oedolion yng Nghymru eu bod yn ysmegu, a dywedodd 6.6% o oedolion eu bod yn defnyddio e-sigaréts, yn ddyddiol neu'n achlysurol. Mae hunanadrodd am ysmegu yn fwy tebygol o gynnwys tuedd yr ymatebwyr (h.y. efallai bydd ysmygwyr yn llai tebygol o ateb cwestiynau) a thuedd dymunolrwydd cymdeithasol, lle mae'r ateb yn cael ei effeithio gan yr hyn mae'r ymatebydd yn ei ystyried sy'n dderbyniol yn gymdeithasol.

Ffigur S70: Achosion o oedolion yn ysmegu 2016-17 - 2018-19 ar gyfer pobl 16+, awdurdodau lleol yng Ngwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chymru



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru


Mae Ffigur S70 yn dangos canran yr oedolion 16+ a ddywedodd eu bod yn ysmegu ar hyn o bryd ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP) a chyfartaledd Cymru, ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2018-19. Roedd cyfartaledd BIP Aneurin Bevan (18.4%) yr un peth â chyfartaledd Cymru.

Sir Fynwy oedd â'r ganran isaf o oedolion 16+ a ddywedodd eu bod yn ysmegu ar hyn o bryd (16.5%) yng Ngwent, ac roedd y canrannau yn yr awdurdod lleol hwn a Thorfaen (17.5%) yn is na chyfartaledd Cymru. Roedd y ganran yn yr awdurdodau lleol eraill yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac roedd y ganran uchaf ym Mlaenau Gwent (20.8%).

Y duedd gyffredinol yw bod canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn ysmegu ar draws BIP Aneurin Bevan wedi gostwng o 25.6% yn 2005/2006-07 i 20.6% yn 2014-15⁷¹. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 24.5% yn 2005/2006-07 i 20% yng Nghymru dros yr un cyfnod amser.

Yn 2017-18, roedd 18.1% o fenywod beichiog yn ysmegu, a chofnodwyd hyn yn ystod asesiad beichiogrwydd cyntaf y fam un ai ar sail tystiolaeth y fam neu ar brawf carbon monocsid (CO). Mae hyn yn cymharu â ffigur o 17.8% ar gyfer Cymru gyfan a dyma'r trydydd uchaf yng Nghymru ar ôl BIP Cwm Taf (22.4%) a BIP Betsi Cadwaladr (20%)⁷². Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, gall ysmegu yn ystod beichiogrwydd gael effeithiau sylweddol ar iechyd a lles y fam a'r baban, a gall arwain at bwysau geni isel.

Ffigur S71: Marwoldeb y gellir ei briodoli i ysmegu 2016 – 2018 ar gyfer pobl 35+ oed, awdurdodau lleol yng Ngwent, BIP Aneurin Bevan a Chymru



Ffynhonnell: Marwolaethau Iechyd Cyhoeddus ac Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol), Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru)

Mae Ffigur S71 yn dangos y gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran am bob 100,000 o'r boblogaeth, 35+ oed, lle gellir priodoli'r marwolaethau i ysmegu

ⁱ Ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngwent, BIP Aneurin Bevan a chyfartaledd Cymru, 2016 – 2018. Roedd cyfartaledd BIP Aneurin Bevan (294.0) yn uwch na chyfartaledd Cymru (284.0).

Roedd y gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran am bob 100,000 o'r boblogaeth 35+ oed yn llawer is yn Sir Fynwy o ran marwolaethau a briodolir i ysmegu (203.3). Roedd y gyfradd yn y pedwar awdurdod lleol arall yn uwch na chyfartaledd Cymru, yn amrywio o 296.1 yn Nhorfaen i 350.7 ym Mlaenau Gwent.

Y duedd gyffredinol yw bod y gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran am bob 100,000 o'r boblogaeth 35+ oed ar draws BIP Aneurin Bevan wedi gostwng rhywfaint o 320.0 yn 2008-10 i 294.0 yn 2016-1873. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad yn y gyfradd o 310.0 i 284.0 yng Nghymru dros yr un cyfnod amser.

Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU wedi cyflwyno cynlluniau a pholisïau gyda'r nod o leihau nifer y bobl sy'n ysmegu. Mae'r rhain yn cynnwys y gwaharddiad ar ysmegu yn 2007, gwahardd ysmegu mewn cerbydau gyda phlant yn 2015 a Chynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco i Gymru 2017-2020. Er bod cyfraddau ysmegu wedi bod yn gostwng yn raddol, ysmegu yw un o brif achosion marwolaethau cynamserol yng Nghymru o hyd. Amcangyfrifir y gallai pob unigolyn 25 oed sy'n lleihau faint mae'n ei ysmegu arbed £882 i'r GIG yng Nghymru yn ystod ei oes, a byddai hyn yn codi i £1,592 petai'n rhoi'r gorau i ysmegu⁷⁴.

Ar 1 Mawrth 2021 daeth deddfau newydd i rym yng Nghymru a oedd yn adeiladu ar y gwaharddiad ysmegu a gyflwynwyd yn 2007, a fydd yn amddiffyn rhagor o bobl rhag mwg niweidiol ail-law ac yn helpu'r rheini sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmegu. Mae'r deddfau newydd yn golygu y bydd ysmegu wedi'i wahardd yn llwyr o dir ysbytai, a gallai unrhyw un sy'n torri'r gyfraith ac yn ysmegu ar dir ysbytai gael dirwy o £100. Bydd y

ⁱ Yn seiliedig ar restr o glefydau a gyhoeddwyd gan Ganolfan Wybodaeth y GIG yr ystyrir eu bod yn fwy tebygol o achosi marwolaethau ymhlith pobl sy'n ysmegu a phobl a oedd yn arfer ysmegu nag mewn pobl sydd erioed wedi ysmegu

deddfau newydd hefyd yn gymwys i ardaloedd lle mae plant a phobl ifanc yn treulio eu hamser – fel tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus, yn ogystal ag ardaloedd awyr agored lleoliadau gofal dydd plant a gofalwyr plant.

Bydd gwneud mwy o leodd yng Nghymru yn rhai di-fwg yn dad-normaleiddio ysmegu ac yn lleihau'r siawns y bydd plant a phobl ifanc yn dechrau ysmegu yn y lle cyntaf – rhywbeth a fydd o fudd mawr iawn i genedlaethau'r dyfodol.

4.10.5 Unigolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ystyried gordewdra fel un o'r heriau mwyaf i iechyd cyhoeddus yn fyd-eang yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol bod gordewdra ymhlith oedolion yn arwain at ddisgwyliad oes a disgwyliad oes iach byrrach. Mae cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra yn cynnwys diabetes math II, clefyd coronaidd y galon, pwysedd gwaed uchel, strôc a chanser. Mae'r effeithiau ehangach yn cynnwys cyfrannu llai at fywyd y teulu a'r gymuned; cyfleoedd gwaith cyfyngedig; incwm is; llai o gynhyrchedd a mwy o absenoldeb o'r gwaith; perfformiad gwael yn yr ysgol ac iechyd meddwl gwael.

Mae gordewdra ymhlith mamau ac ennill gormod o bwysau yn ystod beichiogrwydd yn creu risgiau difrifol i'r fam a'r baban, gan gynnwys diabetes beichiogrwydd a math II, geni babanod cyn eu hamser, macrosomia, colli ffoetws yn hwyr, marw-enedigaethau, anomaledau cynhenid a mwy o angen am ofal dwys newydd-anedigⁱⁱ.

Mae'r niwed sy'n cael ei achosi i iechyd a lles plant gan ordewdra yn ddifrifol ac yn bellgyrhaeddol ac yn cynnwys niwed corfforol, seicolegol a chymdeithasol. Mae plant eu hunain yn dweud mai'r niwed emosiynol yn sgil stigmatiddio a theimladau o unigedd yw'r niwed gwaethaf i'w lles. Mae gordewdra yn niweidiol i blant yn y tymor byr ond hefyd, gan fod y rhan fwyaf (rhwng 55% ac 80%) yn mynd ymlaen i fod yn oedolion gordewⁱⁱⁱ, mae gordewdra yn ystod plentyndod yn niweidio cyfleoedd bywyd ac yn tanseilio pob math o nodau llesiant yng nghenedlaethau'r dyfodol.


Mae difrifoldeb a thebygolrwydd llesiant gwael yn cynyddu wrth i blant heneiddio a symud ymlaen drwy gyfnod y glasoed a dod yn oedolion. Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn arwain at ordewdra fel oedolyn, ac mae hyn yn ei dro yn achosi neu'n gwaethgu'r cyflyrau salwch cyfyngol hirdymor mwyaf cyffredin. Derbynnir yn gyffredinol bod gordewdra ymhlith oedolion yn arwain at ddisgwyliad oes iach byrrach a disgwyliad oes byrrach. O safbwynt cymdeithas, mae canlyniadau economaidd gordewdra yn cynnwys costau gofal iechyd uwch ac effaith ar y farchnad lafur, sydd yn eu tro yn niweidiol i ffyniant. Mae lefelau cyflogaeth pobl ordew yn is, mae eu cynhyrchiant yn is gan eu bod yn absennol oherwydd salwch yn amlach, ac mae pobl ordew yn ennill cyflogau llawer llai.

Mae cyfraddau gordewdra yn codi'n gynt yng Ngwent nag yng Nghymru yn gyffredinol⁷⁵. Mae Adroddiad Foresight⁷⁶ yn dweud wrthym fod bod dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu'r risg o ddioddef o bob math o glefydau cronig, yn bennaf diabetes math II, gorbwysedd, clefyd cardiofasgwlar gan gynnwys strôc, yn ogystal â chanser. Gall effeithio ar les, ansawdd bywyd a gallu unigolyn i ennill cyflog. Amcangyfrifir bod y costau ehangach i gymdeithas a busnesau tua £49.9 biliwn y flwyddyn. Mae adroddiad Foresight yn rhagweld erbyn 2050 y bydd 60% o ddynion sy'n oedolion a 50% o fenywod sy'n oedolion yn ordew, ac y bydd 25% o blant o dan 16 oed yn ordew. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ystyried gordewdra yn ystod plentyndod fel un o'r heriau iechyd cyhoeddus byd-eang mwyaf difrifol yn yr unfed ganrif ar hugain. Os bydd cyfraddau gordewdra a gorbwysau yn parhau i godi, erbyn 2050 bydd hyn yn costio £465 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru, a bydd y gost i gymdeithas a'r economi yn £2.4 biliwn⁷⁷.

ii Larsen, et al, 1990; Power, et al, 2003; Leddy, Power a Schilkin, 2008

iii Schonfeld-Warden & Warden 1997; Lifshitz, 2008

Ffigur S72: % yr oedolion a ddywedodd eu bod dros eu pwysau neu'n ordew (BMI 25+) yn awdurdodau lleol Gwent, 2011 – 2014



Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S72 yn dangos canran yr oedolion a ddywedodd eu bod dros eu pwysau neu'n ordew (gydag Indecs Màs y Corff o 25+) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngwent, rhwng 2011 a 2014. Sir Fynwy yn unig oedd â chanran is na chyfartaledd Cymru yn ystod pob blwyddyn o'r cyfnod amser, yn amrywio o 51% i 56% (o'i gymharu ag amrediad o 58% i 59% ar gyfer Cymru gyfan).

Roedd canrannau'r pedwar awdurdod lleol arall yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amser, er bod y duedd yn amrywio. Mae'n ymddangos mai'r duedd gyffredinol yw bod lefelau cynyddol o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew dros y cyfnod amser yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Ngwent.

4.10.6 Diabetes

Disgrifiwyd diabetes math II fel 'bom sy'n tician' ar gyfer y gwasanaeth iechyd, oherwydd ei fod yn dod yn fwyfwy cyffredin ac yn sgil y galw disgwylidig am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae diabetes yn gyflwr cronig sy'n newid bywydau a gall arwain at gymhlethdodau difrifol. Nid yw'n bosibl gwella diabetes, ond gellir atal y rhan fwyaf o'r achosion o ddiabetes math II. Mae'n bosibl lleihau marwolaethau yn sgil diabetes math II, anabled a marwolaethau cynamserol drwy hunanreoli'r cyflwr, addysg a gofal iechyd. Mae lleihau'r achosion o ddiabetes a'i effaith yn gofyn am fynd i'r afael â'r ddau ffactor risg mwyaf y gellir eu newid – gordewdra ac anweithgarwch corfforol.

Cymru sydd â'r nifer mwyaf o achosion o ddiabetes yn y DU. Yn 2020, cafodd 10,695 yn ychwanegol o bobl ddiagnosis o ddiabetes yng Nghymru, ac erbyn hyn mae dros 209,015 o bobl yng Nghymru yn byw gyda diabetes. Mae hyn yn cyfrif am 8% o'r boblogaeth 17 oed a throsodd – y ganran uchaf yn y DU – ac mae'r niferodd yn codi bob blwyddyn. Dyma'r tro cyntaf i dros 200,000 o bobl gael diagnosis o ddiabetes yng Nghymru. Mae gan tua 90% o'r bobl hyn diabetes math II. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod gan 65,501 ychwanegol o bobl yng Nghymru diabetes math II ond nad ydynt wedi cael diagnosis hyd yma. Mae hyn yn golygu bod bron i 275,000 o bobl yn byw gyda diabetes yng Nghymru. Gallai 580,000 o bobl yn ychwanegol yng Nghymru fod mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2⁷⁸.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn rhoi arian i ddechrau cyflwyno Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, o dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y rhaglen genedlaethol hon, a fydd yn cyfrannu at weithrediad Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, yn golygu bod ymarferwyr gofal iechyd yn cyflwyno ymyriad byr i bobl y nodwyd eu bod mewn mwy o berygl o ddatblygu diabetes math 2. Bydd Cynllun Atal Diabetes Cymru Gyfan yn cael ei gyflwyno ar ffurf rhaglen dreigl mewn clystyrau

gofal sylfaenol penodol, ynghyd â gwerthusiad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r adroddiad 'Datblygu'r Ymyrraeth ar gyfer Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan' yn amlinellu cynllun ymyrraeth Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, elfennau allweddol y gwaith sy'n sail i'r cynllun, a chadernid y broses a ddilynwyd i benderfynu ar y cynllun hwn. Mae Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn adeiladu ar waith a gafodd ei dreialu a'i werthuso mewn dau glwstwr gofal sylfaenol ar wahân, sef Cwm Afan a Gogledd Ceredigion. Mae gweithwyr proffesiynol o wahanol feysydd ar draws Cymru wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu a mireinio cynllun yr ymyrraeth hon a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chanllawiau NICE, Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan, egwyddorion gofal iechyd darbodus a gwyddor ymddygiadol, er mwyn gwneud y mwyaf o'i effeithiolrwydd⁷⁹.

4.11 Iechyd a lles emosiynol

4.11.1 Iechyd meddwl

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd 'nid oes iechyd heb iechyd meddwl. Gall ein lles meddyliol gael ei weld fel adnodd ar gyfer bywyd, yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn meddwl ac yn teimlo amdanom ein hunain ac am bobl eraill, sut rydym yn dehongli digwyddiadau ac o ganlyniad sut rydym yn ymddwyn ac yn gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn dweud bod un o bob pedwar oedolyn ac un o bob deg plentyn yn debygol o ddioddef oherwydd problemau iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn. Mae hyn yn cael effaith fawr iawn ar ansawdd bywydau pobl, gan effeithio ar y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd, y gallu i gael gwaith cyflogedig, ac ar ei waethaf, y gallu i fyw o un diwrnod i'r llall.

Yn y Deyrnas Unedig, mae problemau iechyd meddwl yn gyfrifol am y baich mwyaf o ran clefydau (23% o gyfanswm y baich, o'i gymharu ag 16% yr un ar gyfer canser a chlefyd y galon). Mae problemau iechyd meddwl cyffredin fel iselder a gorbryder yn fwy cyffredin ymhlith pobl sy'n wynebu mwy o anfantais economaidd⁸⁰.

Mae hybu lles ac atal problemau iechyd meddwl yn elfen hanfodol o'r strategaeth iechyd cyhoeddus ehangach, gan fod iechyd meddwl yr unigolyn yn dylanwadu ar bob math o ffactorau cymdeithasol economaidd, diwylliannol, amgylcheddol ac iechyd ehangach, ac mae pob un o'r rhain yn dylanwadu ar iechyd meddwl yn eu tro.

Mae tystiolaeth gref yn dangos bod cymryd camau i wella lles meddyliol a lleihau salwch meddwl ar draws y boblogaeth yn arwain at bob math o ganlyniadau iechyd a heb fod yn ymwneud ag iechyd, gan gynnwys gwell cyflawniad addysgol, lleihau diweithdra a diffyg gwaith, lleihau'r ddibyniaeth ar fudd-daliadau lles ac anabledd, gwell cynhyrchiant yn y gweithle, lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwell perthnasoedd cymdeithasol ac ymgysylltiad â'r gymuned a chostau llai i wasanaethau iechyd a chymdeithasol⁸¹.

Yn yr un cyd-destun, mae lles meddyliol gwael, teimlad o hunanwerth gwael, diarddeliad cymdeithasol neu fwlio a stigma real neu dybiedig yn peryglu cydlyniant a chynaliadwyedd cymdeithasol. Mae iechyd meddwl gwael yn gysylltiedig ag iechyd corfforol gwael, mwy o risg o ymddygiad sy'n peryglu iechyd, addysg wael a diweithdra. Mae'n cyfrif am faich sylweddol o salwch ac anabledd yng Nghymru a chostau uchel i'r GIG, cymdeithas a'r economi. O'r herwydd, mae cysylltiad annatod rhwng y thema hon â Nodau Llesiant Cymru a llawer o'r themâu eraill sy'n flaenoriaethau iechyd ar gyfer y boblogaeth.

Mae anghydraddoldeb yn ffactor allweddol sy'n achosi salwch meddwl, ac mae'n arwain at anghydraddoldeb pellach. Yng Nghymru, dywedodd 24% o'r bobl sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir neu sydd erioed wedi gweithio fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl, o'i gymharu â 9% o oedolion mewn grwpiau rheolaethol a proffesiynol.


Mae arwyddion y gallai pandemig Covid-19 fod yn ysgogi cynnydd pryderus mewn iechyd meddwl gwael. Yng Nghymru, dywedodd dau o bob tri (67%) o bobl a gafodd eu holi gan Gyngor ar Bopeth Cymru fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu lles. Mae'r cysylltiadau rhwng dyled ac iechyd meddwl gwael

wedi hen sefydlu ac i'r rheini sy'n ymdopi â cholli swydd neu anawsterau ariannol, mae effaith Covid-19 ar eu hiechyd meddwl yn debygol o fod wedi gwaethygu'r sefyllfa. Mae'r problemau sy'n wynebu pobl yn ystod cyfnodau economaidd anodd yn tueddu i gael effaith niweidiol ar iechyd meddwl. Ar yr un pryd, gall problemau iechyd meddwl ei gwneud yn fwy anodd i ymdopi â materion sy'n gysylltiedig â chyfnodau ariannol anodd⁸².

Rydym eisoes yn gweld yr effaith anghymesur ar bobl sy'n wynebu problemau iechyd meddwl, sydd ddwywaith yn fwy tebygol o fod mewn dyled gyda'u biliau cartref ers pandemig Covid-19.

Mae Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS) yn gasgliad o 14 o gwestiynau sy'n ymwneud ag agweddau ar deimladau pobl a swyddogaeth llesiant meddwl, ac mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd wedi gofyn y cwestiynau hyn. Mae sgoriau yn amrywio rhwng 14 a 70, gyda sgoriau uchel yn awgrymu llesiant meddwl da. Y pwyntiau a ddefnyddir i gategoreiddio sgoriau llesiant yn yr arolwg hwn yw – llesiant meddwl isel (14-40), llesiant meddwl canolig (41-59) a llesiant meddwl uchel (60-70)⁸³.

Ffigur S73: Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin, pobl 16+ oed yn ôl awdurdodau lleol yng Ngwent, BIP Aneurin Bevan a Chymru, 2018-19



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Yn 2018-19, BIP Aneurin Bevan oedd â'r sgôr WEMWBS ail isaf yng Nghymru (50.5), a BIP Cwm Taf a BIP Hywel Dda yn unig oedd â sgôr is (50.4). Sgôr gyfartalog Cymru gyfan yn 2018-19 oedd 51.4, ac roedd sgoriau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, BIP Betsi Cadwaladr a BIP Caerdydd a'r Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae Ffigur S73 yn dangos bod sgoriau Blaenau Gwent (48.9), Torfaen (49.8) a Chaerffili (50.2) oll yn is na sgôr BIP Aneurin Bevan a chyfartaledd Cymru. Sir Fynwy yn unig oedd â sgôr uwch na BIP Aneurin Bevan a chyfartaledd Cymru (51.7).

Nid yw gwybodaeth sy'n disgrifio llesiant meddwl plant a phobl ifanc ar gael yn rheolaidd ar lefel awdurdod lleol. Casglodd Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr 2019-20⁸⁴ ddata a gafodd ei hunanadrodd gan fyfyrwyr ym mlyneddodd ysgol 7 i 11 ym mhob ysgol a gymerodd ran. Mae'r arolwg yn defnyddio tri mesur cyfansawdd – Graddfa Fyr Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin, graddfa unigrwydd 3-eitem UCLA a'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau.

Bodlonrwydd bywyd

Pan ofynnwyd pa mor fodlon oedd pobl ifanc â'u bywyd ar raddfa o 0 (bywyd gwaethaf posibl) i 10 (bywyd gorau posibl), yr ateb mwyaf cyffredin a roddwyd oedd 8 (22%), gyda 4 o bob 5 yn sgorio 6 neu'n uwch. Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod yn fodlon â'u bywyd (wedi'i ddiffinio fel sgôr o 6 neu'n uwch), ac roedd pobl ifanc nad oeddynt yn uniaethu fel bachgen neu ferch yn sgorio isaf o ran bodlonrwydd bywyd. Roedd bodlonrwydd bywyd yn lleihau'n raddol wrth fynd yn hŷn, gydag 87% o fyfyrwyr yn rhoi sgôr o 6 neu uwch ym mlwyddyn 7, gan ostwng i 75% erbyn blwyddyn 11. Roedd perthynas raddedig rhwng cyfoeth teuluol a bodlonrwydd bywyd hefyd. Roedd pobl ifanc o deuluoedd llai cefnog yn llai tebygol o ddweud eu bod yn fodlon â'u bywydau na phobl ifanc o deuluoedd mwy cefnog. Roedd y gostyngiad hwn mewn bodlonrwydd bywyd yn gysylltiedig ag oedran yn fwy amlwg ymhlith merched: gwahaniaeth bach yn unig a nodwyd rhwng bechgyn a merched ym mlwyddyn 7 (89% yn erbyn 86%) ond roedd y bwlch hwn wedi tyfu'n fwy o lawer erbyn blwyddyn (81% yn erbyn 71%).

Llesiant meddwl

Roedd sgoriau llesiant meddwl ar Raddfa Fyr Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin wedi'u dosbarthu yn eithaf normal: 25 oedd y sgôr fwyaf cyffredin, ond y sgôr gymedrig oedd 24. Ar gyfartaledd, roedd llesiant meddwl merched yn is na bechgyn, ac roedd y sgoriau ar eu hisaf ymhlith pobl ifanc nad oeddynt yn uniaethu fel bachgen neu ferch. Yn debyg i fodlonrwydd bywyd, roedd llesiant meddwl yn gostwng wrth iddynt fynd yn hŷn ond yn lleihau os oeddynt yn dod o deulu cyfoethog. Roedd y gostyngiad hwn mewn llesiant meddwl yn gysylltiedig ag oedran yn fwy amlwg ymhlith merched na bechgyn.

Unigrwydd

Ar raddfa unigrwydd UCLA, roedd yr ymatebion yn ystumiedig iawn: 3 oedd y sgôr fwyaf cyffredin ond 5 oedd y sgôr gymedrig. Dywedodd merched eu bod yn teimlo'n unig yn amlach na bechgyn, ac roedd pobl ifanc nad oeddynt yn uniaethu fel bachgen neu ferch yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig. Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y sgoriau unigrwydd yn ôl oedran, ond roedd yn fwy cyffredin ymhlith pobl ifanc o deuluoedd llai cyfoethog. Roedd y cysylltiad rhwng unigrwydd ac oedran yn fwy amlwg ymhlith merched na bechgyn. Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn dweud 'nad oeddynt' wedi teimlo'n unig yn ystod y gwyliau haf diweddar 'o gwbl' neu'n 'anaml', dywedodd bron i un o bob tri eu bod wedi teimlo'n unig o leiaf rhywfaint o'r amser. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o deimlo'n unig (38% yn erbyn 24%), ond yn llai tebygol na phobl ifanc nad oeddynt yn uniaethu fel bachgen neu ferch (61%). Roedd unigrwydd yn ystod y gwyliau ysgol yn fwy amlwg wrth i bobl ifanc dyfu'n hŷn, ac roedd pobl ifanc o deuluoedd llai cefnog yn fwy tebygol na'r rheini o deuluoedd cefnog i ddweud eu bod yn teimlo'n unig. Roedd y cynnydd mewn unigrwydd yn y gwyliau yn gysylltiedig ag oedran yn fwy amlwg ymhlith merched (o 27% ym mlwyddyn 7 i 48% ym mlwyddyn 11) nag ymhlith bechgyn (20% i 31%) ac ymhlith y rhai nad ydynt yn uniaethu fel bachgen na ferch (58% i 65%).

Iechyd meddwl

Dywedodd bron i 2 o bob 5 (39%) o bobl ifanc eu bod wedi dioddef symptomau iechyd meddwl (yn cael eu dosbarthu fel 'ychydig yn uwch' ar sgôr cyfanswm anawsterau SDQ) gyda bron i 1 o bob 5 (19%) yn dweud fod ganddynt symptomau iechyd meddwl 'uchel iawn'. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud fod ganddynt symptomau iechyd meddwl gwaeth, ond dywedodd mwyafrif (54%) y bobl ifanc nad oeddynt yn uniaethu fel bachgen neu ferch fod ganddynt symptomau iechyd meddwl yn yr amrediad 'uchel iawn'. Roedd symptomau iechyd meddwl yn gwaethgu wrth fynd yn hŷn; dywedodd 12% o fyfyrwyr blwyddyn 7 eu bod yn cael lefel 'uchel iawn' o symptomau, gan godi i 22% ym mlwyddyn 11. Roedd pobl ifanc o deuluoedd llai cefnog hefyd yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn dioddef o symptomau iechyd meddwl. Er bod symptomau iechyd meddwl yn gwaethgu i fechgyn a merched wrth fynd yn hŷn, roedd hyn yn fwyaf amlwg ymhlith merched, er nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ddau ryw ym mlwyddyn 7 roedd y gwahaniaeth yn amlwg iawn erbyn blynyddoedd 10 a 11. Ym mhob grŵp oedran, roedd pobl ifanc nad oedd yn uniaethu fel bachgen na merch yn fwy tebygol o ddweud fod ganddynt fwy o symptomau.

Mae iechyd a llesiant meddwl pobl ifanc yn flaenoriaeth polisi allweddol yng Nghymru. Mae tua hanner yr holl gyflyrau iechyd meddwl yn dod i'r amlwg erbyn 14 oed, gan olygu bod y glasoed yn gyfnod o risg arbennig ar gyfer dioddef iechyd meddwl gwael. Mae cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl yn ystod y glasoed hefyd yn gysylltiedig â risg uwch o gael problemau iechyd meddwl fel oedolyn. Er bod iechyd meddwl yn aml yn cael ei ystyried o safbwynt salwch, fel rhywbeth y mae angen ei atal, mae llesiant meddwl yn cael ei gysylltu'n fwy agos ag ymdrechion i hybu iechyd ac mae wedi cael ei ddisgrifio fel 'cyflwr o lesiant lle mae unigolyn yn gwreiddio ei alluoedd, yn gallu ymdopi â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn gallu cyfrannu at ei gymuned'. Mae cysylltiad hefyd rhwng unigrwydd â chanlyniadau iechyd ac addysgol niweidiol, gan gynnwys gorbryder ac iselder a chyflawniad academiaidd is.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar iechyd meddwl pobl ym mhob grŵp oedran, yn enwedig oherwydd y gwahanol gyfnodau clo sydd wedi digwydd, gyda phryderon am y grwpiau oedran ieuengaf a hŷn. Mae'n debygol y bydd yr effeithiau hyn i'w teimlo am flynyddoedd lawer i ddod ac y bydd o bosibl yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

4.11.2 Unigrwydd

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo'n unig ar ryw adeg yn eu bywyd. Mae'n brofiad hynod o bersonol a fydd – yn y rhan fwyaf o achosion – yn gwella. Ond i nifer cynyddol o bobl, yn enwedig yn ystod eu blynyddoedd olaf, gall unigrwydd ddiffinio eu bywydau a chael effaith sylweddol ar eu llesiant.

Dangoswyd bod unigrwydd ac unigedd yn niweidio iechyd ac yn broblem sylweddol a phwysig yng Nghymru sy'n croesi ffiniau oedran, dosbarth cymdeithasol, hil, uniaethu â rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws ariannol a daearyddiaeth. Efallai bod cael gwared ag unigrwydd ac unigedd yn afrealistig, ond nid yw gweithio ar bob lefel (fel unigolion, sefydliadau ac yn strategol) i nodi a rhoi sylw i'r achosion sylfaenol yn afrealistig.

Mae unigrwydd wedi cael ei fesur yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ers 2016-17. Gwelwyd bod 17% o'r rhai wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg (o blith ychydig dros 10,000 o bobl 16 oed a throsodd) yn dweud eu bod yn teimlo'n unig ac roedd 54% o bobl wedi cael rhai teimladau o unigrwydd. Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi teimlo'n unig na phobl hŷn (20% o bobl 16-24 oed, o'i gymharu â 10% o bobl 75 oed a throsodd). Nid oedd llawer o wahaniaeth yn y ffigyrau hyn yn arolwg 2017-18: dywedodd 16% o'r boblogaeth eu bod yn teimlo'n unig (21% o bobl 16-24 oed ac 11% o bobl 75 oed neu throsodd).

Yn achos plant a phobl ifanc, ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ffigyrau a oedd yn dangos bod plant 10-12 oed ym Mhrydain yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig yn aml na phlant 13-15 oed (14% ac 8.6% yn y drefn honno). Hefyd, dangosodd yr arolwg fod merched yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi teimlo'n unig na bechgyn. Gwelodd ymchwil gan Childline yn 2018 mai'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan bobl ifanc dros deimlo'n unig oedd materion iechyd meddwl, bwlio a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae unigrwydd ac unigedd cymdeithasol yn cael eu hachosi gan gyfuniad o ffactorau personol, cymunedol a chymdeithasol yn hytrach nag un digwyddiad neu amgylchiad. I rai pobl, gall digwyddiadau bywyd penodol olygu eu bod yn teimlo'n unig neu'n cael eu hynysu'n gymdeithasol, fel:

- profedigaeth
- perthynas yn chwalu
- dod yn ofalwr i aelod o'r teulu neu ffrind
- ymddeol neu golli'r cyswllt cymdeithasol oedd gennych yn y gwaith
- newid swydd a theimlo eich bod wedi cael eich ynysu o'ch cyd-weithwyr
- dechrau yn y brifysgol
- symud i ardal neu wlad newydd heb deulu, ffrindiau neu rwydweithiau cymunedol⁸⁵


Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2021, gweithiodd grŵp o fudiadau gyda'i gilydd i gasglu profiadau pobl 50 oed a throsodd yng Nghymru yn ystod y cyfnod clo yn y gaeaf ac i ddeall barn pobl hŷn am y cyfnod

adferiad⁸⁶. Cymerodd 1,216 o bobl ran yn yr ymchwil, rhwng 50 a 94 oed. Pan ofynnwyd iddynt am agweddau cadarnhaol y cyfnod clo, rhoddwyd yr atebion canlynol:

- cyfeiriodd 46% o ymatebwyr at y cymorth roeddynt wedi'i gael gan ffrindiau a theulu
- cyfeiriodd 16% at y cymorth roeddynt wedi'i gael gan eu cymuned leol
- dywedodd 38% eu bod yn teimlo bod ganddynt fwy o amser
- dywedodd 28% eu bod yn teimlo bod llai o bwysau arnynt
- dywedodd 23% o'r rhai a atebodd yr adran hon nad oeddynt yn teimlo bod unrhyw beth cadarnhaol ynglŷn â'r pandemig

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn heriol yn ystod y cyfnodau clo, roedd nifer fawr o feysydd a oedd wedi bod yn fwy heriol yn ystod cyfnod clo'r gaeaf. Dywedodd 87% o ymatebwyr fod peidio â gweld teulu a ffrindiau yn broblem, cynnydd o 78% ers y cyfnod clo cyntaf. Roedd canran y bobl a oedd yn teimlo'n unig (37%), yr effaith ar iechyd emosiynol (51%) a'r effaith ar iechyd corfforol (35%) oll wedi cynyddu.

Table: Challenges of lockdown



Ffynhonnell: Age Cymru

4.11.3 Hunanladdiad a hunan-anafu

Bob blwyddyn mae rhwng 300 a 350 o bobl yn lladd eu hunain yng Nghymru. Mae hyn tua thair gwaith y nifer sy'n cael eu lladd mewn damweiniau ffordd. Er ei fod yn gymharol brin, mae hunanladdiad yn cael effaith ddinistriol ar bawb sy'n gysylltiedig. Am bob unigolyn sy'n marw oherwydd hunanladdiad, amcangyfrifir bod y farwolaeth yn cael effaith sylweddol ac uniongyrchol ar o leiaf chwech o bobl eraill⁸⁷.

Yn 2020, cofrestrwyd 5,224 achos o hunanladdiad yng Nghymru a Lloegr, sy'n cyfateb i gyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran o 10.0 marwolaeth am bob 100,000 o bobl. Roedd tua thri-chwarter yr hunanladdiadau a gofrestrwyd yn 2020 yn ymwneud â dynion (3,925 marwolaeth; 75.1%), sy'n dilyn tuedd gyson sy'n dyddio'n ôl i ganol yr 1990au. Yn achos menywod, roedd 4.9 marwolaeth am bob 100,000 a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr yn 2020. Mae hyn yn gyson â chyfraddau sydd wedi'u gweld ers dros ddegawd⁸⁸.

Yng Nghymru, roedd 10.3 marwolaeth am bob 100,000 o'r boblogaeth yn 2020 (285 o farwolaethau wedi'u cofrestru). Yn 2020, dynion a menywod 45–49 oed yng Nghymru a Lloegr oedd â'r gyfradd hunanladdiad fwyaf yn benodol i oedran, sef 24.1 am bob 100,000 o farwolaethau gwrywaidd (457 o farwolaethau wedi'u cofrestru) a 7.1 am bob 100,000 o farwolaethau benywaidd (138 marwolaeth).

Ymhlith dynion a menywod mae cysylltiad rhwng hunanladdiad ac amddifadedd. Mae'r cyfraddau uchaf yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac mae'n ymddangos bod y bwlch hwn yn mynd yn fwy yng Nghymru. Mae hyn yn gyson â'r llenyddiaeth bresennol ac mae'n dangos y dylai mesurau i atal hunanladdiadau roi sylw i'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn y gymdeithas.

Mae o leiaf 5% o'r holl hunanladdiadau yn y DU ymhlith pobl sydd wedi cael diagnosis o gyflwr deubegwn⁸⁹. Mae'r gwir nifer yn debygol o fod yn llawer uwch gan fod bron i hanner y bobl â'r cyflwr hwn heb gael diagnosis ac mae problem barhaus yn ymwneud â chamddiagnosis. Mae deubegwn yn gyflwr

genetig ond mae'n cael ei ysgogi gan bob math o ffactorau amgylcheddol gwahanol fel diffyg cwsig a digwyddiadau trawmatig a chyffredin. Natur gyffredin cynifer o'r ffactorau sy'n ei ysgogi yw un o agweddau mwyaf llechwraidd y cyflwr. Mae'n anodd tu hwnt osgoi'r holl ffactorau sy'n ei ysgogi hyd yn oed pan fydd rhywun wedi cael diagnosis, heb sôn am bobl nad ydynt wedi cael diagnosis.


Mae'n bwysig nodi bod angen dehongli ystadegau a thueddiadau hunanladdiad yn ofalus iawn oherwydd gall y niferoedd bach, oedi wrth gofrestru ac anghysondebau wrth gofnodi achos marwolaethau, arwain at gyfraddau annibynadwy. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth gymharu amrywiadau blynyddol a chyfraddau yn ymwneud ag ardaloedd /grwpiau poblogaeth bach. Mae'n anodd gwneud cymariaethau ar draws gwahanol wledydd hefyd oherwydd gwahaniaethau yn y dulliau codio a gwahaniaethau diwylliannol wrth gategoreiddio bwriad.

Mae canran yr hunanladdiadau sydd wedi'u hachosi gan grogi, tagu a mygu wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Y dull mwyaf cyffredin o hunanladdiad yng Nghymru a Lloegr ymhlith dynion a merched yw crogi, tagu a mygu (sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd). Roedd y dull hwn yn cyfrif am 58.1% o'r holl achosion o hunanladdiad yn 2020 (3,036 o blith 5,224 marwolaeth a gofrestrwyd). Yr ail ddull mwyaf poblogaidd oedd gwenwyno ac mae'n cyfrif am 19.9% o'r holl hunanladdiadau yn 2020 (1,041 o bob 5,224 marwolaeth). Yn ystod y cyfnod rhwng 2018 a 2020, roedd crogi yn cyfrif am 77.8% o hunanladdiadau ymhlith pobl rhwng 10 ac 14 oed. Mae cyfran yr hunanladdiadau sy'n cael eu hachosi gan grogi yn gostwng yn raddol wrth i bobl fynd yn hŷn, ac mae'r dull hwn yn cyfrif am 29.1% o hunanladdiadau ymhlith pobl 90 oed a hŷn. Ar y llaw arall, roedd gwenwyno yn cyfrif am 5.6% o'r holl hunanladdiadau ymhlith pobl rhwng 10 ac 14 oed ac mae'r gyfran yn cynyddu wrth i bobl fynd yn hŷn gan gyrraedd brig o 29.7% yn achos pobl 90 oed a throsodd. Yn achos tri dull o hunanladdiad — gwenwyno, gwrthrych miniog, a dulliau eraill — roedd y cyfrannau uchaf ymhlith pobl 90 oed a throsodd.

4.12 Tueddiadau a heriau'r dyfodol

Daw'r wybodaeth yn Ffigur S75 o 'Gwent Futures Horizon Scanning Report'⁹⁰ gan Ash Futures (Mawrth 2018). Mae nifer o themâu allweddol yn yr adroddiad sy'n gysylltiedig ag iechyd – Poblogaeth, Cymdeithas a Thechnoleg, a bydd yr adran yn ystyried rhai o'r is-themâu ym mhob un o'r meysydd hyn.

Ffigur S75: Prosiect 'Gwent Futures' – Gyrwyr newid yn y dyfodol



Ffynhonnell: Ash Futures

Erbyn 2031, bydd nifer y bobl 65 oed a throsedd yn dyblu i 1 biliwn yn fyd-eang, gan godi pryderon am gynhyrchedd y farchnad lafur yn gyffredinol a gallu systemau ariannol presennol i wrthsefyll pwysau heneiddio. Wrth i'r gyfran o bobl oedrannus gynyddu ar draws economïau, byddant yn herio fforddiadwyedd systemau lles cymdeithasol fel pensiynau a gofal iechyd. Yn y DU, oherwydd bod y genhedlaeth a aned yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd ar fin ymddeol, mae nifer y bobl sydd yn yr oedran sy'n derbyn pensiwn gwladol ac yn hŷn ar fin chwyddo i bron i draean erbyn 2039 i 16.5m - er gwaethaf penderfyniad y Llywodraeth i godi'r oedran pensiwn. Mae disgwyl y bydd nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu bron 90% i 9.9m erbyn 2039, a bydd nifer y bobl 85 oed a throsedd yn fwy na dyblu. Bydd nifer y bobl sy'n byw i fod dros gant oed yn cynyddu bron i chwe gwaith i 83,000.

Bydd y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn yn cael effaith ddwys ar amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Nid yw llawer o bobl yn cynilo digon a bydd angen iddynt weithio'n hirach. Bydd costau iechyd a gofal cymdeithasol – sydd eisoes yn heriol – yn codi. Disgwylir y bydd angen newidiadau sylfaenol i'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau eu cynaliadwyedd yn y dyfodol. Hefyd, bydd mwy o bwysau ar y boblogaeth oedran gwaith i gynnal pobl oedrannus; gall lefelau uwch o drethiant fod yn ganlyniad anorfod.

Mae heneiddio eisoes yn creu grwpiau o ddefnyddwyr unigryw – yr economi arian bondigrybwyll – a bydd yn creu gwahaniaeth dosbarth newydd rhwng y rhai mwy cefnog a'r llai cefnog. Gall hyn arwain at wahaniaeth parhaus yn nisgwyliad oes rhwng cymunedau, fel y gwelir eisoes yn rhannau o Went.

Mae poblogaeth Gwent yn heneiddio fel ym mhob rhan arall o'r byd datblygedig. Mae hyn yn gosod heriau sylweddol i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Er bod y cynnydd mewn disgwyliad oes wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw gwir effaith y genhedlaeth a anwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd sy'n dechrau ymddeol wedi dod i'r amlwg eto. Heb os, bydd angen newid sylfaenol yn y modelau cyflenwi gwasanaethau mewn sawl maes iechyd a gofal cymdeithasol, gyda rhai meysydd darpariaeth yn symud i'r sector preifat. Mae'r broses hon yn amlwg wedi dechrau dros y blynyddoedd diwethaf ac mae disgwyl i'r duedd barhau. Ni fydd y pwysau penodol hyn yn digwydd yn gyson ar draws Gwent, a bydd gan ardaloedd Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy boblogaethau ychydig yn hŷn.

Mae cenedlaeth y mileniwm wedi tyfu i fyny yn cysylltu â phobl sydd yr un oedran â nhw ar draws y byd drwy'r rhyngwrld ac maent yn teimlo cryn empathi â safbwyntiau a diwylliannau eraill – maent yn gwerthfawrogi unigoliaeth ac yn gwrthod hiliaeth ddi-hid, homoffobia a thrawsffobia a oedd o bosibl yn rhan o ddiwylliant poblogaidd y cenedlaethau blaenorol. Maent yn credu bod parchu hunaniaeth rhywun arall yn drech na hawl eraill i'w dilorni ac maent yn condemnio ffilmiau, llyfrau ac unigolion sy'n ceisio gwneud hynny.

Mae'n hawdd i'r genhedlaeth hŷn ddiystyru rhywbeth nad ydynt yn ei ddeall nac yn ei werthfawrogi – wedi'r cyfan, dyna'r hyn mae cenedlaethau hŷn wastad yn ei wneud – ond mae'n ymddangos bod rhywbeth mwy dwys a llai derbyniol na gwahaniaeth rhwng y cenedlaethau yn gorwedd o dan yr wyneb gan arwain rhai pobl i awgrymu bod y genhedlaeth hŷn mewn gwirionedd yn siomi'r genhedlaeth iau.

Mae cenedlaeth y mileniwm yn awgrymu bod y safbwyntiau gwrthgyferbyniol hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at salwch meddwl ymhlith pobl ifanc. Mae Prydain yng nghanol epidemig iechyd meddwl sy'n cael effaith anghymesur ar bobl ifanc ac mae un o bob pedwar marwolaeth ymhlith dynion ifanc rhwng 20 a 34 oed oherwydd hunanladdiad. Mae'r nifer yn is yn achos menywod ifanc ond mae'n dal i fod yn uchel – cyfradd o dros 10%. Yng Nghymru, roedd cynnydd o dros 60% yn nifer y marwolaethau oherwydd hunanladdiad ymhlith menywod rhwng 2014 a 2017. Mae dynion yng Nghymru dair gwaith yn fwy tebygol o ladd eu hunain na menywod.

Mae'r genhedlaeth bresennol o bobl ifanc yn wynebu pob math o ragolygon anodd yn y dyfodol – diweithdra uchel, llai o gyfle i brynu tŷ – sy'n hollol wahanol i'r hyn a oedd yn wynebu cenedlaethau blaenorol. Prin iawn yw'r bobl sy'n gadael yr ysgol neu addysg bellach/uwch heddiw ac yn cael swydd dda ar unwaith. Mae'r rheiny sy'n llwyddo fel arfer wedi gorfod symud i ffwrdd i wneud hynny.

Efallai nad yw problemau iechyd meddwl yn newydd ond nid yw hynny'n golygu y gall cymdeithas anwybyddu'r broblem; yn enwedig gan eu bod yn costio'r economi 4.5% o GDP. Mae canllawiau iechyd meddwl presennol yn fan cychwyn da ar gyfer cynnig gofal, ond mae angen i ranbarthau gymryd golwg fanwl ar yr achosion systemig – fel y cyfryngau cymdeithasol, diffyg cyfleoedd swyddi addas a chost ac argaeledd tai – os ydym eisiau helpu ein pobl ifanc i ddechrau ar y daith hir yn ôl i wellhad. Gall fod yn ddefnyddiol i gynnal gwaith ymchwil penodol ar gyfer rhanbarth Gwent i gyflwr llesiant meddwl y genhedlaeth hon, er mwyn deall y problemau sylfaenol sy'n wynebu pobl ifanc Gwent a'r mecanweithiau cymorth posibl y mae angen eu rhoi yn eu lle.

Mae erthygl yn 'The Economist' o dan y teitl 'A revolution in health care is coming' yn tynnu sylw at y ffordd mae technoleg yn gosod dulliau monitro iechyd, diagnosis a rheoli clefydau yn nwylo'r claf - strapiau watshis sy'n cynnwys synwryddion gradd feddygol sy'n gallu canfod arrhythmia; mae apiau'n cael eu datblygu i roi diagnosis ar gyfer pob math o glefydau o ganser y croen i glefyd Parkinson; ac mae ymchwil yn cael ei gynnal i weld a ellir canfod biofarcwyr moleciwlaidd penodol mewn chwys, gan leihau'r angen am brofion gwaed, ac ati.

Mae ap 'Health Records' iOS Apple yn galluogi cleifion o ysbytai sy'n cymryd rhan i weld eu cofnodion iechyd ar eu ffonau. Yn y tymor hir, mae Apple a chwmnïau technoleg eraill yn gobeithio cydgasglu data cleifion unigol er mwyn creu diagnosteg deallusrwydd artifisial (AI) - wrth i gleifion unigol ffrydio data, bydd systemau AI yn ei gydgasglu ac, er enghraifft, yn darparu diagnosis meddygol wedi'i awtomeiddio ar sail newidiadau yn y bio-farcwyr, gan ganfod priodweddau ymddygiadol sy'n awgrymu bod cleifion yn isel eu hysbryd neu'n adnabod cleifion sy'n wynebu'r perygl mwyaf o glefyd cardiaidd.

Mae galluogi cleifion i gael mynediad at eu data meddygol yn cael ei ystyried gan rai pobl fel un o'r agweddau mwyaf arwyddocaol ar y chwyldro gofal iechyd. Roedd Sweden yn anelu at roi mynediad electronig i'w cofnodion meddygol i'w holl ddinasyddion erbyn 2020⁹¹. Mae astudiaethau yn dangos bod gan gleifion sydd â mynediad o'r fath well dealltwriaeth o'u salwch a bod eu triniaeth yn fwy llwyddiannus.

Y tu hwnt i'r blynyddoedd nesaf, bydd datblygiadau fel meddyginiaethau wedi'u personoli yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion unigryw, cyfansoddiad genetig a ffordd o fyw pob claf. Bydd dulliau newydd fel therapi genynnau ac imiwnotherapi yn targedu clefydau genetig a mathau o ganser.

Mae llunwyr polisi gofal iechyd yn effro i'r posibilrwydd y gall datblygiadau o'r fath greu dwy garfan, sef y rhai sydd â digon a'r rhai sydd heb ddim, ac mae angen canolbwyntio ar hyn wrth ystyried polisi yn y dyfodol. Nid yw'n amlwg a fydd y rhai sydd â digon a'r rhai sydd heb ddim yn rhannu ar draws llinellau economaidd, ynghyd â llinellau oedran neu rhwng 'pobl sy'n gyfarwydd â thechnoleg' neu ddim. Y perygl yw mai'r brodorion digidol fydd yn gallu cael mynediad i'r data ac mai'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol fydd angen cymorth arnynt neu a fydd wedi'u llethu ganddo.

Mae ymwrthedd i gyffuriau wedi dod yn broblem fyd-eang oherwydd defnydd amhriodol, neu orddefnydd o wrthfotigau mewn pobl – yn enwedig i drin heintiau nad ydynt yn cael eu hachosi gan facteria, fel annwyd a ffliw – ac mewn anifeiliaid er mwyn rheoli heintiau a chyflymu twf. Mae defnydd amhriodol yn helpu i gynyddu ymwrthedd yn y boblogaeth facteriol gan arwain at (er enghraifft) dwf yr 'archfygiau' nad oes modd eu trin.

Mae hyn wedi peri pryder bod y byd yn symud at oes ôl-gwrthfotigau lle bydd heintiau cyffredin yn lladd pobl unwaith yn rhagor ar draws economïau datblygedig (a llai datblygedig). Gallai methiant i fynd i'r afael â'r broblem arwain at 10 miliwn o farwolaethau bob blwyddyn yn fyd-eang erbyn 2050. Mae annog rhagnodi cyfrifol gan feddygon a defnydd gwybodus gan gleifion yn hollbwysig.

Mae ymchwil yn parhau ond ni all gael ei weld fel dewis arall i arfer da, er gwaethaf dau ddatblygiad cadarnhaol diweddar (llwybrau nad oedd wedi'u hadnabod yn flaenorol ar gyfer goddefiad gwrthfotigau yn E. coli a allai weithredu fel targedau ar gyfer cyffuriau newydd i drin heintiau bacteriol; a darganfod dosbarth newydd o wrthfotigau mewn pridd sy'n effeithiol yn erbyn y grŵp o facteria sy'n cynnwys MRSA).

Mae arfer da – neu, yn hytrach arfer gwael – yn broblem hysbys. Mae dadansoddiad gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 yn dangos bod o leiaf 20% o'r holl wrthfotigau a gafodd eu rhagnodi mewn gofal sylfaenol yn Lloegr yn amhriodol. Awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2017 bod yr arfer yn lleol yr un peth ag yng ngweddill y DU. Er bod y DU yn ceisio perswadio arweinwyr byd i wneud rhywbeth am hyn mae angen codi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol.

Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021⁹² yn cydnabod bod pandemig Covid-19 yn enghraifft o 'aflonyddwr' sy'n effeithio ar dueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Mae effaith y pandemig wedi arwain at drafodaethau a diddordeb o'r newydd mewn rhagweld y dyfodol ac mae wedi cael effeithiau dwys ar economïau a chymdeithasau ar draws y byd, gyda rhai amhariadau tymor byr amlwg i dueddiadau, fel y dangoswyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â phatrymau trosedd ac achosion o danau, er enghraifft. Mae'r pandemig wedi mwylhau **anghydraddoldebau** a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru, yn enwedig i'r bobl fwyaf agored i niwed, ond hefyd ar draws cymdeithas yn fwy eang. Mae'r effaith wedi bod yn anghymesur ar fenywod, pobl hŷn, pobl ifanc, pobl o grwpiau ethnig Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl â **chyflyrau iechyd gwaelodol**, pobl sy'n byw mewn tai o ansawdd gwael, a phobl sy'n gweithio mewn swyddi anffurfiol, incwm is, a gwasanaethau rheng-flaen.

Mae'n debygol y bydd y pandemig sy'n mynd rhagddo yn arwain at gyflymu rhai o'r tueddiadau presennol a chreu tueddiadau newydd o bosibl. Fodd bynnag, mae'r ffordd y bydd effaith newidiol y pandemig yn llywio tueddiadau byd-eang ac yng Nghymru yn y tymor canolig a'r tymor hir yn llawer mwy ansicr ar hyn o bryd.

Er bod amcangyfrifon yn amrywio'n sylweddol, cyn pandemig COVID-19, mae'r cynnydd yn **nisgwyliad oes** yng Nghymru yn debygol o barhau, er bod cyfradd y cynnydd wedi arafu dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwn yn nisgwyliad oes wedi'i adlewyrchu mewn cynnydd tebyg yn '**nisgwyliad oes iach**', sydd wedi lleihau ychydig yn y degawd diwethaf. Mae'r duedd hon yn cael ei hannog yn rhannol gan yr anghydraddoldebau sy'n wynebu'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n fwyaf tebygol o adrodd am achosion o iechyd gwael. Mae cysylltiad agosach rhwng **poblogaethau sy'n heneiddio** â lefelau uwch o gyflyrau iechyd cronig a salwch. Fodd bynnag, mae pobl hŷn yn tueddu i ddarparu gofal di-dâl a gwneud cyfraniadau gwerthfawr i gymunedau lleol yn nhermau gwirfoddoli a rhannu eu gwybodaeth.

Mae cyfoeth ar draws y DU, fel mewn llawer o wledydd datblygedig economaidd, wedi'i rannu'n anghyfartal. Mae'r aelwydydd cyfoethocaf yn berchen ar gyfran anghymesur o gyfanswm cyfoeth y wlad, tuedd sy'n debygol o barhau yn y dyfodol. Gyda llai o gyfoeth a llai o bobl yn ennill mwy, mae gan Gymru lefelau is o anghydraddoldeb incwm a chyfoeth nag mewn sawl rhan arall o'r DU. Er bod llawer o wledydd sy'n datblygu yn gwneud cynnydd tuag at dargedau i leihau tlodi amlddimensiwn, mae sawl gwlad yn bell o'r trywydd cywir os yw'r tueddiadau sydd wedi dod i'r amlwg yn parhau.

Mae **tlodi** yn cael effaith anferth ar debygolrwydd unigolion o gael iechyd gwael. Mae tua un o bob pump o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi (sy'n cael ei fesur ar ôl costau tai). Fodd bynnag, wrth ddefnyddio tlodi incwm cymharol fel mesur, mae lefelau tlodi ar draws Cymru wedi gostwng yn raddol ers canol yr 1990au. Mae cyfraddau tlodi ar aelwydydd Cymru lle mae unigolyn anabl yn y teulu dros 10% yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm, er bod y ganran gyffredinol wedi bod yn gostwng yn raddol. Mae pobl o leiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd Gwyn) hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, fodd bynnag mae'r gyfradd gyffredinol wedi gostwng yn sylweddol ers lefelau 2014-15. Er bod aelwydydd nad ydynt yn gweithio yn parhau i wynebu'r perygl mwyaf o dlodi, mae cyfran y bobl dlawd sy'n byw ar aelwydydd sy'n gweithio wedi cynyddu yn ystod y blynnyddoedd diwethaf wrth i lefelau cyflogaeth godi. Mae tueddiadau'r dyfodol mewn perthynas â thlodi yn ansicr a byddant yn dibynnu'n benodol ar bolisiâu lles llywodraeth y DU.

Mae **anghydraddoldebau iechyd** sylweddol yn effeithio ar fywydau pobl yn ein cymdeithas. Ers yr 1970au, mae adroddiadau lluosog wedi tynnu sylw at raddfa ac effaith y rhain ar y DU ac ar Gymru. Mae gwahaniaethau sylweddol yn nisgwyliad oes iach rhwng y bobl fwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig.

Mae dadansoddiad (yn seiliedig ar ddata 2016-2018) yn dangos mai'r **bwllch mewn disgwyliad oes** rhwng yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig oedd 9.0 blynedd i ddynion a 7.4 blynedd i fenywod. Fodd bynnag, mae'r **bwllch mewn disgwyliad oes iach** rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig hyd yn oed yn fwy, sef 18.2 blynedd ar gyfer dynion a 19.1 blynedd yn achos menywod. Gall anghydraddoldebau iechyd gael eu dyfnhau oherwydd ffactorau fel problemau iechyd meddwl, digartrefedd, ac anallu i gael mynediad at ofal iechyd.

Disgwylir y bydd y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru yn cynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn y tymor canolig i'r tymor hir. Wrth i boblogaethau heneiddio, mae'n debygol y bydd cyfran mwy o bobl yn dioddef o **gyflyrau iechyd cronig** ac aml-glefyddedd, sy'n cynyddu costau ac yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhagamcanion presennol yn amcangyfrif y bydd y gwariant ar iechyd yn cynyddu o 7.3% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) yn 2014-15 i 8.3% yn 2064-65 ac o 1.1% i 2.2% o GDP ar ofal hirdymor hyd at yr un cyfnod er mwyn ateb y galw.

Mae rhagamcanion yn dangos yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol, y bydd y gymhareb dibyniaeth henoed, sy'n rhoi brasamcan o nifer y bobl sy'n cael eu cynnal gan y boblogaeth oedran gweithio, yn gostwng yn sylweddol dros amser tan 2037. Mae hyn yn golygu bod nifer y rhai sy'n fwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus yn cynyddu yn gymharol i nifer y bobl sy'n weithgar yn economaidd sy'n gallu darparu refeniw trethiant.

4.13 Casgliad

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a'r data a gyflwynir yn yr Asesiad hwn bod anghydraddoldebau iechyd mawr ar draws Gwent. Mae disgwyliad bywyd mewn rhai ardaloedd (fel Blaenau Gwent) yn gyson yn waeth, mae yno fwy o salwch, a mwy o achosion o ymddygiad afiach. Mae hyn yn cyfateb ag amddifadedd cymdeithasol-economaidd, oherwydd yn ardal fwy cyfoethog Sir Fynwy, mae disgwyliad oes ac iechyd yn gyffredinol yn well. Fodd bynnag, mewn rhai pocedi yng Ngwent, mae problemau iechyd sylweddol.

Mae llai o bobl wedi bod yn ceisio cymorth mewn perthynas â materion iechyd fel canser oherwydd y pandemig, ac mae'n debygol y bydd cofrestriadau canser yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf, ac y bydd pobl yn fwy tebygol o gael diagnosis ar gam hwyrach.

Yn gyffredinol, mae tueddiadau diweddar yn iechyd a datblygiad babanod a phlant yn gadarnhaol ac mae'n ymddangos eu bod yn ymateb i ymyriadau cynyddol sy'n targedu'r adran hon o'r gymdeithas, fel Dechrau'n Deg. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar bobl ifanc o ran eu datblygiad, felly bydd angen mwy o gamau wedi'u targedu i wyrdroi hyn.

Bydd ffyrdd o fyw iach a lleihau ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd (fel ysmygu, yfed, bod dros bwysau a ffordd o fyw eisteddog) yn helpu i sicrhau bod disgwyliad oes iach yn gwella yn y boblogaeth. Disgrifiwyd diabetes fel 'bom yn tician' gan nad yw unigolion yn sylweddoli eu bod o bosibl yn byw gyda'r cyflwr.

Mae iechyd meddwl gwael ac unigrwydd yn broblemau sy'n effeithio ar sawl grŵp yn y boblogaeth yng Ngwent, yn hen ac ifanc, ac mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y problemau hyn, sy'n debygol o barhau am flynyddoedd i ddod. Mae nifer o dueddiadau a heriau yn wynebu ein poblogaeth yn y dyfodol, yn enwedig ynghylch anghydraddoldebau iechyd rhwng cymunedau gwahanol Gwent, yr heriau a ddaw wrth i'r boblogaeth heneiddio ac effaith bosibl y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'r angen i gofleidio technolegau newydd i alluogi ein poblogaeth i gymryd mwy o ran yn eu gofal iechyd. Mae'r rhain oll yn heriau yng Ngwent y bydd yn rhaid i ni roi sylw iddynt yn y dyfodol.

5 Tai

5.1 Cyflwyniad i dai

Mae cartref diogel, cynnes sy'n cael ei gynnal yn dda yn rhan hanfodol o fywydau pobl – mae'n effeithio ar eu hiechyd, eu hansawdd bywyd a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae tai da yn hanfodol ar gyfer llesiant. Mae ansawdd tai ar draws pob math o ddeiliadaeth yn bwysig, yn ogystal â gallu aelwydydd i gael incwm digonol i sicrhau nad yw pobl yn byw mewn tldi tanwydd yn eu cartrefi, a'u bod yn gallu fforddio cynhesu eu cartrefi, yn enwedig yn ystod misoedd oer y gaeaf.

Mae tai yn ganolog i'n cymunedau hefyd, ac maent yn gyrru'r galw am wasanaethau lleol, siopau a chyfleusterau ac yn denu buddsoddiad allanol. Heb gartref sefydlog gall pobl gael trafferth cael mynediad at waith, addysg, hyfforddiant a gwasanaethau ieuchyd.

Mae pob datblygiad, gan gynnwys tai, yn cael effaith ar yr amgylchedd ac mae angen i'r gwaith gael ei wneud mewn ffordd sy'n sensitif i ardaloedd lleol, yn cyfyngu ar y defnydd o egni ac yn cofleidio dull cynaliadwy o gynllunio a dylunio.

Yng Nghymru, mae cynllunio yn golygu gwneud penderfyniadau am ddyfodol ein dinasoedd, trefi a chefn gwlad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cydbwysu'r awydd i ddatblygu ardaloedd lle rydym yn byw ac yn gweithio â'r angen i sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar bawb arall a'r amgylchedd o'n cwmplas. Mae'n cynnwys ystyried anghenion cynaliadwy cymunedau'r dyfodol. Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn cynnwys dau brif lefel o gynlluniau sy'n nodi beth gellir ei adeiladu ac ymhle, sef Cynllun Gofodol Cymru a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau). Mae'r CDLlau, ynghyd â Chynllun Gofodol Cymru, yn pennu sut bydd y system gynllunio yn helpu i lunio'r holl gymunedau yng Nghymru⁹³.

Mae cael rhywle diogel i fyw yn hanfodol i lesiant. Mae stoc tai Gwent yn amrywiol iawn, o adeiladau newydd, hen adeiladau llai traddodiadol, tai teras nodweddiadol y cymoedd a chartrefi hanesyddol â statws rhestredig.


Un her allweddol yw sicrhau bod cyflenwad digonol o dai o ansawdd da ar gael yn y lleoliad cywir, gan gynnwys tai fforddiadwy, i fodloni anghenion ein cymunedau. Rydym yn gwybod fod y boblogaeth yn heneiddio – rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a throsodd sy'n byw yng Ngwent yn cynyddu 74% rhwng 2019 a 2043, cyfradd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (69.5%). Gallai hyn olygu 10,615 yn ychwanegol o bobl yn yr ystod oedran hon yng Ngwent⁹⁴. Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu heddiw yn gadael gwaddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn byw yng Ngwent.

5.2 Amddifadedd tai

Mae maes tai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cynnwys dangosyddion ar gyfer pobl sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn a thai o ansawdd gwael (sy'n mesur y tebygolrwydd y bydd y tai mewn cyflwr gwael, neu'n cynnwys peryglon difrifol, er enghraifft perygl o gwympiadau neu dai oer).

Diben y maes tai yw nodi tai annigonol, yn nhermau'r amodau ffisegol, yr amodau byw a'u hargaeledd. Mae amodau byw yn golygu pa mor addas yw'r tai ar gyfer y preswlydd/preswylwyr, er enghraifft, o safbwynt ieuchyd a diogelwch ac addasiadau angenrheidiol. Nid oes disgwyl bob amser y bydd cydberthynas amlwg rhwng mesurau amddifadedd tai ag amddifadedd cyffredinol. Fodd bynnag, gall effaith gyfansawdd tai gwael ynghyd ag elfennau eraill o amddifadedd (fel ieuchyd) fod yn arwyddocaol ac mae'n bwysig casglu'r data hwn.

Ffigur S76: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 Maes Tai ACEHI yng Ngwent



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur S76 yn dangos lleoliad yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o safbwynt tai yng Ngwent. Mae patrwm amddifadedd tai ar draws Gwent yn eithaf anghyfartal, er enghraifft, mae'r map yn dangos bod rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran tai wedi'u clystyru o amgylch canol dinas Casnewydd, lle mae 12 ACEHI sydd yng nghategori'r 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Victoria 3 yw'r ACEHI fwyaf difreintiedig yn nhermau tai yng Ngwent a'r ACEHI sydd yn y 10fed safle mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae amddifadedd tai yn amlwg hefyd yn rhai o ardaloedd mwy gwledig Sir Fynwy, lle mae categorïau o amddifadedd eraill yn tueddu i fod yn isel yn gyffredinol.

Mae Ffigur S77 yn dangos data MALIC 2019 ar lefel awdurdod lleol ac mae'n dangos crynodiad yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngwent yn y maes tai. Mae hyn yn dangos mai ym Mlaenau Gwent (61.7%) mae'r crynodiad uchaf o ardaloedd sydd ymhlith y 50% ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda Chaerffili yn yr ail safle (55.5%).

Ffigur S77: Canran yr ACEHlau ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y categorïau 10%, 20%, 30% a 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn gyffredinol

MALIC 2019 Ardaloedd difreintiedig y Maes Tai, yn ôl awdurdod lleol					
	Cyfanswm yr ACEHlau	ACEHlau 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 191)	ACEHlau 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 382)	ACEHlau 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 573)	ACEHlau 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 955)
Caerffili	110	3.6%	12.7%	24.5%	55.5%
Blaenau Gwent	47	10.6%	27.7%	40.4%	61.7%
Torfaen	60	0.0%	13.3%	23.3%	38.3%
Sir Fynwy	56	1.8%	10.7%	17.9%	35.7%

Casnewydd	95	12.6%	25.3%	27.4%	37.9%
-----------	----	-------	-------	-------	-------


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

5.3 Aelwydydd

Ar draws Gwent amcangyfrifwyd bod 256,700 o aelwydydd yn 2020⁹⁵. Caerffili oedd â'r nifer mwyaf (77,242) a Blaenau Gwent oedd â'r lleiaf (31,371). Mae rhagamcanion yn dangos bod nifer yr aelwydydd yn tyfu ar draws pob ardal yng Ngwent, ond yn benodol yng Nghasnewydd, lle mae disgwyl y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu 19% erbyn 2043⁹⁶.

Ar draws Gwent yn gyffredinol, y math mwyaf cyffredin o aelwyd yw dau oedolyn a dim plant, ac yna aelwydydd sengl. Mae Blaenau Gwent a Chasnewydd yn wahanol i ardaloedd eraill gan mai aelwydydd sengl yw'r rhai mwyaf cyffredin yn yr ardaloedd hyn⁹⁷.

Figur S78: Mathau o aelwydydd a llety



Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2011 KS401EW

Mae Ffigur S78 yn dangos mai tai teras oedd y rhai mwyaf cyffredin yn awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd yn ôl cyfrifiad 2011. Tai pêr oedd y math mwyaf cyffredin yng Nghaerffili a thai ar wahân oedd y math mwyaf cyffredin yn Sir Fynwy.

Blaenau Gwent oedd â'r gyfran fwyaf o aelwydydd (4.8%) heb breswylwyr yng nghyfrifiad 2011, ac roedd y gyfran leiaf yng Nghaerffili (3.6%).

Er y cydnabyddir bod y ffigyrau hyn bellach wedi dyddio cryn dipyn, dyma'r data gorau sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau cyfrifiad 2021 ar gael yn 2022 a 2023.

5.4 Deiliadaeth tai

Mae amcangyfrifon am stoc eiddo o fis Mawrth 2020⁹⁸ yn dangos y mathau gwahanol o ddeiliadaeth ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent. Er bod Caerffili wedi cadw ei stoc tai awdurdod lleol, mae ardaloedd eraill yng Ngwent wedi trosglwyddo eu stoc tai i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Ffigur S79: Amcangyfrifon o'r stoc tai yn ôl awdurdodau lleol yng Ngwent

	Awdurdod Lleol	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Ym meddiant y perchennog	Yn cael ei rhentu'n breifat
Blaenau Gwent	0%	24%	62%	14%
Caerffili	13%	5%	69%	12%
Sir Fynwy	0%	13%	76%	11%
Casnewydd	0%	19%	66%	15%
Torfaen	0%	24%	67%	9%
Cymru	6%	10%	70%	14%

Ffynhonnell: StatsCymru

Mae Ffigur S79 yn dangos mai yn Sir Fynwy mae'r gyfran fwyaf o eiddo sydd ym meddiant y perchennog, ac ym Mlaenau Gwent a Thorfaen mae'r gyfran fwyaf o eiddo sy'n cael eu rhentu gan gymdeithas dai neu landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae cyfran mwy o eiddo yn cael eu rhentu gan landlordiaid preifat yng Nghasnewydd nag yn yr awdurdodau lleol eraill.

Dylai tai cymdeithasol gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) fel y nodir gan Lywodraeth Cymru. O blith y stoc tai sy'n eiddo i'r gwahanol landlordiaid cymdeithasol yng Ngwent, ar ddiwedd 2019 roedd 75% o'r stoc tai yn cydymffurfio'n llwyr, roedd 24% yn cydymffurfio, yn amodol ar rai methiannau derbynol, ond doedd 1% ddim yn cydymffurfio. Mae hyn yn eithaf tebyg i'r ffigurau cyfartalog ar draws Cymru⁹⁹.

Mae sicrhau bod y stoc tai yng Ngwent yn bodloni anghenion y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol yn hollbwysig ar gyfer llesiant. Mae hyn yn golygu ystyried y cymysgedd cywir o dai, er enghraifft, mae'r sector rhentu preifat yn tyfu yng Nghymru ac mae'n sector hollbwysig wrth ddarparu tai i bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at dai cymdeithasol na phrynu eu tai eu hunain¹⁰⁰.

Mae darparu tai addas i fodloni anghenion y boblogaeth yng Ngwent, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at lety addas sy'n bodloni eu hanghenion, ac nid ydynt yn byw mewn llety anaddas neu mae'n rhaid iddynt symud o'u cymunedau i gael mynediad at dai mwy addas. Bydd cynllunio ar gyfer llety hyblyg, y gellir ei addasu ac sy'n briodol ar draws oes yr unigolyn yn gwella llesiant pobl hŷn a phobl ag anableddau a'u galluogi i fyw yn annibynnol yn eu cartref.

Mae un datblygiad polisi cymdeithasol allweddol wedi cael ei achosi gan ddiwygio lles, sef cymhorthdal yr ystafell wag, neu 'dreth yr ystafell wely'. Mae hyn wedi cyfyngu ar faint o fudd-dal tai sydd ar gael i rai tenantiaid sy'n byw mewn eiddo lle mae ganddynt ystafell wely wag. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw am eiddo un a dwy ystafell wely ac mae'n debygol o fod yn broblem mewn ardaloedd lle mae lefelau tenantiaethau uchel ac aelwydydd llai o faint.

Mae data o gyfrifiad 2011 yn dangos mai yn Sir Fynwy mae'r gyfran fwyaf o aelwydydd heb wres canolog yng Ngwent. Mae mwy o aelwydydd yng Nghasnewydd yn debygol o fod yn orlawn, o ystyried nifer yr ystafelloedd sydd ar gael a chyfansoddiad yr aelwyd¹⁰¹.

5.5 Fforddiadwyedd

Ar draws Gwent, mae prisiau tai wedi codi'n gyson dros y 5 mlynedd diwethaf.

Ffigur S80: Pris cyfartalog tai a werthwyd yn awdurdodau lleol Gwent, 2016 – 2020

	2016	2017	2018	2019	2020	Newid 5 mlynedd (%)
Blaenau Gwent	£94,515	£99,484	£100,645	£108,869	£109,498	15.9
Caerffili	£132,835	£140,499	£145,032	£152,700	£159,854	20.3
Sir Fynwy	£250,352	£261,301	£281,746	£289,994	£312,219	24.7
Casnewydd	£176,477	£179,606	£189,544	£201,713	£211,593	19.9
Torfaen	£147,761	£154,123	£171,629	£174,491	£180,052	21.9

Ffynhonnell: Cofrestr Tir EM

Mae cyferbynnu'r ffigyrau hyn â'r cyflog cyfartalog yn y rhanbarth yn golygu bod modd cyfrifo cymhareb pris tai: incwm¹⁰²:

Tâl cyfartalog blynyddol	Tâl cyfartalog blynyddol ar draws Gwent yn ystod 2020 ¹⁰³ .	
£	Ardal	Tâl cyfartalog blynyddol (gros)
	Blaenau Gwent	£28,531
	Caerffili	£31,550
	Sir Fynwy	£41,285
	Casnewydd	£32,187
	Torfaen	£33,405

Cymhareb pris tai: incwm	Ardal	Cymhareb pris tai: incwm
	Blaenau Gwent	3.8
	Caerffili	5.1
	Sir Fynwy	7.6
	Casnewydd	6.6
	Torfaen	5.4

Mae gwahaniaethau mawr yn y gymhareb pris tai: incwm ar draws Gwent. Byddai'n rhaid i unigolyn sy'n prynu tŷ ar ei ben ei hun wario 7.6 gwaith ei gyflog yn Sir Fynwy a 3.8 gwaith ei gyflog ym Mlaenau Gwent er mwyn gallu prynu eiddo¹⁰⁴. Mae hyn yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o bobl sengl ac

aelwydydd incwm isel ar draws Gwent yn cael trafferth prynu, yn seiliedig ar yr hyn maent yn ei ennill yn unig. Felly, mae cael digon o dai cymdeithasol yn dod yn bwysicach nag erioed, yn enwedig ar gyfer aelwydydd incwm isel.

Mae tai fforddiadwy yn bwysig ar gyfer llesiant. Gall y bwlch rhwng prisiau tai a chyflogau ei gwneud yn anodd i bobl sy'n ceisio cael lle yn y farchnad dai am y tro cyntaf, yn enwedig pobl ar gyflogau isel neu rai heb arian wrth gefn i dalu blaendal mawr. Mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos yr unedau o dai fforddiadwy a adeiladwyd yn 2019-20, a'r niferoedd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21¹⁰⁵.

Ffigur S81: Unedau tai fforddiadwy a adeiladwyd ac sydd wedi'u cynllunio yn awdurdodau lleol Gwent

	2019-20 wedi'u darparu	2020-21 wedi'u cynllunio
Caerffili	126	86
Blaenau Gwent	12	138
Torfaen	141	74
Sir Fynwy	113	165
Casnewydd	239	232

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r cyfanswm ar gyfer Gwent yn 2019-20 yn cynrychioli 21% o gyfanswm Cymru, ac mae'r unedau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21 yn cyfrif am 17% o gyfanswm Cymru. Cafodd yr unedau a adeiladwyd yn 2019-20 ar draws Gwent eu darparu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac eithrio yng Nghaerffili, lle cafodd 9 o'r 126 uned eu darparu gan yr awdurdod lleol¹⁰⁶. Ar draws Cymru, cafodd 62% o unedau tai fforddiadwy eu darparu gyda chymorth grant cyfalaf – roedd y ganran yr un peth yng Ngwent ond roedd yn amrywio o 46% yn Sir Fynwy i 86% yng Nghasnewydd¹⁰⁷.

5.6 Tlodi tanwydd

Gall aelwydydd incwm isel wario swm anghymesur o'u hincwm wrth wresogi eu cartrefi. Mae pobl sy'n byw mewn tai sydd wedi'u hynysu'n wael a/neu wedi'u gwresogi'n wael hefyd o bosibl yn talu costau ynni uwch. Rydym yn gwybod fod lefelau uchel o dlodi tanwydd mewn sawl ardal ar draws Gwent, ac mae'r cynnydd yng nghostau ynni yn ychwanegu at y broblem hon. Yn benodol, mae cynnydd mawr wedi bod yn y costau hyn yn ystod 2021 a 2022.

Ystyrir bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os nad yw'n gallu cadw'r cartref yn gynnes ar gost resymol. Yng Nghymru, mae hyn yn cael ei fesur fel unrhyw aelwyd a fyddai'n gorfod gwario mwy na 10% o'i incwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol. Mae unrhyw aelwyd sy'n gorfod gwario dros 20% yn cael ei hystyried yn un sy'n dioddef o dlodi tanwydd difrifol. Diffinnir aelwydydd agored i niwed fel rhai lle mae unigolyn 60 oed neu throsodd, neu blentyn neu unigolyn ifanc o dan 16 oed a/neu unigolyn anabl neu sydd â chyflwr hirdymor cyfyngol yn byw¹⁰⁸. Diffinnir aelwydydd sydd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd fel y rheini sy'n gorfod talu mwy nag 8%, ond llai na 10% o'u hincwm i gynnal trefn wresogi foddhaol. Aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd parhaus yw'r rheini sydd wedi gorfod talu mwy na 10% o'u hincwm llawn i gynnal trefn wresogi foddhaol yn ystod dwy o'r tair blynedd flaenorol¹⁰⁹.

Mae rhai o brif ganlyniadau Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd Cymru 2018 yn dangos y canlynol:

- roedd aelwydydd yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o fod yn dlawd o safbwynt tanwydd, ac roedd 20% o'r aelwydydd hyn yn byw mewn tlodi tanwydd

- credir bod byw mewn amgylchedd oer a llaith yn gwaethygu problemau iechyd fel asthma a chyflyrau'r galon, ac roedd 11% o'r holl aelwydydd agored i niwed lle roedd y mathau hyn o breswylwyr yn byw mewn tldi tanwydd
- roedd 50% o'r rhai oedd yn byw mewn tldi tanwydd yn aelwydydd sengl heb blant
- mae aelwydydd sy'n byw mewn eiddo hŷn yn fwy tebygol o fyw mewn tldi tanwydd, ac mae 20% o aelwydydd sy'n byw mewn tai a adeiladwyd cyn-1919 yn byw mewn tldi tanwydd
- roedd 21% o aelwydydd a oedd yn byw mewn eiddo gyda waliau solet heb eu hynysu byd mewn tldi tanwydd ac roedd 39% o bobl a oedd yn byw mewn eiddo heb wres canolog yn byw mewn tldi tanwydd
- roedd 43% o aelwydydd yn byw mewn eiddo lle'r oedd effeithlonrwydd ynni yn wael (Bandiau F a G EPC) yn byw mewn tldi tanwydd o'i gymharu â 5% o aelwydydd a oedd yn byw mewn eiddo ym mandiau B i C

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith modelu¹¹⁰ i amcangyfrif tldi tanwydd ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Mae Ffigur S82 yn dangos yr amcangyfrifon ar gyfer tldi tanwydd yn ardaloedd awdurdodau lleol Gwent. Mae hyn yn amrywio o 8% yn Nhorfaen i 11% ym Mlaenau Gwent, er bod pob un yn is na ffigur cyfartalog Cymru sef 12%. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y ffigyrau hyn ar lefel awdurdod lleol yn cuddio pocedi o tldi tanwydd mewn ardaloedd llai, yn benodol yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ar draws Gwent, a sefyllfaoedd lle mae aelwydydd yn dibynnu ar danwydd ansafonol (e.e. nid oes ganddynt gysylltiad â phrif gyflenwad nwy) i fodloni anghenion yr aelwyd.

Ffigur S82: Aelwydydd sy'n byw mewn tldi tanwydd yn ôl awdurdod lleol yng Ngwent, 2018

	Pob aelwyd	Aelwydydd mewn tldi tanwydd	Canran yr aelwydydd mewn tldi tanwydd
Caerffili	77,000	7,000	9%
Blaenau Gwent	31,000	3,000	11%
Torfaen	40,000	3,000	8%
Sir Fynwy	39,000	4,000	10%
Casnewydd	63,000	6,000	9%

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Er y gallai'r rhagolygon ar gyfer gaeafau mwynach yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd helpu i leihau tldi tanwydd, rydym yn gwybod fod effeithlonrwydd thermol llawer o'n stoc tai yn wael a'u bod yn fwy drud i'w gwresogi mewn tywydd oer, neu i'w hoeri mewn tywydd poeth. Yn ôl Asesiad Risg Hinsawdd y DU 2017 disgwylir y bydd oerfel yn parhau yn ffactor allweddol sy'n achosi marwolaethau¹¹¹.

5.7 Digartrefedd


Digartrefedd yw pan na fydd gan unigolyn lety, neu pan nad yw ei ddeiliadaeth yn gadarn. Cysgu ar y stryd yw pegwn eithaf a mwyaf gweledol y sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys pawb sydd heb lety, nad yw'n gallu cael mynediad at ei lety neu lle nad yw'n rhesymol iddo barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, cysgu ar soffa, dioddefwyr camdriniaeth a sawl sefyllfa arall. Mae unigolyn yn ddigartref hefyd os yw ei gartref yn adeiladwaith symudol ac nid oes unrhyw le y gall osod yr adeiladwaith hwnnw.

Gall digartrefedd, neu'r perygl o ddigartrefedd, gael effaith ddinistriol ar unigolion a'u teuluoedd. Mae'n effeithio ar iechyd corfforol a meddwl a llesiant pobl, ac ar ddatblygiad ac addysg plant, ac mae perygl y bydd sefyllfa'r unigolion hyn yn gwaethygu ac y byddant yn wynebu digartrefedd mwy difrifol. Gall yr effeithiau fod yn arbennig o ddinistriol os nad oes modd cael ateb sefydlog, fforddiadwy, ac mae'n rhaid i bobl symud yn aml.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ystadegau swyddogol ar y ddarpariaeth ddigartrefedd statudol rhwng mis Ebrill a mis Mawrth 2021 yng Nghymru¹¹². Wrth i'r pandemig barhau ac mae costau byw yn cynyddu bydd hyn yn parhau i effeithio ar bobl yn ogystal â'r ddarpariaeth gwasanaeth, ac mae gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o barhau i wynebu heriau digartrefedd cynyddol yn y misoedd i ddod. Bydd angen cynnal asesiad pellach o effaith pandemig Covid-19 ar ddigartrefedd.

Yn ei dermau mwyaf eang, ystyr 'atal digartrefedd' yw pan fydd awdurdod lleol yn cymryd camau cadarnhaol i ddarparu cymorth tai i rywun y mae'r awdurdod yn ystyried sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref cyn pen 56 diwrnod. Mae canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent wedi'i ddangos yn Ffigur S83¹¹³.

Ffigur S83: Aelwydydd y gwnaeth awdurdodau lleol yng Ngwent eu hatal rhag mynd yn ddigartref, 2016/17 – 2020/21



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2020-21, cafodd 3,729 o aelwydydd eu rhoi mewn llety dros dro ar draws Cymru. Mae hyn yn gynydd o 60% ers 31 Mawrth 2020, a dyma'r nifer mwyaf a gofnodwyd ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth bresennol ym mis Ebrill 2015. Ers dechrau pandemig Covid-19 mae'r dull gweithredu mewn perthynas â digartrefedd wedi cael ei drawsnewid, yn sgil cyflwyno ymagwedd 'cynnwys pawb', sydd wedi arwain at helpu llawer o aelwydydd i ddod o hyd i lety dros dro mewn argyfwng. Mae'n debygol bod ffigur 2020-21 o ganlyniad i'r newidiadau hyn, yn ogystal â'r cynnydd mewn cyllid i sicrhau bod pawb y mae angen help arnynt yn gallu cael mynediad at lety addas, er mwyn eu cadw'n ddiogel a glynu at ganllawiau iechyd cyhoeddus¹¹⁴.

Gwnaeth nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro gynyddu yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2019-20 a 2020-21. Roedd cynnydd yn nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro ym mhob un o ardaloedd Gwent yn ystod y cyfnod hwn, a gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Nghasnewydd, Sir Fynwy a Chaerffili.

Mae Ffigur S84 yn dangos nifer yr aelwydydd digartrefedd a oedd mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2021 fel cyfradd am bob 10,000 o aelwydydd yn awdurdodau lleol Gwent. Ar draws Gwent, Casnewydd oedd â'r nifer mwyaf o aelwydydd mewn llety dros dro (346) a'r gyfradd fwyaf (52.0 achos

am bob 10,000 o aelwydydd,) a Blaenau Gwent oedd yr ardal gyda'r nifer lleiaf o aelwydydd mewn llety dros dro (38) a'r gyfradd isaf (12.1)¹¹⁵.

Ffigur S84: Aelwydydd digartref mewn llety dros dro yn awdurdodau lleol Gwent ar 31 Mawrth 2021

	Nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2021	2020 Amcangyfrif aelwydydd canol blwyddyn	Cyfradd am bob 10,000 o aelwydydd
Blaenau Gwent	38	31,371	12.1
Caerffili	224	77,242	29.0
Sir Fynwy	131	40,712	32.2
Casnewydd	346	66,543	52.0
Torfaen	88	40,813	21.6

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Yn ystod y pandemig, gwelwyd cynnydd yn y galw am lety i bobl ddigartref yn unol â newidiadau i'r canllawiau i roi cymorth i'r digartref yn ystod y pandemig. Mae angen cynnal asesiad pellach o effaith y pandemig ar ddigartrefedd yng Ngwent ac ystyried bwriadau polisi'r dyfodol wrth i ni ddechrau adfer ar ôl y pandemig.

5.8 Tueddiadau a heriau'r dyfodol

Bydd angen darparu stoc tai sy'n bodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol fydd yn byw yng Ngwent. Rydym yn gwybod fod gan Gwent boblogaeth sy'n heneiddio, er enghraifft, a bod tai fforddiadwy yn broblem i lawer o bobl. Rydym hefyd yn gwybod fod llawer o heriau yn gysylltiedig â datgarboneiddio tai. Bydd angen i dai fod yn gydnherth i wynebu hinsawdd sy'n newid hefyd.

Mae effeithlonrwydd thermol llawer o stoc tai Gwent yn wael ac mae'r tai yn fwy anodd ac yn fwy costus i'w gwresogi mewn tywydd oer neu eu hoeri mewn tywydd poeth¹¹⁶. Er y gall gaeafau mwynach sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd helpu i leihau tldi tanwydd, mae Asesiad Risg Hinsawdd y DU yn nodi bod risgiau i iechyd a llesiant yn sgil tymereddau uwch. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y risg i dai presennol a'r dyfodol yng Nghymru yn anhysbys¹¹⁷.

Nodwyd bod egni a'r amgylchedd yn sector blaenoriaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r potensial i greu ffyniant yn y rhanbarth dros y 10 – 20 mlynedd nesaf¹¹⁸. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd yn gysylltiedig â datgarboneiddio stoc tai'r rhanbarth, gyda'r potensial i greu swyddi lleol a chynhyrchu mwy o egni adnewyddadwy yn lleol.

Nododd astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd ar gyfer Gwent¹¹⁹ fod gan y gwynt y potensial i gynhyrchu digon o drydan i bweru dros 300,000 o gartrefi, ac y gallai paneli solar ar y ddaear gynhyrchu digon o drydan i bweru'r hyn sy'n cyfateb i dros 4 miliwn o dai. Er bod potensial sylweddol i gynhyrchu egni adnewyddadwy yn y rhanbarth, mae pwysau a galwadau eraill ar y tir sydd ar gael a'r gwasanaethau gwerthfawr y mae'n ei gyfrannu i'n llesiant, gan gynnwys tai a chefnogi bioamrywiaeth. Bydd angen ystyried pob un o'r rhain a'u gwerthuso i sicrhau bod y dewisiadau mwyaf addas ar gyfer llesiant yn cael eu dewis.

Gall llifogydd gael bob math o ganlyniadau ac effeithiau, nid yn unig ar lesiant ond ar ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Gall llifogydd gael effaith sylweddol ar dai, busnesau, seilwaith allweddol a chymunedau cyfan. Bydd angen asesiad pellach o'r perygl llifogydd yng Ngwent ac mae eiddo preswyl sydd mewn perygl wedi'u nodi yn adran Amgylchedd yr Asesiad Llesiant hwn.

Fel y nodwyd yn 2017, roedd yr angen am dai yng Nghymru yn tyfu, oherwydd bod nifer yr aelwydydd yn cynyddu'n gynt na'r nifer o eiddo oedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd sengl yn cynyddu dros 30% yn yr 20 mlynedd nesaf. Er gwaethaf hyn, mae'n debygol y bydd llai o dir addas ar gael i ddatblygu, wrth i orlifdiroedd a thiroedd isel eraill ddod yn fwy tebygol o ddioddef llifogydd¹²⁰.

Mae'r cynnydd diweddar mewn prisiau tai yn debygol o waethygu'r broblem i brynwyr sy'n ceisio prynu tŷ am y tro cyntaf ac atal rhai pobl rhag byw yn yr ardaloedd lle cawsant eu magu neu lle maent yn gweithio ar hyn o bryd.

6 Trafnidiaeth

6.1 Cyflwyniad i dtrafnidiaeth

Mae'r adran hon yn sôn am dtrafnidiaeth yng Ngwent – sut mae pobl yn teithio, ble maent yn teithio ac amseroedd teithio.

Mae Gwent mewn lleoliad strategol fel porth i Dde Cymru ac yn cynnig llwybrau ar hyd ffyrdd, rheilffyrdd, llwybrau beicio a cherdded i lawer o'r lleoliadau ac atyniadau mae pobl yn dymuno ymweld â nhw ar gyfer busnes neu bleser. Mae nifer o ddewisiadau teithio yn yr ardal, gan gynnwys dwy Bont Hafren sy'n cynnig cysylltiadau uniongyrchol â Lloegr a thu hwnt, ffordd Blaenau'r Cymoedd sydd wedi cael ei gwella'n ddiweddar, sy'n cysylltu cymunedau o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, llwybr Clawdd Offa, a llwybr cenedlaethol yr arfordir, yn ogystal â hawliau tramwy lleol a llwybrau beicio cenedlaethol, yn galluogi pobl i fwynhau'r ardaloedd cefn gwlad godidog yn y rhanbarth.

Mae cysylltiadau trafndiaeth da yn hanfodol i'r economi leol, ac yn ei gwneud yn bosibl i'r nwyddau, gwasanaethau a'r deunyddiau crai rydym yn dibynnu arnynt fod ar gael lle bynnag a phryd bynnag mae eu hangen arnom. Mae gallu symud o amgylch yn hawdd yn chwarae rhan bwysig ym mywydau beunyddiol pobl, cario plant i'r ysgol a phobl i'r gwaith, yn ogystal â chysylltu ffrindiau a theuluoedd. Mae hefyd yn galluogi pobl i ymweld â'r ardaloedd cefn gwlad i hamddena, ymweld ag atyniadau hanesyddol a diwylliannol, ac i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan helpu pobl i gadw'n iach a bod yn weithgar yn gorfforol.

Rydym yn gwybod y gall teithio llesol helpu poblogaeth sy'n heneiddio i gadw'n iachach am gyfnod hirach, a bod cael mynediad at dtrafnidiaeth a fforddiadwyedd yn broblem i rannau o'n cymunedau. Rydym yn gwybod y gall diffyg trafndiaeth, cost gymharol uchel, hygyrchedd a phryderon yn ymwneud â diogelwch atal pobl rhag manteisio ar gyfleoedd gwaith neu addysg a gweithgareddau diwylliannol.

Mae llawer o'n dulliau trafndiaeth presennol yn cael effaith negyddol ar ein hamgylchedd ac ar iechyd pobl, yn newid ein hinsawdd ac yn creu mwy o lygredd, a bydd angen i ni ystyried ffyrdd gwahanol o fodloni ein hanghenion teithio yn y dyfodol. Rydym wedi gweld sut gall digwyddiadau tywydd eithafol amharu ar ein systemau trafndiaeth felly bydd angen i'n dulliau yn y dyfodol fod yn gydnerth er mwyn ymateb i hinsawdd sy'n newid.

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni nad oes yn rhaid i ni deithio bob amser, ac y gellir gwneud rhai pethau o bell gan ddefnyddio technoleg ddigidol, er nad yw hyn yn opsiwn i rai aelodau o'n cymuned. Mae datblygiadau technolegol ym maes trafndiaeth yn mynd rhagddynt hefyd ac yn debygol o lywio'r ffordd bydd cenedlaethau'r dyfodol yn symud.

6.2 Seilwaith trafndiaeth

Mae'n bosibl na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn teithio cymaint nag mor bell i weithio, wrth i fwy o gyfleoedd gwaith lleol a chysylltedd digidol alluogi pobl i weithio mewn ffordd wahanol.

Fodd bynnag, fel mae'r pandemig wedi dangos i ni, mae teithio yn bwysig o hyd i lawer o sectorau a swyddi, a bydd angen i bobl deithio ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal, prynu bwyd a nwyddau eraill yn y siopau, yn ogystal â gweld ffrindiau ac anwyliad. Felly, bydd gwella'r seilwaith trafndiaeth (yn benodol dulliau trafndiaeth gynaliadwy) ar draws y rhanbarth yn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol sy'n byw yng Ngwent gael mynediad at gyfleoedd gwaith, hamdden a phob math o ryngweithio cymdeithasol.

Bydd gallu teithio'n hawdd, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy hefyd yn helpu i leihau'r teimlad o fod yn ynysig ac yn lleddfu'r teimladau o unigrwydd sydd wedi bod yn thema gyffredin yn ein gwaith ymgysylltu, ac sy'n effeithio fwyaf ar yr hen, yr ifanc a'r llai abl.


Mae cynllunio trafndiaeth yn rhan allweddol o unrhyw waith datblygu yn ardal Gwent yn y dyfodol. Mae ganddo'r potensial i annog ail-leoli ein siopau, swyddfeydd, ysbytai, ysgolion, ac ati, yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd unwaith yn rhagor gan symud i ffwrdd o leoliadau y 'tu allan i'r dref' sy'n dibynnu ar geir. Gyda gwell mynediad at drafndiaeth fforddiadwy a dibynadwy, mae pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau a gwasanaethau lleol gan ddod â budd i'r economi leol a rhanbarthol¹²¹.

6.2.1 Seilwaith trafndiaeth rhanbarthol

Traffordd yr M4 yw'r prif lwybr ffordd rhanbarthol ar hyd coridor y gorllewin i'r dwyrain, yn cysylltu Gwent â Chaerdydd, Bryste a Gorllewin Lloegr, ac Abertawe ac ardaloedd gwyliau ar arfordir gorllewin Cymru. Sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru i ymchwilio i ffyrdd cynaliadwy o fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn y rhanbarth. Daeth i'r casgliad fod angen dewisiadau trafndiaeth newydd sylweddol, ac yn hytrach nag adeiladu ffyrdd traddodiadol roedd yn argymhell 'rhwydwaith o ddewisiadau amgen', gan gynnwys rhai y gellir eu darparu drwy addasu'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd presennol¹²². Mae'r argymhellion yn ategu cynlluniau presennol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR), sy'n canolbwyntio ar gysylltedd a chydlyniant y seilwaith trafndiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, gyda buddsoddiad sylweddol ym Metro De Cymru¹²³. Bydd hyn yn darparu rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig, yn canolbwyntio'n bennaf ar deithio o'r gogledd i'r de rhwng y Cymoedd a Chaerdydd, yn cysylltu rheilffyrdd a bysiau, gan ei gwneud yn haws teithio ar draws y rhanbarth (gan gynnwys Gwent) ar drafndiaeth gyhoeddus gyflymach, amlach a mwy cysylltiedig, a rhoi dewis amgen i bobl yn hytrach na defnyddio trafndiaeth breifat.

Ffigur S85: Map rheilffyrdd Metro De Cymru

Gorsafoddd Metro Metro Stations



Metro

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru

Bydd datblygu'r system Metro hefyd o fudd i'r economi ehangach, gan gefnogi marchnadoedd llafur a rhoi mynediad at fwy o gyfleoedd gwaith. Mae Dinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi peirianeg drafnidiaeth fel sector blaenoriaeth a fydd yn bwysig i economi'r rhanbarth dros y 10 – 20 mlynedd nesaf¹²⁴. O ystyried bod gweithgynhyrchu yn rhan bwysig o sylfaen economi Gwent, mae'r rhanbarth mewn sefyllfa dda i gyfrannu at y sector hwn yn y dyfodol. Mae maes Mynediad at Wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn nodi bod llawer o'r bobl sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd yn cael yr anhawster mwyaf i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt drwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus fforddiadwy a dibynadwy. Mae'n bosibl y bydd datblygiad y system Metro yn gwella hyn drwy gynnig cysylltiadau trafndiaeth modern a hygyrch.

Mae Ffordd Blaenau'r Cymoedd (A465) yn llwybr trafndiaeth strategol allweddol hefyd o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws gogledd Gwent. Mae'r ffordd ddeuol bellach wedi'i chwblhau gan gynnig cyfle sylweddol ar gyfer datblygu economaidd, yn ogystal â chysylltu'r rhanbarth â Chanolbarth Lloegr a Gorllewin Cymru.


6.2.2 Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae'r rhan hon o'r Asesiad yn sôn am drafnidiaeth gyhoeddus yng Ngwent, a pha mor hawdd a fforddiadwy yw hi i'w defnyddio. Dylai trafndiaeth gyhoeddus fod yn hygyrch ac yn gynhwysol a galluogi pobl i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd, fel gwaith, gwirfoddoli, cymdeithasu, a chael mynediad at wasanaethau. Dylai teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus fod yn brofiad diogel a phleserus, sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol ac i gael mynediad at wasanaethau yn y gymuned. Mae angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn fforddiadwy hefyd a chludo pobl i'r mannau y maent yn dymuno mynd iddynt, ar yr amser maent yn dymuno mynd yno, yn enwedig os ydym am annog mwy o bobl i beidio â defnyddio eu ceir.

Mae'r ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn amrywio'n sylweddol iawn ar draws Gwent, a hefyd ar draws yr awdurdodau lleol. Mae llwybrau trafndiaeth gyhoeddus yn rhedeg yn bennaf o'r gogledd i'r de, gan gysylltu cymunedau â Chasnewydd a Chaerdydd. Fodd bynnag, nid oes gan rai cymunedau, fel y rheini yng nghymoedd Sirhywi ac Ebwy Fach, neu yn ardaloedd gwledig Sir Fynwy, orsafoedd trenau cyfagos, gan wneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy anodd. At hyn, gan fod llwybrau trafndiaeth gyhoeddus yn rhedeg yn bennaf o'r gogledd i'r de, mae teithio o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws Gwent yn anodd iawn heb ddibynnu ar geir. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd manteisio ar gyfleoedd gwaith, yn enwedig o ystyried y lefelau uchel o gymudo o'r bwrdeistrefi, gan fod teithio i Gasnewydd neu Gaerdydd yn haws na theithio o'r dwyrain i'r gorllewin.

Mae nifer y teithiau ar drenau yn amrywio'n fawr iawn ar draws Gwent. Mae llawer mwy o bobl yn teithio ar drenau yng Nghaerffili a Chasnewydd o'i gymharu â Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy, fel y gwelir yn Ffigur S86, ac mae'r ddau awdurdod lleol hyn wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y teithiau trên rhwng 2002-03 a 2019-20. Mewn cyferbyniad, nid oes fawr ddim cynnydd wedi bod yn y tri awdurdod lleol arall, ac eithrio Blaenau Gwent yn 2007-08, pan agorodd y llinell rhwng Glynebwy a Chaerdydd (nid oedd gorsafoedd trenau ym Mlaenau Gwent cyn hyn). Er bod yr amrywiaeth enfawr yn niferoedd y teithwyr yn adlewyrchu'r boblogaeth fwy yng Nghaerffili a Chasnewydd i ryw raddau, mae hefyd yn adlewyrchu agosrwydd a nifer y gorsafoedd trenau.


Ffigur S86: Teithiau ar drenau yn ôl awdurdodau lleol yng Ngwent, 2002-03 – 2019-20



Ffynhonnell: StatsCymru

Mae cost trafndiaeth gyhoeddus yn rhwystyr rhag cynyddu'r defnydd o drafndiaeth gyhoeddus. Mae data ar gyfer Cymru (gweler Ffigur S87) yn dangos er bod cost teithio ar fysiau yng Nghymru wedi cynyddu ar gyfradd debyg i Brydain Fawr, mae'r gyfradd hon yn uwch o lawer na'r Mynegai Prisïau Defnyddwyr (gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr) (CPIH)¹²⁵. Mewn geiriau eraill, mae cost teithio ar fysiau yn cynyddu ar gyfradd gynt na'r cynnydd yn incwm pobl, gan olygu ei fod yn llai hygyrch i bobl ar incwm is. Er enghraifft, yn 2020 roedd cynnydd o 3.5% ym mhris tocynnau bysiau, o'i gymharu â chynnydd o 2.3% mewn chwyddiant. Mae hyn yn golygu y gall pobl ar incwm isel ei chael yn fwy anodd dod o hyd i gyfleoedd gwaith a chymdeithasol hefyd.

Ffigur S87: Mynegeion gwasanaethau bysiau lleol ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr, 1995 – 2020



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru¹²⁶

Fodd bynnag, gall y dewis arall, sef bod yn berchen ar gar, fod yn anfforddiadwy i bobl ar incwm isel. Yng Nghymru, nid oes gan ddau o bob tri o bensiynwyr sengl gar, gan eu gadael yn ynysig ac yn llai abl i gael mynediad at wasanaethau allweddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig¹²⁷.

Yn ogystal â chost trafndiaeth gyhoeddus i rai, nododd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru nad yw'r rhwydweithiau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol presennol yn ddigonol ar gyfer yr amrywiaeth o deithiau mae pobl yn eu gwneud. Mae gwasanaethau bysiau lleol yn cyfrif am dri o bob pedwar taith a wnaed ar drafndiaeth gyhoeddus yn Ne-ddwyrain Cymru, gyda thua 30 miliwn o deithiau ar fysiau yn cael eu gwneud bob blwyddyn. Gallai gwasanaethau bysiau a choetsys leihau tagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd a hefyd cynnig llawer o fuddion cymdeithasol ehangach. Cyfeiriodd y Comisiwn hefyd at y potensial mawr i wneud mwy o ddefnydd o reilffyrdd yn y rhanbarth. Wrth i Dde-ddwyrain Cymru ddatblygu a thyfu, mae angen cynyddol am ddewisiadau trafndiaeth cynaliadwy newydd¹²⁸.

Un ateb posibl i'r her o wneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch a hyblyg sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yw bysiau Fflecsi, partneriaeth rhwng gweithredwyr bysiau lleol a Thrafnidiaeth Cymru. Y nod yw helpu pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau lleol, drwy alluogi teithwyr i wneud cais i gael eu codi a'u gollwng mewn lleoliadau addas. Mae'r cynllun hwn yn gweithredu yng Nghasnewydd a Blaenau Gwent ar hyn o bryd.

Mae tystiolaeth wedi dangos bod y pandemig wedi effeithio ar niferoedd y teithwyr ar fysiau a threnau, ac amcangyfrifir bod gostyngiad o 95% wedi bod yn y defnydd o drafndiaeth gyhoeddus yn nyddiau cynnar y pandemig o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Mae'r defnydd o geir wedi codi i'w lefelau cyn y pandemig yn llawer cynt na'r defnydd o fysiau a threnau¹²⁹. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn rhan arwyddocaol o flaenoriaethau tymor byr ac uchelgeisiau tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer y system drafndiaeth yng Nghymru, fel y nodwyd yn ei Strategaeth Drafndiaeth 2021¹³⁰. Trwy osod blaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth yng Ngwent a Chymru, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar drawsnewid profiad y cwsmer, dibynadwyedd a phrydlondeb, lleihau cost trafndiaeth gyhoeddus a chefnogi arloesedd digidol, i wella cynllunio ac archebu teithiau, datblygu system docynnau integredig, a gwella gwybodaeth amser real i deithwyr.

Mae angen lleihau effaith trafndiaeth gyhoeddus ar yr amgylchedd hefyd. Mae 'Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 – 2025)' Llywodraeth Cymru yn amlinellu nod i ostwng allyriadau carbon drafndiaeth gyhoeddus 22% yn 2025 (o 2019) ac 98% yn 2050, drwy leihau galw, newid modd a mabwysiadu technolegau carbon isel¹³¹.


6.2.3 Trafnidiaeth breifat

Nod Llywodraeth Cymru yw gostwng nifer y milltiroedd y mae pob unigolyn yn ei deithio mewn ceir 10% erbyn 2030. Erbyn 2025, yr uchelgais yw y bydd 10% o deithwyr yn teithio mewn car sero allyriadau ac y bydd 48% o'r ceir newydd sy'n cael eu gwerthu yn rhai sero allyriadau¹³².

Er mwyn cyflawni hyn mae angen sicrhau mai defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu deithio llesol yw'r opsiwn mwyaf hawdd i bobl ac edrych ar sut gall ein seilwaith digidol alluogi pobl i wneud llai o ddefnydd o'u ceir.

Mae Ffigur S88 yn dangos yr amrywiaeth eang yn nifer y milltiroedd a deithiwyd mewn cerbydau ym mhob awdurdod lleol, wedi'u mesur yn ôl biliwn y cilometrau a deithiwyd mewn cerbydau. Teithiwyd llawer llai o gilomedrau ar ffyrdd Blaenau Gwent a Thorfaen, gan adlewyrchu'r ardal ddaearyddol lai. Teithiwyd y nifer mwyaf o gilometrau yng Nghasnewydd, er gwaethaf maint daearyddol cymharol fach yr ardal, gan ei bod yn ganolfan allweddol ar gyfer gwaith, adwerthu a hamdden, ac mae llawer o bobl o'r rhanbarth yn teithio yno'n ddyddiol ac yn defnyddio ei seilwaith ffyrdd. Sir Fynwy sydd yn yr ail safle, oherwydd ei natur wledig a'i lleoliad strategol fel y porth i Gymru, gyda'r M4, M48 a chefnffyrdd i Ganolbarth Lloegr a'r Cymoedd a De-orllewin Cymru. Teithiwyd pellteroedd sylweddol ar ffyrdd Caerffili hefyd, gan adlewyrchu maint daearyddol yr ardal o bosibl a lefelau uwch o gymudo i Gasnewydd a Chaerdydd.

Ffigur S88: Traffig ffyrdd yn ôl awdurdodau lleol yng Ngwent, 2014 – 2019



Ffynhonnell: StatsCymru

Rhwng 2014 a 2019, mae lefelau traffig Blaenau Gwent wedi aros yn gyson, ond maent wedi cynyddu ym mhob un o ardaloedd eraill Gwent, yn bennaf yn Sir Fynwy a Chasnewydd. Mae cynnydd mewn lefelau traffig yn golygu cynnydd mewn llygredd a gostyngiad yn ansawdd yr aer ar draws Gwent. Yn rhanbarth Gwent mae dwy Ardal Rheoli Ansawdd Awyr yng Nghaerffili, dwy yn Sir Fynwy ac 11 yng Nghasnewydd, ac mae pob un o'r rhain wedi'u datgan oherwydd lefelau nitrogen deuocsid o ganlyniad i lygredd traffig ar hyd ffyrdd a thraffyrdd prysur¹³³. Mae nitrogen deuocsid yn niweidiol i iechyd pobl, ac yn achosi ac yn gwaethygu cyflyrau resbiradol fel asthma¹³⁴.

Er mwyn lleihau'r effaith mae ceir yn ei chael ar yr amgylchedd ac iechyd, bydd yn hanfodol cefnogi'r broses o symud i ddulliau teithio heb allyriadau. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu dulliau teithio llesol a'r defnydd o gerbydau heb allyriadau, gan gynnwys rhai sydd mewn perchnogaeth breifat, fel bysiau a thacsis. Bydd angen i Gwent gael rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan. Mae cyrff cyhoeddus eisoes wedi cydweithio i osod 62 o unedau gwefru cyflym trydan deuol 22kw ar 34 safle ar draws Gwent, ac mae rhagor yn cael eu gosod neu mae cynlluniau ar gyfer eu gosod ar draws y rhanbarth, gan gynnwys ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae gan hydrogen rôl i'w chwarae yn nhaith Gwent i sicrhau trafndiaeth heb allyriadau. Mae Cyngor Sir Fynwy eisoes wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb i'r cyfleoedd i ddefnyddio hydrogen yn ei fflyd¹³⁵, ac mae'r dysgu hwn wedi cael ei rannu ar draws Gwent. At hyn, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi amlinellu ei gynlluniau i ddatblygu'r sector hydrogen yn y rhanbarth¹³⁶.

6.2.4 Teithio llesol

Gall cerdded a beicio wneud cyfraniad pwysig i anghenion teithio llesol. Mae Teithio Llesol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cerdded a beicio yn lle teithio mewn car i fynd i'r gwaith, siopau, ysgol, cyfleuster hamdden, neu i fynd i'r orsaf i ddal trê. Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) yw gwneud teithio llesol y dewis mwyaf deniadol ar gyfer teithiau byr. Mae'n gosod dyletswydd ar gynghorau i wella'n barhaus eu llwybrau teithio llesol, a chynllunio sut bydd llwybrau yn ymuno i greu rhwydweithiau, fel y gall pobl deithio'n haws ar feic neu ar droed.

Bydd annog mwy o bobl i gerdded neu feicio yn eu galluogi i fwynhau'r buddion iechyd mae'r rhain yn eu cynnig. Byddai'r defnydd llai o geir a fyddai'n deillio o ddulliau teithio llesol hefyd yn helpu i wella ansawdd yr aer, gan gael effaith gadarnhaol ar iechyd pawb.

Fodd bynnag, mae ymchwil yn y DU yn nodi bod nifer o rwystrau rhag teithio llesol. Mae ymchwil diweddar gyda phobl rhwng 50 a 70 oed yn nodi'r rhesymau canlynol sy'n atal aelodau o'r grŵp oedran hwn rhag dewis dulliau teithio llesol: pellteroedd rhy hir, tywydd yn rhy wael, pryderon ynglŷn â diogelwch, ofn traffig, diffyg hyder a'r ffaith bod eu symudedd yn fwy cyfyngedig¹³⁷. Mae menywod yn beicio llai na dynion am bob math o resymau, gan gynnwys pryderon am ddiogelwch, pryder ynglŷn â'u hymddangosiad (yn enwedig ymhlith merched yn eu harddegau) ac oherwydd eu bod yn mynd â phlant gyda nhw yn amlach neu'n cario siopa¹³⁸.

Yng Ngwent, mae'r dirwedd fryniog, y pellteroedd hir rhwng aneddiadau a lefelau uchel o allgymudo yn cyfuno i wneud teithio llesol yn fwy heriol. Mewn rhai rhannau o Went, mae e-feiciau yn cael eu rhoi ar brawf fel ffordd o wneud beicio yn ddewis mwy hyfyr i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd bryniog neu wledig, neu i bobl hŷn, ac yn y dyfodol rydym yn debygol o weld e-feiciau yn dod yn ffordd bwysig o wneud teithio llesol yn hygyrch i fwy o bobl yng Ngwent.

Mae pob un o ardaloedd cynghorau Gwent wedi mapio llwybrau presennol ac mae ganddynt gynlluniau ar gyfer rhwydweithiau integredig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe teithio llesol pob awdurdod.

- Blaenau Gwent – [CBS Blaenau Gwent: Rhaglen Teithio Llesol 2021-22](#)
- Caerffili – [Teithio Llesol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)
- Sir Fynwy – [Teithio Llesol Sir Fynwy – Sir Fynwy](#)
- Casnewydd – [Teithio Llesol | Cyngor Dinas Casnewydd](#)
- Torfaen – [Llwybrau a Chynlluniau Teithiol Llesol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#)

Mae Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru, Llywodraeth Cymru eisiau cynyddu lefelau cerdded a beicio i wireddu'r manteision niferus a ddaw yn sgil teithio'n llesol – i unigolion a chymdeithas¹³⁹. Mae plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth: bydd ymddygiad llesol sy'n cael ei ddysgu a'i brif ffyrddio yn gynnar yn helpu i sefydlu ymddygiadau iach am oes. Mae awdurdodau lleol yng Ngwent wedi llwyddo i ddenu arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru i gynyddu teithio llesol.

Mae nifer o'r cyrff cyhoeddus yng Ngwent wedi llofnodi'r Siarter Teithio Iach, sy'n eu hymrwymyo i gefnogi ac annog dewisiadau teithio iach a chynaliadwy.

6.3 Lle mae pobl yn teithio

6.3.1 Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

Mae maes Mynediad at Wasanaethau MALIC yn mesur amddifadedd sy'n cael ei achosi gan anallu aelwyd i gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, yn wasanaethau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Mae'n mesur yr amser teithio i amrywiaeth o wasanaethau fel procsi ar gyfer mynediad wyneb yn wyneb ehangach at wasanaethau. Mae pob dangosydd yn mesur taith ddwyffordd gyfartalog (mewn munudau) o'r cartref i'r gwasanaeth agosaf, ar drafndiaeth gyhoeddus a thrafndiaeth breifat. Mae'r maes hefyd yn cynnwys dangosydd newydd, sy'n mesur mynediad at wasanaethau digidol. Ym maes Mynediad at Wasanaethau MALIC 2019, roedd lefelau uchel o amddifadedd yn gyffredin ar draws ardaloedd gwledig Cymru, lle nad oes llawer o wasanaethau lleol ac mae trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig.

Os ystyrir data MALIC 2019 ar lefel awdurdod lleol er mwyn nodi'r crynodiad o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngwent o ran mynediad at wasanaethau, Sir Fynwy sydd â'r ardaloedd sy'n wynebu'r anawsterau (neu amddifadedd) mwyaf o ran cael mynediad at wasanaethau (gweler Ffigur S89).

Mae'n debygol bod hyn oherwydd natur wledig Sir Fynwy. Wrth edrych ar yr amseroedd teithio, gwelir ei bod yn cymryd amser hir i breswylwyr yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Gwent i deithio i amrywiaeth o wasanaethau sylfaenol, yn enwedig ar drafnidiaeth gyhoeddus. Er enghraifft, yr amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i feddygfa yw 69 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus a 9 munud drwy ddefnyddio trafnidiaeth breifat yn ACHEI Sant Iago 1 yng Nghaerffili, 172 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus ac 19 munud ar drafnidiaeth breifat yn ACHEI Llandeilo Gresynni yn Sir Fynwy, a 72 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus ac 11 munud drwy ddefnyddio trafnidiaeth breifat yn ACHEI Llan-wern 1 yng Nghasnewydd.

Ffigur S89: Nifer a chanran yr ACHElau ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent a oedd yn y categorïau 10%, 20%, 30% a 50% uchaf yng Nghymru ar gyfer maes Mynediad at Wasanaethau MALIC 2019

MALIC 2019 Mynediad at Wasanaethau mewn ardaloedd difreintiedig, yn ôl awdurdod lleol					
	Cyfanswm yr ACHEI	ACHEI 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 191)	ACHEI 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 382)	ACHEI 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 573)	ACHEI 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safleoedd 1 - 955)
Blaenau Gwent	47	0 (0%)	8 (17%)	18 (38%)	24 (51%)
Caerffili	110	1 (1%)	5 (5%)	16 (15%)	29 (26%)
Sir Fynwy	56	15 (27%)	22 (39%)	29 (52%)	37 (66%)
Casnewydd	95	2 (2%)	8 (8%)	22 (23%)	41 (43%)
Torfaen	60	0 (0%)	3 (5%)	7 (12%)	23 (38%)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod pobl sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus lleol yn eu hardal yn fwy tebygol (81%) o fod yn fodlon â'u gallu i gael mynediad at y gwasanaethau mae eu hangen arnynt, o'i gymharu â rhai heb fynediad at wasanaethau o'r fath (54%). Yn yr un modd, roedd pobl sy'n byw yn agos at wasanaethau a chyfleusterau yn fwy tebygol o'u defnyddio; roedd 39% o bobl oedd â llyfrgell yn eu hardal wedi ymweld ag un yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â 28% nad oedd ganddynt lyfrgell yn eu hardal. Roedd yr un peth yn wir am bobl a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, gyda 37% o'r rheini oedd â chanolfan chwaraeon gerllaw yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu'n amlach, o'i gymharu â 29% o'r rhai heb ganolfan chwaraeon. Mae hyn yn dystiolaeth bod y rhai sy'n gallu cael mynediad at wasanaethau yn hawdd yn fwy tebygol o wneud hynny¹⁴⁰.

6.3.2 Cymudo

Mae lleoliad rhanbarth Gwent, ei rwydwaith trafnidiaeth a'i gysylltiadau economaidd yn golygu bod modd cymudo i mewn ac allan o weddill Cymru a rhannau o Loegr yn eithaf hwylus, ond gall fod yn fwy anodd mewn rhai ardaloedd yn y rhanbarth. Mae Ffigur S90 yn rhoi gwybodaeth am batrymau cymudo yn ôl pob awdurdod lleol yng Ngwent a'r llif rhwng Cymru a gweddill y DU.

Ffigur S90: Lefelau cymudo ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent

	Cyfanswm y preswylwyr sydd mewn gwaith ac sy'n byw yn yr ardal	Cyfanswm y bobl sy'n gweithio yn yr ardal	Cyfanswm y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr un ardal	Cyfanswm y bobl sy'n cymudo o'r ardal	Cyfanswm y bobl sy'n cymudo i'r ardal
Blaenau Gwent	30,800	19,700	14,900 (48%)	15,900	4,700
Caerffili	84,500	61,400	44,400 (53%)	40,100	17,000
Sir Fynwy	45,500	44,900	25,900 (57%)	19,700	19,000
Casnewydd	73,100	82,200	45,300 (62%)	27,800	36,900
Torfaen	40,900	34,100	22,400 (55%)	18,500	11,700
De-ddwyrain Cymru	709,400	677,500	647,100	62,400	30,400
Cymru	1,430,400	1,378,400	1,330,100	100,300	48,400

Ffynhonnell: StatsCymru

Mae Ffigur S90 yn dangos bod llawer mwy o bobl yn allgymudo o ardaloedd Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen nag sy'n cymudo i'r ardaloedd hynny. Mae lefel cymudo i mewn ac allan o Sir Fynwy yn debyg, ond mae lleoliad Casnewydd a'r cyfleoedd swyddi yno yn golygu bod llawer mwy o bobl yn cymudo i'r ardal. Wrth edrych ar y ffigurau ar gyfer y ganran o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr un sir, mae 62% o breswylwyr Casnewydd yn byw ac yn gweithio yno, o'i gymharu â 48% o breswylwyr Blaenau Gwent, gan adlewyrchu'r nifer llai o swyddi sydd ar gael yn lleol ym Mlaenau Gwent. Mae'r lefelau cymudo uchel hyn oll yn cyfrannu at allyriadau carbon a materion yn ymwneud ag ansawdd aer ar draws Gwent.

Mae'r pandemig wedi arwain at newid sylweddol yn y ffordd mae rhai pobl yn gweithio a'u lleoliad gwaith ac mae'r sefyllfa hon yn parhau. Yng Ngwent, mae'r patrymau cymudo a ddangosir yn y tabl uchod yn ymwneud â phatrwm gwaith arferol yr ymatebwyr, petai cyfyngiadau Covid-19 ddim yn eu lle.

Yn ôl Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 bydd Llywodraeth Cymru 'yn cefnogi gweithio o bell fel y gall pobl weithio mewn swyddfa yn agos i'w cartref un diwrnod yr wythnos neu fwy, yn hytrach na chymudo pellteroedd hir, yn unol â tharged ehangach Llywodraeth Cymru i weld 30% o'r gweithlu yn gweithio o bell yn rheolaidd.'¹⁴¹

Mae ymchwil wedi nodi y gall gweithio gartref neu o bell gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar les. Mae cyfleoedd a heriau yn dal i fod ynghlwm â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wrth weithio gartref ac mae angen ystyried y rhain. Er enghraifft, er bod teithio i'r gwaith yn llai aml yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gall yr effaith fod yn llai cadarnhaol ar gynnal cydraddoldeb rhywedd, amrywiaeth a rhyngweithio cymdeithasol. Hefyd, mae llawer o swyddi, fel arfer rhai sy'n talu llai, lle nad yw gweithio gartref yn opsiwn.

6.3.3 Hygyrchedd a thrafnidiaeth

Mae ymchwil wedi dangos bod argaeledd a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus ar draws pob rhan o Gwent yn dal i fod yn heriol i breswylwyr. Gall rhwystrau o ran trafnidiaeth gyhoeddus effeithio ar

fynediad i gyflogaeth, gwasanaethau, a chyfleoedd i gymdeithasu â phobl eraill. O ganlyniad, gall gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol, teimlad o gynhwysiant a byw'n annibynnol.

Gwelodd ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) fod pobl hŷn a phobl anabl yn ystyried trafndiaeth gyhoeddus yn anhygyrch iawn ac yn rhwystr rhag teithio'n annibynnol¹⁴². Mae adroddiad yr EHRC 'A yw Cymru'n Decach?'¹⁴³ yn tynnu sylw at hygyrchedd fel problem, gan fod hanner gorsafoedd trenau Cymru yn anhygyrch i bobl anabl ac nid oes mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn 34% ohonynt. Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at allu pobl i gael mynediad at drafndiaeth fel ffactor pwysig mewn perthynas ag unigrwydd a bod yn ynysig, a nodwyd bod hyn yn her fawr yn yr ardaloedd gwledig.

Yn ogystal â bod yn hygyrch, dylai trafndiaeth gyhoeddus fod yn ddiogel i bobl ei ddefnyddio. Gwelodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 fod 79% o oedolion yn teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafndiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu, o gymharu â 97% a oedd yn teithio mewn car ar ôl iddi dywyllu. Roedd menywod yn llai tebygol (68%) na dynion (89%) o deimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafndiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu.

Yn yr un modd, mae heriau yn bodoli wrth wneud teithio llesol yn hygyrch i grwpiau oedran a grwpiau demograffeg gwahanol, gan gynnwys pryderon ynglŷn â diogelwch, pellteroedd a llwybrau cerdded a beicio diogel.

Nid oes un diffiniad neu fesur cytunedig ar gyfer tlodi trafndiaeth eto, ond mae'n cyfeirio'n fras at aelwydydd ac unigolion sy'n cael trafferth neu'n methu gwneud y teithiau mae angen iddynt eu gwneud. Mae effeithiau tlodi trafndiaeth yn waeth i bobl dlawd mewn ardaloedd gwledig lle mae'r dewisiadau eraill hyd yn oed yn fwy cyfyngedig. Yn ôl y dystiolaeth mae perthynas rhwng incwm a'r math o drafndiaeth a ddefnyddir. Mae pobl ar incwm is yn gwneud mwy o ddefnydd o fysiau, ac mae pobl ar incwm uwch yn defnyddio ceir a threnau yn amlach. Fforddiadwyedd yn hytrach na dewis sydd i gyfrif am hyn: mae bysiau yn rhatach na threnau, ac mae bod yn berchen ar gar a'i redeg yn gostus¹⁴⁴.

6.4 Tueddiadau a heriau'r dyfodol

Mae gan drafndiaeth rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi lles pobl, yn awr ac yn y dyfodol. O fynd â phlant i'r ysgol, cludo pobl i'r gwaith a chysylltu ffrindiau a theuluoedd, mae symud o gwmpas yn rhan bwysig o'n bywydau bob dydd.

Mae gallu teithio yn golygu y gall pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fel ymweld ag atyniadau hanesyddol a diwylliannol, defnyddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden, ac mae'n helpu pobl i gadw'n iach ac yn weithgar yn gorfforol.

Rydym yn gwybod y gall diffyg trafndiaeth a materion yn ymwneud â fforddiadwyedd atal pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymunedau rhag cael mynediad at waith neu addysg a'r gweithgareddau diwylliannol neu gymdeithasol sy'n dod â phobl ynghyd gan helpu i greu ymdeimlad o berthyn. O ystyried rôl bwysig trafndiaeth a'r angen i fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae angen i ni ystyried dull integredig wrth gynllunio, dylunio ac adeiladu cymunedau. Mae angen canolbwyntio ar sut a ble y byddwn yn darparu gwasanaethau, gan roi mwy o gymorth i bobl yn lleol a gwneud teithio yn fwy hygyrch, effeithlon a fforddiadwy.

Mae trafndiaeth yn cefnogi ein llesiant economaidd ehangach drwy ein galluogi i symud nwyddau, gwasanaethau a deunyddiau crai. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cyfeirio at rôl bwysig peirianeg drafndiaeth yn ffyniant yr economi ranbarthol dros y degawd nesaf a thu hwnt, ac mae sylfaen cyflogaeth Gwent mewn sefyllfa dda i gyfrannu at y sector hwn.

Mae llawer o'n dulliau gweithredu trafndiaeth presennol yn cael effaith negyddol ar ein hamgylchedd. Yn ogystal â symud at rwydwaith trafndiaeth carbon sero, mae angen i system drafndiaeth Gwent yn

y dyfodol fod yn ddigon cadarn i wynebu hinsawdd sy'n newid. Rydym eisoes wedi gweld yr effaith ddinistriol gall llifogydd ei chael ar ein system drafnidiaeth yng Ngwent.

Mae gorboethi yn risg sydd wedi'i nodi ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, ac mae Asesiad Risg Hinsawdd y DU 2017 hefyd yn nodi risgiau i seilwaith trafndiaeth oherwydd gwyntoedd uchel a mellt, a bod angen mwy o ymchwil i ddeall sut bydd cyfraddau llystyfiant cynyddol yn effeithio ar y risgiau o ddifrod gan goed yn cwmpo yn ystod stormydd¹⁴⁵.

Mae'r Asesiad hwnnw hefyd yn nodi risgiau i rwydweithiau trafndiaeth oherwydd bod llethrau ac argloddiau wedi methu a bod angen cymryd mwy o gamau i nodi'r argloddiau a'r hafnau sydd mewn perygl o fethu a'r camau ar gyfer eu hadfer. Mae hefyd yn nodi'r potensial i amharu llai ar drafnidiaeth yn sgil llai o achosion o dywydd oer eithafol fel eira ac iâ – gallai hyn hefyd leihau costau cynnal.

Mae'r pandemig wedi dangos nad oedd angen i ni deithio bob amser, ac y gellir gwneud rhai pethau o bell gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Mae datblygiadau technolegol ym maes trafndiaeth hefyd yn symud yn eu blaen ac maent yn debygol o lywio'r ffordd y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn teithio, o gefnogi'r symudiad at Gymru carbon sero, i ddileu'r angen i deithio mor aml.

Bydd hyn yn golygu bod y ffordd y bydd pobl, nwyddau a gwasanaethau yn symud o amgylch Gwent a thu hwnt yn debygol o newid yn y dyfodol. Mae teithio yn mynd i fod yn angenrheidiol bob amser, ond lle y bo'n bosibl, dylem fod yn defnyddio technoleg i'n helpu i deithio llai. Er mwyn cefnogi'r dyfodol hwn, bydd angen i Gwent gael system drafnidiaeth gyhoeddus sy'n gyflymach ac yn cynnig gwasanaethau amlach, mwy cysylltiedig, gan olygu bod gan bobl ddewis arall yn hytrach na theithio mewn car.

Mae datblygiadau trafndiaeth yn gysylltiedig â thrydaneiddio cerbydau ffyrdd, moderneiddio gwasanaethau rheilffyrdd a datblygu cerbydau awtonomaidd yn mynd rhagddynt. Bydd newid patrymau teithio yn golygu bod angen i'n seilwaith, gweithgynhyrchwyr a darparwyr gwasanaeth arloesi i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau mewn ffyrdd newydd. Mae cyflwr anghyfartal y seilwaith presennol a lefel y buddsoddiad sydd ei angen i greu seilwaith symudedd y dyfodol yn golygu y gall y cyfleoedd ganolbwyntio'n bennaf ar ddinasoedd. Yr her i Gwent yw cadw ar y blaen ar y datblygiadau ym maes trafndiaeth ac anghenion trafndiaeth pobl yn y dyfodol, ac i ddatblygu ei seilwaith yn unol â hyn, er enghraifft, y seilwaith gwefru sydd ei angen ar gyfer gwefru cerbydau trydan a datblygiadau mewn rwydweithiau gwefru a thechnoleg storio ynni, a all gael ei ehangu ymhellach gyda thechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel hydrogen¹⁴⁶.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar drafnidiaeth, gyda'r gwahanol gyfyngiadau ar deithio. Mae Comisiwn Trafndiaeth De-ddwyrain Cymru wedi nodi bod pobl yn aml wedi gorfod aros yn lleol a chysylltu'n ddigidol yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi dangos – ar raddfa genedlaethol – sut gall defnydd o dir a thechnoleg gynig dewisiadau eraill i drafnidiaeth. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r rhain yn ddewisiadau na fydd pobl efallai yn dymuno eu defnyddio bob amser, ond mae'r profiad presennol wedi dangos dichonoldeb amrediad ehangach o ddewisiadau. Mae hyn yn hynod o berthnasol i weithio o bell a gweithio hyblyg, o ystyried y pwysau mae cymudo ar amseroedd brig yn ei roi ar y system drafnidiaeth¹⁴⁷.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi nodi bod y pandemig wedi newid y tirlun yn sylweddol i ddarparwyr trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol, ac i'r bobl hŷn hynny a oedd yn dibynnu ar y gwasanaethau hynny. Mae llawer o wasanaethau wedi bod yn rhedeg gyda llai o gapasiti ac amserlenni cyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn ac mae llawer o bobl hŷn (a oedd yn defnyddio gwasanaethau trafndiaeth yn rheolaidd) wedi bod yn amharod i ddychwelyd i'w gweithgareddau rheolaidd¹⁴⁸.

Yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut bydd yn ystyried gwelliannau i'r seilwaith trafndiaeth yn y dyfodol gyda'r nod o leihau allyriadau carbon. Mae'r rhain

yn cynnwys seilwaith ar gyfer tanwyddau newydd fel hydrogen, technoleg sy'n hwyluso gweithrediadau awyrennau a chargo mwy cynaliadwy, ac arloesi o ran deunyddiau er mwyn gwella bywyd gwasanaethau, cyflymder adeiladu a chynnal ac sy'n lleihau'r effaith amgylcheddol¹⁴⁹.

7 Yr hyn mae ein preswylwyr wedi ei ddweud wrthym

Wrth ddadansoddi'r ymatebion i'n Harolwg Llesiant roedd yn bwysig deall y gall llesiant cymdeithasol gynnwys gwahanol agweddau fel iechyd, diogelwch cymunedol a thrafnidiaeth ar draws rhanbarth Gwent.

Yn ystod ein dadansoddiad gwnaethom ddysgu fod ymatebwyr ar draws Gwent eisiau **teimlo'n ddiogel** yn eu cymunedau lleol er mwyn gwella llesiant ar draws y rhanbarth. Dywedodd pobl nad ydynt yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned oherwydd problemau parhaus fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau, alcohol a mân droseddau eraill, fel fandaliaeth a graffiti sy'n bla yn eu cymunedau lleol. At hyn, mynegodd ymatebwyr eu hanfodlonrwydd ynglŷn â'r diffyg goleuadau stryd yn y nos, a oedd yn cyfrannu llawer iawn at eu rhesymau dros beidio â mynd allan gyda'r nos. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos ymatebwyr benywaidd, a ddywedodd fod ganddynt ofn cerdded adref ar eu pen eu hunain gyda'r nos.

Dywedodd preswylwyr hefyd fod **diffyg presenoldeb amlwg yr heddlu** yn cyfrannu at y cynnydd mewn trosedd yn lleol. Pan ofynnwyd beth gellid ei wneud er mwyn helpu i atal y problemau, cyfeiriodd y preswylwyr at sut gallai presenoldeb mwy amlwg gan yr heddlu a mwy o oleuadau stryd sy'n cael eu monitro'n rheolaidd a'u goleuo a'u diffodd, ac amseroedd gweithredu cyson, helpu i gyfrannu at wella llesiant. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr o'r ardaloedd mwy gwledig yng Ngwent yn cydnabod bod tawelwch a natur wledig eu hardaloedd lleol yn cyfrannu at y teimlad o ddiogelwch yn lleol ac y byddent yn teimlo'n gyfforddus i gerdded ar unrhyw adeg o'r dydd.

Ar draws y rhanbarth, dywedodd pobl wrthym fod angen **gofal iechyd o ansawdd gwell** er mwyn helpu i wella ffordd o fyw preswylwyr yn eu cymunedau. Dywedodd ymatebwyr fod cael gofal iechyd hygrych i bobl o bob oed yn agwedd bwysig ar fyw mewn cymuned.

Pan ofynnwyd beth fyddai'n gwneud eu hardal leol yn well, awgrymodd yr ymatebwyr y byddai cyflwyno **uned mân anafiadau** yn helpu i leddfu rhywfaint ar y pwysau ar wasanaethau GIG critigol, gan gynnig gwell gwasanaeth gofal iechyd yn y tymor hir. At hyn, dywedodd ymatebwyr ei bod yn bwysig fod gwasanaethau gofal iechyd modern yn derbyn cymorth er mwyn helpu i fodloni'r galw yn y boblogaeth bresennol.

Ffigur S91: Y tri chategori a dderbyniodd y nifer mwyaf o ymatebion yn ymwneud â materion cymdeithasol ar gyfer pob un o'r prif gwestiynau yn yr Arolwg Llesiant (mae'r ffigyrau mewn cromfachau yn nodi nifer yr ymatebion)

Beth sy'n arbennig am eich cymuned?	Beth fyddai'n ei gwneud yn lle gwell?	Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?	Sut fydddech chi'n hoffi i'ch cymuned edrych yn y dyfodol?	Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?
Ysbryd cymunedol (414)	Mynediad i drafnidiaeth (120)	Mynediad i gyfleusterau (152)	Diogelwch cymunedol (235)	Ymgysylltiad cymunedol (170)

Ymlyniad cymunedol (290)	Mynediad i gyfleusterau (90)	Mynediad i drafnidiaeth (120)	Ysbryd cymunedol (153)	Gwirfoddoli (76)
Diogelwch cymunedol (141)	Llai o draffig (30)	Mynediad i ofal iechyd (65)	Ymlyniad cymunedol (116)	Grwpiau cymunedol (48)


Ffynhonnell: Arolwg Llesiant Gwent, 2022

Yn ôl yr ymatebwyr, mae ysbryd y cymunedau lle maent yn byw yn bwysig iawn, gan fod dros 400 o ymatebion wedi nodi mai dyma'r peth mwyaf arbennig am fyw yng Ngwent. At hyn, dywedodd dros 150 o ymatebwyr bod cael mynediad at gyfleusterau ar draws y rhanbarth yn bwysig iddynt a'u teuluoedd.

Mynegodd yr ymatebwyr sut y byddent yn hoffi gweld **mwy o gyfleoedd yn y dyfodol i gymunedau lleol helpu i wella eu llesiant**. Mynegodd yr ymatebwyr fod diffyg cyfleoedd ar gael i ymgysylltu fel cymuned, fel canolfannau cymunedol neu neuaddau lleol y gellid eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau neu gyfarfodydd cymunedol rheolaidd.

Mynegodd y cymunedau yr angen hefyd am **ragor o gyfleoedd i bobl ifanc** mewn cymunedau, gan fynegi bod diffyg gweithgareddau i bobl ifanc, fel cyfleusterau chwaraeon, sy'n golygu bod ganddynt lai o awydd ymgysylltu â'u cymunedau. Roedd hyn yn amlwg iawn mewn ardaloedd gwledig ar draws Gwent, lle mae mwy o breswylwyr hŷn yn byw yn y cymunedau.

Ffigur S92: Yr hyn mae ymatebwyr yn ei ddweud sy'n arbennig am eu cymuned a beth gellid ei wella



Mae Ffigur S92 yn dangos yn glir bod ysbryd cymunedol yn thema gyffredin yn yr ymatebion i'r arolwg, a dywedodd dros 600 o ymatebwyr fod ysbryd cymunedol yn cyfrannu at yr hyn sy'n gwneud eu cymunedau yn arbennig.

Roedd diogelwch cymunedol yn thema bwysig arall a ddaeth i'r amlwg yn yr arolwg, ac roedd ychydig o dan 600 o ymatebion yn gysylltiedig â'r thema hon. Ar draws Gwent cyfeiriodd yr ymatebwyr at y ffaith bod eu cymunedau yn ddiogel i fyw ynddynt, a dywedodd eraill y gallai camau (fel gwell goleuadau stryd a mwy o bresenoldeb gan yr heddlu) gael eu cymryd er mwyn helpu i wella'r teimlad o ddiogelwch yn eu cymunedau lleol.

- ¹ UK Climate Change Risk Assessment 2017, Synthesis report: priorities for the next five years, Committee on Climate Change
- ² <https://www.gwent.police.uk/advice/advice-and-information/hco/hate-crime/what-is-hate-crime/>
- ³ <https://ashfutures.co.uk/>
- ⁴ <https://www.caerphillypsb.co.uk/wp-content/uploads/2020/11/Horizon-scanning-report-FINAL.pdf>
- ⁵ <https://www.swansea.ac.uk/gdpo/>
- ⁶ <https://smallbusiness.co.uk/cyber-fear-financial-public-sector-2018-2542076/>
- ⁷ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-49153593>
- ⁸ <https://www.fastcompany.com/40539812/new-unisys-tool-brings-machine-learning-to-border-security>
- ⁹ <https://www.rusi.org/explore-our-research/publications/occasional-papers/big-data-and-policing-assessment-law-enforcement-requirements-expectations-and-priorities>
- ¹⁰ [Tueddiadau'r Dyfodol: 2021 | LLYW.CYMRU](#)
- ¹¹ Met Office (2020a) Major update to key global temperature dataset Met Office: <https://www.metoffice.gov.uk/research/news/2020/major-update-to-key-global-temperature-data-set>
- ¹² WMO (2021a) State of the Global Climate. Geneva: World Meteorological Organization https://library.wmo.int/doc_num.php?explnum_id=10618
- ¹³ Cadw (2020a) Historic Environment and Climate Change in Wales [https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2020-02/Adaptation%20Plan%20-%20FINAL%20WEB%20-%20English%20\(1\).pdf](https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2020-02/Adaptation%20Plan%20-%20FINAL%20WEB%20-%20English%20(1).pdf)
- ¹⁴ Lindley, S; O'Neill, J; Kandeh, J; Laweson, N; Christian, R; O'Neill, M (2011) Climate change, justice and vulnerability, Joseph Rowntree Foundation <https://www.jrf.org.uk/report/climate-change-justice-and-vulnerability>
- ¹⁵ PLASC 2020/21 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Provision-of-Meals-and-Milk/pupilsaged5to15eligibleforfreeschoolmeals-by-localauthorityregion-year>
- ¹⁶ PLASC 2020/21 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Provision-of-Meals-and-Milk/pupilsaged5to15eligibleforfreeschoolmeals-by-localauthorityregion-year>
- ¹⁷ EAS Regional Business Plan, 2021-22 <https://democracy.monmouthshire.gov.uk/documents/s28221/BP%20consultation%2021-22%202nd%20draft.pdf>
- ¹⁸ PLASC 2020/21 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andover-by-localauthorityregion-ethnicity>
- ¹⁹ Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/flying-start-april-2019-march-2020-html>
- ²⁰ Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd gan Data Cymru <https://www.opendata.wales/dataset/view?siteId=49097a03-6589-4899-b5c0-3cbaf8e062b7&datasetId=20125d0e-2bba-eb11-90ff-00155d084d17>
- ²¹ Estyn, https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Effective%2520school%2520support%2520for%2520disadvantaged%2520and%2520vulnerable%2520pupils%2520en_0.pdf
- ²² Gwent Population Needs Assessment <http://www.gwentrbp.wales/population-needs-assessment>
- ²³ Joseph Rowntree Foundation <https://www.jrf.org.uk/blog/how-we-can-flush-out-poverty-stigma-our-systems-and-services>
- ²⁴ Poverty and Low Educational Achievement In Wales: Student, Family and Community Intervention <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/wales-education-poverty-summary.pdf>
- ²⁵ StatsWales <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/Care-Leavers-at-19th-Birthday/care-leavers-at-19th-birthday-careleaversontheir19thbirthdayduringyearending31march-by-localauthority-activity>
- ²⁶ Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/young-people-not-education-employment-or-training-neet-2020>
- ²⁷ House of Commons Library, NEET: Young people Not in Education, Employment or Training <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN06705/SN06705.pdf>

- ²⁸ House of Commons Library, NEET: Young people Not in Education, Employment or Training <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN06705/SN06705.pdf>
- ²⁹ Swyddfa Ystadegau Gwladol <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/article/s/graduatesintheuklabourmarket/2017>
- ³⁰ Swyddfa Ystadegau Gwladol <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/adhoc/s/12501employedgraduatesinnongraduaterolespartsoftheuk2015to2019>
- ³¹ BBC <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50130590>
- ³² HM Revenue and Customs, <https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-29-july-2021>
- ³³ What Works Wellbeing Lifelong learning: what are the wellbeing co-benefits? - What Works Wellbeing
- ³⁴ What Works Wellbeing Adult learning - What Works Wellbeing
- ³⁵ HEFCE, https://dera.ioe.ac.uk/30632/1/HEFCE2017_31.pdf
- ³⁶ Llywodraeth Cymru <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-your-curriculum/developing-a-vision-for-curriculum-design/#curriculum-design-and-the-four-purposes>
- ³⁷ Llywodraeth Cymru <https://hwb.gov.wales/professional-development/the-national-strategy-for-educational-research-and-enquiry-nser/research-studies-on-the-impact-of-the-covid-19-pandemic-on-the-welsh-education-system/research-study-6/>
- ³⁸ Adnoddau Naturiol Cymru
- ³⁹ Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/21st-century-schools-programme>
- ⁴⁰ Education Achievement Service <https://democracy.monmouthshire.gov.uk/documents/s28221/BP%20consultation%2021-22%202nd%20draft.pdf>
- ⁴¹ Cymwysterau Cymru <https://qualificationswales.org/media/7778/summer-2021-gcse-results-summary.pdf>
- ⁴² BBC News <https://eur03.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fwww.bbc.co.uk%2Fnews%2Feducation-57255380&data=04%7C01%7CSianSchofield%40monmouthshire.gov.uk%7C0af941e9e21c446f6c2208d94b72d117%7C2c4d0079c52c4bb3b3cad8eaf1b6b7d5%7C0%7C0%7C637623778760400128%7CUnknown%7CTWFpbGZsb3d8eyJWIjoiMC4wLjAwMDAiLCJQIjoiV2luMzIiLCJBTiI6Ij1haWwiLCJXVCi6Mn0%3D%7C1000&sdata=PQqfUhhqyqNKI8WJGmLzVcY7qEBVlruW7KnacSq602I%3D&reserved=0>
- ⁴³ Children's Commissioner for Wales <https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/coronavirus-and-me-survey-results-2021/>
- ⁴⁴ Pandemic boosts automation and robotics | Financial Times (ft.com)
- ⁴⁵ Gwent Futures research, Ash Future, 2018
- ⁴⁶ Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- ⁴⁷ The Future of Jobs - Reports - World Economic Forum (weforum.org)
- ⁴⁸ Gwent Futures research, Ash Future, 2018
- ⁴⁹ Michael Marmot, Jessica Allen, Peter Goldblatt, Eleanor Herd, Joana Morrison (2020) Build Back Fairer: The COVID-19 Marmot Review: The Pandemic, Socioeconomic and Health Inequalities in England, London Institute of Health Equity
- ⁵⁰ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru
- ⁵¹ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru
- ⁵² Currie, J. et al. 2021. Life expectancy inequalities in Wales before COVID-19: an exploration of current contributions by age and cause of death and changes between 2002 and 2018. Public Health 193.
- ⁵³ Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019
- ⁵⁴ Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019
- ⁵⁵ Gap in life expectancy at birth for males between the most and least deprived fifth, 2015 to 2017. Public Health Wales Observatory, 2019
- ⁵⁶ Gap in life expectancy at birth for females between the most and least deprived fifth, 2015 to 2017. Public Health Wales Observatory, 2019
- ⁵⁷ <https://www.theguardian.com/world/2020/dec/10/covid-life-expectancy-england-wales> , 10th December 2020

-
- ⁵⁸ Making a Difference: Investing in Sustainable Health and Well-Being for the People of Wales, Public Health Wales NHS Trust
- ⁵⁹ Measuring Inequalities 2016: Trends in Mortality and Life Expectancy in Aneurin Bevan UHB, Public Health Wales NHS Trust
- ⁶⁰ Cancer Research UK. <https://www.cancerresearchuk.org/health-professional/cancer-statistics/risk>
- ⁶¹ Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016
- ⁶² Promoting healthy weight in children, young people and families: A resource to support local authorities, Public Health England (2018)
- ⁶³ Child Measurement Programme for Wales 2017/18, Public Health Wales NHS Trust
- ⁶⁴ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-58144671>
- ⁶⁵ Welsh Adverse Childhood Experiences (ACE) Study: Adverse Childhood Experiences and Their Impact on Health-Harming Behaviours in the Welsh Adult Population, Public Health Wales (2015)
- ⁶⁶ <https://111.wales.nhs.uk/Exercise/>
- ⁶⁷ <https://111.wales.nhs.uk/Exercise/>
- ⁶⁸ <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/howhaslockdownchangedourrelationshipwithnature/2021-04-26>
- ⁶⁹ Alcohol yng Nghymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (Mawrth 2019)
- ⁷⁰ Ysmygu yng Nghymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020)
- ⁷¹ <https://publichealthwales.shinyapps.io/smokinginwales/>
- ⁷² Maternity dataset (NWIS), Public Health Wales Observatory
- ⁷³ <https://publichealthwales.shinyapps.io/smokinginwales/>
- ⁷⁴ Making a Difference: Investing in Sustainable Health and Well-Being for the People of Wales, Public Health Wales NHS Trust
- ⁷⁵ Fit for Future Generations: A Childhood Obesity Strategy for Gwent to 2025 - Consultation Document (Aneurin Bevan University Health Board)
- ⁷⁶ Foresight Tackling Obesities, Future Choices Project, Government Office for Science
- ⁷⁷ Making a Difference: Investing in Sustainable Health and Well-being for the People of Wales, Public Health Wales NHS Trust
- ⁷⁸ https://www.diabetes.org.uk/in_your_area/wales/diabetes-in-wales
- ⁷⁹ <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/primary-care-division/all-wales-diabetes-prevention-programme/#Reports>
- ⁸⁰ Mental Health Foundation, 2015
- ⁸¹ Joint Commissioning Panel for Mental Health, 2015
- ⁸² Health and Poverty in Caerphilly in Blaenau Gwent, Citizen's Advice Caerphilly Blaenau Gwent, November 2021
- ⁸³ Mental Well-being in Wales, Public Health Wales Observatory, 2020
- ⁸⁴ Student Health and Wellbeing in Wales: Report of the 2019/20 School Health Research Network Student Health and Wellbeing Survey; School Health Research Network
- ⁸⁵ Connected Communities: A strategy for tackling loneliness and social isolation and building stronger social connections, Welsh Government, 2020
- ⁸⁶ Experiences of people aged 50 or over in Wales during the winter Covid-19 lockdown, and the road to recovery, Age Cymru, May 2021
- ⁸⁷ Talk to Me 2: Suicide & Self-harm Prevention Strategy Wales 2015-2020, Welsh Government
- ⁸⁸ Suicides in England and Wales: 2020 Registrations, Office for National Statistics
- ⁸⁹ Bipolar Diagnosis Matters: 'A light in the dark' The early finding of the Bipolar Commission – October 2021, Bipolar UK
- ⁹⁰ <https://www.caerphillypsb.co.uk/wp-content/uploads/2020/11/Horizon-scanning-report-FINAL.pdf>
- ⁹¹ <https://www.philips.com/a-w/about/news/archive/future-health-index/articles/20171030-access-electronic-health-records.html#:~:text=Sweden%20recently%20updated%20its%20national,funded%20health%20and%20dental%20care.>
- ⁹² <https://gov.wales/future-trends-2021>
- ⁹³ <https://www.planningportal.co.uk/wales/planning/about-the-planning-system/local-plans>

-
- ⁹⁴ Local authority 2018-based population projections, Welsh Government
- ⁹⁵ Households by Local Authority and Year, StatsWales
- ⁹⁶ Household projections by local authority and year, StatsWales
- ⁹⁷ Households by Type and Year, StatsWales
- ⁹⁸ Dwelling stock estimates by local authority and tenure, StatsWales
- ⁹⁹ StatsWales, Compliance with the overall Welsh Housing Quality Standard by provider and measure (gov.wales)
- ¹⁰⁰ Welsh Local Government Association, Private Sector Housing - WLGA
- ¹⁰¹ 2011 Census Table KS403EW
- ¹⁰² Average survey of hours and earnings (ASHE), ONS, 2020; Average pay combining residence-based and work-placed based earnings; House price to income ratio based on workplace-based earnings
- ¹⁰³ Average survey of hours and earnings (ASHE), ONS, 2020
- ¹⁰⁴ www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/bulletins/housingaffordabilityinenglandandwales/2020#local-authority-analysis;
- ¹⁰⁵ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Affordable-Housing/Provision/additionalaffordablehousingprovision-by-location-year>
- ¹⁰⁶ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Affordable-Housing/Provision/additionalaffordablehousingprovision-by-location-provider>
- ¹⁰⁷ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Affordable-Housing/Provision/additionalaffordablehousingprovision-by-location-year-funding>
- ¹⁰⁸ Fuel Poverty Estimates for Wales, Welsh Government
- ¹⁰⁹ Welsh Government Tackling Fuel Poverty 2021 to 2035 <https://gov.wales/tackling-fuel-poverty-2021-2035>
- ¹¹⁰ Welsh Housing Conditions Survey (WHCS) 2017-18: Local area Fuel Poverty estimates modelling and results summary <https://gov.wales/local-area-fuel-poverty-estimates-april-2017-march-2018>
- ¹¹¹ UK Climate Change Risk Assessment 2017, Synthesis report: priorities for the next five years. Committee on Climate Change.
- ¹¹² Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/homelessness-april-2020-march-2021>
- ¹¹³ Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/homelessness-april-2020-march-2021>
- ¹¹⁴ Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/homelessness-april-2020-march-2021>
- ¹¹⁵ Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/homelessness-april-2020-march-2021>
- ¹¹⁶ UK Climate Change Risk Assessment 2017, Synthesis report: priorities for the next five years. Committee on Climate Change.
- ¹¹⁷ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.
- ¹¹⁸ Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- ¹¹⁹ Renewable and Low Carbon Energy Assessment Regional Summary, Carbon Trust, December 2020
- ¹²⁰ Welsh Government Future Trends Report 2017
- ¹²¹ Investment Prospectus Prosperity for our Place Appendix 1: Passenger Rail Vision <https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2021/06/investment-propsectus-appendix-1-passenger-rail-vision-english.pdf>
- ¹²² Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru: Argymhellion terfynol ([Final Recommendations \(gov.wales\)](#))
- ¹²³ Metro De Cymru, Trafnidiaeth Cymru <https://trc.cymru/south-wales-metro>
- ¹²⁴ Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- ¹²⁵ Llywodraeth Cymru, Cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2019 – Mawrth 2020 <https://gov.wales/public-service-vehicles-buses-and-taxis-april-2019-march-2020-html#ftn2>
- ¹²⁶ Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o 'Arolwg Tocynnau Bws' yr Adran Drafndiaeth. Mynegai ar 31 Mawrth 2020 [Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus \(bysiau a thacsis\): Ebrill 2019 i Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU](#)
- ¹²⁷ Is Wales Fairer? Equality and Human Rights Commission, 2018 (Is Wales Fairer? (2018) | Equality and Human Rights Commission (equalityhumanrights.com)
- ¹²⁸ Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru: Argymhellion terfynol ([Final Recommendations \(gov.wales\)](#))
- ¹²⁹ Putting the Public back into Public Transport (Putting the 'public' back into public transport (senedd.wales)
- ¹³⁰ Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021, Llywodraeth Cymru ([Llwybr Newydd A New Wales Transport Strategy 2021: full strategy \(gov.wales\)](#))
- ¹³¹ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-10/net-zero-wales-carbon-budget-2-2021-25.pdf>
- ¹³² <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-10/net-zero-wales-carbon-budget-2-2021-25.pdf>
- ¹³³ <https://airquality.gov.wales/laqm/air-quality-management-areas>
- ¹³⁴ <https://airquality.gov.wales/about-air-quality/pollutants>

-
- ¹³⁵ <https://democracy.monmouthshire.gov.uk/documents/s21789/4b%20Jacobs%20hydrogen%20report%20-%20strong%20comms%20-%20july.pdf>
- ¹³⁶ <https://www.cardiffcapitalregion.wales/news-events/latest-news/the-pathway-for-developing-our-hydrogen-energy-sector/>
- ¹³⁷ Active travel and mid-life: Understanding the barriers and enablers to active travel | Centre for Ageing Better (ageing-better.org.uk)
- ¹³⁸ Why don't more women cycle? | Cycling UK
- ¹³⁹ An Active Travel Action Plan for Wales (An Active Travel Action Plan for Wales - English (gov.wales))
- ¹⁴⁰ National Survey for Wales, Welsh Government (Access to local services and facilities (National Survey for Wales): April 2017 to March 2018 | GOV.WALES)
- ¹⁴¹ Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Llywodraeth Cymru (Llwybr Newydd A New Wales Transport Strategy 2021: full strategy (gov.wales))
- ¹⁴² Accessible public transport for older and disabled people in Wales, Equality and Human Rights Commission, December 2020 ([Accessible public transport for older and disabled people in Wales \(equalityhumanrights.com\)](https://equalityhumanrights.com))
- ¹⁴³ A yw Cymru'n Decach?, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018 ([Is Wales Fairer? \(2018\) | Equality and Human Rights Commission \(equalityhumanrights.com\)](https://equalityhumanrights.com))
- ¹⁴⁴ Transport and Inequality: An evidence review for the Department for Transport (Transport and inequality (publishing.service.gov.uk))
- ¹⁴⁵ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report Summary for Wales
- ¹⁴⁶ Summary Horizon Scanning Report, Ash Futures, March 2018
- ¹⁴⁷ Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Argymhellion Terfynol)
- ¹⁴⁸ Consultation Response – Llwybr Newydd – a new Wales transport strategy (210125_Response_to_Llwybr_Newydd_a_new_Wales_transport_strategy.sflb.ashx (olderpeoplewales.com))
- ¹⁴⁹ Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Llywodraeth Cymru ([Llwybr Newydd A New Wales Transport Strategy 2021: full strategy \(gov.wales\)](https://gov.wales))